



Cyfarfod

PWYLLGOR IAITH

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD LLUN, 30AIN IONAWR, 2023

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Rhodri Jones

01286 679256

rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 20 Ionawr 2023)

PWYLLGOR IAITH

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Alan Jones Evans
Olaf Cai Larsen
Llio Elenid Owen
Elfed Williams

Elfed Wyn ap Elwyn
Jina Gwyrfai
Gwynfor Owen
Meryl Roberts
Sasha Williams

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Richard Glyn Roberts
Eirwyn Williams
Sedd Wag - Annibynnol

Peter Thomas
Gruffydd Williams

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelod arall a wahoddir

Y Cynghorydd Menna Jones, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol– Y Gymraeg

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYG

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryg ym marn y Cadeirydd fel y gellr eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 10 Hydref 2022 fel rhai cywir.

5. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN ADDYSG

14 - 23

I gyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr adran i'r Polisi Iaith.

6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

24 - 29

I gyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr adran i'r Polisi Iaith.

7. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN TAI AC EIDDO

30 - 37

I gyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr adran i'r Polisi Iaith.

8. CANLYNIADAU CYFRIFIAD 2021 - YR IAITH GYMRAEG

38 - 50

Rhannu Gwybodaeth o'r Cyfrifiad am niferoedd a chyfran y siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd.

9. COMISIYNYDD Y GYMRAEG: ADRODDIAD SICRWYDD 2021-22

51 - 100

Er gwybodaeth yn unig.

10. LLYWODRAETH CYMRU: LLYTHYR GAN WEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG

101 - 102

Er gwybodaeth yn unig, ni fydd trafodaeth ar gynnwys y llythyr. Mae'r eitem hon wedi cael ei gyfieithu i'r Saesneg gan y Cyngor.

PWYLLGOR IAITH: DYDD LLUN, 10 HYDREF 2022

YN BRESENNOL:

Y Cynghorwyr: Efed Wyn ap Elwyn (Cadeirydd),
Llio Elenid Owen (Is-Gadeirydd)

Menna Baines, Jina Gwyrfai, Olaf Cai Larsen, Gwynfor Owen, Richard Glyn Roberts, Meryl Roberts, Peter Thomas, Efed Wyn Williams, Gruffydd Williams a Sasha Williams.

Swyddogion: Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Gwenllian Mair Williams (Ymgynghorydd Iaith), Llio Mai Dafydd (Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

ERAILL A WAHODDWDYD:

Cynghorydd Elwyn Jones (Cadeirydd y Cyngor) a Richard Medwyn Hughes (Is-Gadeirydd y Cyngor)

- Eitem 6: Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd) a Carwyn Meredydd (Uwch Swyddog Gweithredol Adran Amgylchedd).
- Eitem 7: Meirion Williams (Pennaeth Cynorthwyol Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)
- Eitem 8: Dewi Morgan (Pennaeth Adran Cyllid).
- Eitem 9: Llio Mai Dafydd (Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Y Cynghorydd Eirwyn Williams.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw fater bryd.

4. COFNODON

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2022 fel rhai cywir.

5. LLYWODRAETH CYMRU: LLYTHYR GAN WEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG

Cyflwynwyd y llythyr hwn er gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor gan yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu a nodwyd y prif bwyntiau isod:

- Eglurwyd bod cyn-aelodau'r pwyllgor wedi ysgrifennu at Weinidog Y Gymraeg ac Addysg cyn yr etholiad ym mis Mai 2022 i ddatgan pryder nad oedd Microsoft Teams yn darparu cyfieithu ar y pryd ac roedd rhaid cynnal y cyfarfodydd yn Saesneg.
- Ymhelaethwyd bod y llythyr a yrrwyd gan y cyn-aelodau yn gofyn am gael darpariaeth cyfieithu ar y pryd yn ddi-ofyn ym mhob cyfarfod er mwyn i'r cyfarfodydd gallu cael eu cynnal yn Gymraeg.

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r pwyllgor drafod a holi cwestiynau:

- Mynegwyd siomiant ym mhenderfyniad y Llywodraeth i aros dwy flynedd a hanner cyn cynnal ei cyfarfodydd dros Zoom. Nid ydi Microsoft Teams wedi bod yn ymdopi'n dda gyda systemau cyfieithu ar y pryd yn ystod y cyfnod yma ac yn y cyfamser mae cyfieithu ar safon eilradd wedi cael ei ddarparu dros y ffôn wrth i fynychwyr ymuno â'r cyfarfod ar eu cyfrifiaduron. Ychwanegwyd bod rhaid i gyfranwyr hysbysu'r trefnwyr os ydynt yn dymuno siarad Cymraeg. Nodwyd os byddai 10% o fynychwyr y cyfarfod yn gwneud hyn, dyma pryd byddai'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu. Eglurwyd os nad oedd digon o geisiadau i gyfrannu yn Gymraeg, nid oedd dewis ond cyfrannu'n Saesneg.
 - Mewn ymateb i'r pwyntiau hyn, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith bod Microsoft Teams newydd ddiweddarau ei systemau cyfieithu. Ymhelaethwyd bod y Cyngor yn ei dreialu ar hyn o bryd cyn ei ddefnyddio yn y cyfarfodydd. Cadarnhawyd bod profiad y defnyddiwr yn bwysig iawn ac felly ni fydd Microsoft Teams yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor nes bod ansawdd y gwasanaeth yn cyfateb â beth sy'n cael ei ddarparu gan Zoom.
 - Mewn ymateb i'r pwyntiau hyn, pwysleisiodd yr Ymgynghorydd Iaith nad nid dewis y Llywodraeth ydi gosod gofyniad o 10% o'r mynychwyr wneud cais i siarad drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd cyn cael gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Cadarnhawyd bod hyn yn rhan o safonau ieithyddol ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eu dilyn. O ganlyniad, mynegwyd bod y Llywodraeth yn cydymffurfio â'r safonau.
- Mynegwyd siomiant bod y Llywodraeth ddim yn teimlo eu bod nhw angen mynd gam ymhellach na'r safonau i annog mwy o siaradwyr Cymraeg. Ymholwyd pa mod rhagweithiol ydi'r Llywodraeth i hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau darpariaeth cyfieithu.
 - Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd yr Ymgynghorydd Iaith bod agweddau amrywiol i hyrwyddo'r iaith o fewn y Llywodraeth. Ymhelaethwyd bod y Llywodraeth yn ddibynnol iawn ar swyddogion i hyrwyddo'r iaith ond nad ydi'r ddarpariaeth yno o hyd i allu gwneud hynny'n effeithiol.
- Cytunwyd bod y Llywodraeth angen bod yn cefnogi Swyddogion a Gweinidogion i siarad Cymraeg yn y gweithle. Cadarnhawyd bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ddull cyfoes o allu cynnal cyfarfodydd yn Gymraeg ond mae angen mynd ymhellach i sicrhau dyfodol yr iaith.
- Gofynnwyd sut mae'r safonau iaith yn cael eu gosod.
 - Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd yr Ymgynghorydd Iaith bod y safonau yn rhan o ddeddfwriaeth y Llywodraeth. Cadarnhawyd bod y safonau yma yn cael eu monitro gan y Comisiynydd Iaith ac mae'r un safonau yn cael eu gosod ar Lywodraethau Lleol. Aethpwyd ymlaen i gadarnhau bod y safonau wedi cael eu hysgrifennu gyda'r meddylfryd bod cyfarfodydd yn cael eu

cynnal yn Saesneg yn ddiodyn. Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal eu cyfarfodydd yn Gymraeg yn ddiodyn ac felly yn mynd ymhellach na gofynion y safonau.

- Diolchwyd am y llythyr.

PENDERFYNWYD

- Ymateb i'r llythyr yn mynegi siom nad oedd eu hymateb yn fwy cadarnhaol. Bydd y llythyr hwn yn pwysleisio'r angen i annog siaradwyr Cymraeg i siarad Cymraeg yn y gweithle yn ogystal â gwella'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Cadarnhawyd bydd y llythyr hefyd yn gofyn am gadarnhad sut mae' llywodraeth yn hyrwyddo'r iaith gan eithrio dilyn y gofynion safonau ieithyddol wrth gynnal cyfarfodydd rhithiol.
- Trefnu trafodaeth yn y cyfarfod nesaf am ddyfodol cynghorau tref er mwyn sicrhau dyfodol defnydd yr iaith Gymraeg yn eu cyfarfodydd.

6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN AMGYLCHEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Amgylchedd, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd ac Uwch Swyddog Gweithredol Adran Amgylchedd a thynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Adroddwyd bod 91.7% o swyddogion yr adran yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd a mynegwyd balchder gan fod hyn yn uwch na chyfartaledd y Cyngor. Cadarnhawyd bod 78.5% o holl swyddogion yr adran wedi cwblhau hunan asesiad o sgiliau iaith ac mae'r adran yn annog y swyddogion sydd yn weddill i'w gwblhau cyn gynted â phosibl.
- Cadarnhawyd bod 14 o swyddogion yr adran ddim yn cyrraedd dynodiad ieithyddol ei swydd ond maent yn cael eu hannog i fynychu amrywiol gyrsiau a hyfforddiant. Mae'r adran yn annog swyddogion i fanteisio ar gwrs gloywi iaith. Canmolwyd y safle wê gan ei fod yn adnodd da sy'n rhoi cymorth i swyddogion yn ogystal â'r fforwm iaith. Pwysleisiwyd bod sgysiau o hyd yn dechrau yn y Gymraeg ac mae pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau fod pawb yn teimlo'n gyffyrddus i feithrin eu sgiliau a hyder ieithyddol.
- Pwysleisiwyd nad ydi'r ffigyrau hyn yn cynnwys swyddogion y gwasanaethau gwastraff sydd wedi trosglwyddo o'r adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol yn ddiweddar.
- Mynegwyd balchder bod y gwasanaeth rheolaeth adeiladu wedi llwyddo i annog pobl i sicrhau bod enwau eu tai yn aros yn enwau Cymraeg, neu annog perchnogion i newid enwau eu tai yn ôl i'r Gymraeg gan ddangos pwysigrwydd enwau traddodiadol iddynt. Bu i'r gwasanaeth Cynllunio hefyd hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy ddilyn polisi PS1 sy'n rhoi ystyriaeth fanwl i'r iaith wrth ddelio gyda cheisiadau cynllunio.
- Eglurwyd bod cyfran o waith yr adran yn cael ei allanoli i gontractwyr. Sicrhawyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud i warchod yr iaith. Pwysleisiwyd bod gwahoddiadau i dendr yn ogystal â chanllawiau yn cael ei wneud yn y ddwy-ieithog. Nodwyd bod trafferthion yn gallu codi wrth geisio cyfieithu contractau cenedlaethol safonol gan bod ystyr y contractau yn gallu cael ei newid yn hawdd. Er hyn, adroddwyd bod yr adran wedi bod yn llwyddiannus i gael contractau Cymraeg gydag cwmnïau bws drwy teilwra contractau eu hunain.

- Manylwyd mai un o brif rwystrau sy'n wynebu'r adran yn ddiweddar ydi diffyg recriwtio. Cadarnhawyd ei fod yn anodd recriwtio swyddogion cymwysedig yn gyffredinol ar draws gwasanaethau'r adran a bod yr her yn dwysau wrth ymdrechu i recriwtio swyddogion cymwysedig sydd hefyd yn meddu a sgiliau ieithyddol digonol.
- Ymhelaethwyd bod yr adran wedi bod yn llwyddiannus i recriwtio hyfforddai proffesiynol yn y gwasanaeth traffig sy'n meddu a sgiliau ieithyddol cryf. Mae'r adran yn parhau i fuddsoddi ynddo er mwyn sicrhau ei fod yn gymwysedig i gyflawni'r rôl yn hyderus. Mynegwyd pryder bod sefyllfaoedd yn codi ble mae'r adran yn buddsoddi mewn pobl a'u bod yn eu colli yn y pendraw i'r sector preifat neu awdurdodau lleol eraill gan fod y cyflog yn uwch yn y lleoliadau hyn. Yn anffodus, mae sawl swyddog o'r adran wedi newid swyddi i leoliadau eraill o herwydd hyn.
- Esboniwyd bod yr adran yn arwain ar dacio'r argyfwng newid hinsawdd a natur. Sicrhawyd bod yr holl drafodaethau sy'n cael eu cynnal yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg neu bod defnydd o'r iaith yn cael ei annog os nad oes modd eu cynnal yn gwbl Gymraeg.

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau:

- Gofynnwyd a ydi trafferthion recriwtio wedi gwaethygu yn dilyn Pandemic Covid-19. Holiwyd hefyd pa gamau mae'r adran yn eu cymryd i sicrhau fod swyddogion newydd yn dysgu sgiliau Cymraeg pan fydd gofynion ieithyddol yn cael eu lleihau wrth hysbysebu am yr ail neu drydydd gwaith.
 - o Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd Pennaeth Adran Amgylchedd bod trafferthion recriwtio wedi bod ers rhai blynyddoedd er mwyn sicrhau fod swyddogion yn gymwysedig ac yn meddu â sgiliau'r Gymraeg. Mae sgiliau ieithyddol dal yn bwysig ar gyfer swyddi yn yr adran hyd yn oed os ydi swydd yn cael ei hysbysebu mwy nag unwaith. Nodwyd bod mwy o ymgeiswyr yn ymgeisio am swyddi pan mae'r dynodiad iaith yn cael ei leihau. Bydd pwyso a mesur yn cael ei roi ar gyfer cymhwysedd yr ymgeiswyr a'u sgiliau ieithyddol er mwyn sicrhau bod y swyddog gorau yn cael ei recriwtio. Mae dibyniaeth yn cael ei roi ar yr ymgeisydd llwyddiannus hwnnw i feithrin eu sgiliau ieithyddol pan maent wedi cael y swydd ac yn naturiol mae rhai unigolion yn mynd i fod yn fwy ymroddgar i'r iaith nag eraill. Mae'r adran yn rhoi anogaeth a chefnogaeth i bawb sydd angen cymorth ychwanegol gyda'r Gymraeg yn syth wrth iddyn nhw gychwyn y swydd.
- Holiwyd os oes gan yr adran gynllunio unrhyw reolaeth ar enwau busnesau yn ogystal ag enwau tai. Teimlwyd bod enwau cwmnïau yn uniaith Saesneg yn ddiweddar ac fe fyddai'n ddefnyddiol i drigolion ac ymwelwyr petai enwau'r cwmnïau yn Gymraeg neu ddwyieithog.
 - o Mewn ymateb i'r ymholiad nododd Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd bod rheolaeth yr adran ar enwau busnes yn gyfyngedig gan nad yw pob arwydd angen caniatâd cynllunio. Dim ond mewn sefyllfa ble mae datblygiad neu arwydd angen caniatâd cynllunio bydd yr adran yn gallu rheoli bod enwau'r busnesau a hyrwyddir yno yn Gymraeg neu'n ddwyieithog a hynny drwy osod amod cynllunio i'r perwyl hyn.
 - o Mewn ymateb i'r ymholiad nododd Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu byddai'r sylwadau hyn yn cael eu pasio ymlaen i'r Adran Economi a

Chymuned yn ogystal â'r Tim Cefnogi Busnes er mwyn iddynt bod yn ymwybodol o bryderon yr aelodau.

- Ystyriwyd os byddai'r adran yn debygol o recriwtio swyddogion di-gymraeg yn y dyfodol o ystyried bod mwy o bwysau a galw am eu gwasanaethau yn sgil deddfwriaethau newydd.
 - o Mewn ymateb i'r ymholiad nododd Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd nad ydi'r heriau recriwtio yn broblem sy'n newydd i'r adran. Gan fod trafferthion wedi bod ers rhai blynyddoedd mae'r adran yn ceisio denu ymgeiswyr mewn sawl ffordd gwahanol erbyn hyn. Nodwyd bod yr adran gynllunio wedi cael ei ddewis fel adran beilot ar gyfer prosiect cynllunio gweithlu sydd yn flaenoriaeth gwella yng Nghynllun y Cyngor. Mae swydd ddisgrifiadau yn cael eu hadolygu a'u harfarnu er mwyn eu creu yn fwy cystadleuol gydag awdurdodau cyfagos. Mae cais wedi cael ei wneud gan yr adran er mwyn cael hyfforddai newydd i ymuno â'r tîm i dderbyn tair mlynedd o hyfforddiant cymhwysio hefyd. Er y trafferthion recriwtio, mae'r adran yn ymwybodol bod y mwyafrif o'u gwaith yn delio â unigolion a'r cymunedau ac felly mae sgiliau iaith yn hanfodol. Ni fydd hyn yn newid ac bydd pob anogaeth a chefnogaeth i bawb ddatblygu sgiliau Cymraeg.
- Gofynnwyd sut mae'r iaith Gymraeg yn cael ei flaenoriaethu o fewn y gwasanaeth cynllunio pan mae llawer o newidiadau ar y gorwel a dim digon o swyddogion ar hyn o bryd i gyrraedd gofynion ar amser.
 - o Mewn ymateb i'r ymholiad adroddodd Pennaeth Adran Amgylchedd bod amserlenni ymateb i geisiadau cynllunio wedi llithro ychydig yn barod. Cyfaddefwyd bod pwysau ar y gwasanaeth gorfodaeth cynllunio, a heriau gyda'r amser gymerir i benderfynu ar geisiadau cynllunio, a bod hefyd oblygiadau ychwanegol o ran staffio gyda chyflwyno a gweithredu ar gyfarwyddyd Erthygl 4 i gael rheolaeth gwell o dai Haf. Bydd angen sicrhau bod swyddogion ychwanegol ar gael i ymdopi a'r llwyth gwaith. Fel trafodwyd yn gynharach, mae pob ymdrech yn cael ei wneud i ganfod ymgeiswyr cymwys gyda sgiliau Cymraeg digonol ac mae pob cefnogaeth ar gael i unrhyw ymgeisydd cymwys sydd angen cymorth i feithrin eu sgiliau ieithyddol. Ni fydd yr adran yn diystyru cais oherwydd bod yr ymgeisydd ddim yn cyrraedd safon dynodiad iaith y rôl, gan fod ymrwymiad unigolion i ymdrechu i wella eu sgiliau ieithyddol yn newid o achos i achos.
- Mynegwyd balchder bod dros 91% o swyddogion yr adran yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd a gofynnwyd os oes modd cael gwybod faint o'r staff sydd yn deall a siarad Cymraeg ond ddim yn cyrraedd y dynodiad ieithyddol.
 - o Mewn ymateb i'r ymholiad nododd yr Ymgynghorydd Iaith bod adrannau'r cael adroddiad ar ddynodiadau iaith o leiaf dwywaith y flwyddyn a bydd gwybodaeth bellach yn cael ei ddarparu wrth drafod eitem olaf y cyfarfod hwn.
- Tynnwyd sylw at y ffaith fod Parc Cenedlaethol Eryri yn awdurdod cynllunio ar gyfer y Parc ac felly gyda'r cyfrifoldeb am ddelio gyda geisiadau cynllunio, materion gorfodaeth ac am baratoi polisi cynllunio o fewn ardal y Parc
- Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

- Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

7. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cynorthwyol Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol, a thynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Adroddwyd bod 94.5% o swyddogion yr adran yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd. Yn anffodus, dim ond 39% o'r adran sydd wedi cwblhau'r holiadur. Gan mai dyma yw'r gyfradd leiaf o holl adrannau'r Cyngor, mae'n anodd dweud faint o bobl sydd yn cyrraedd eu dynodiad iaith.
- Ymhelaethwyd bod ystyriaeth wedi cael ei roi i fynediad at yr holiadur a bod nifer o staff rheng flaen yr adran wedi methu cwblhau'r adroddiad gan nad oes ganddynt fynediad at gyfrifiadur. Trafodwyd gyda'r Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg i geisio symleiddio'r holiadur ar lein yn ogystal â gyrru copi caled o'r holiadur gyda llythyr o eglurhad gan bennaeth yr adran ond yn anffodus nid yw'r mwyafrif o swyddogion wedi ei gwblhau, gan mai cynnydd o 14% sydd i'w weld yn nifer yr ymatebion i flwyddyn ddiwethaf.
- Trafodwyd gyda swyddogion i dderbyn adborth pan nad oedden nhw eisiau cwblhau'r holiadur a bu sawl rheswm o eglurhad:
 - Roedd rhai yn credu ei fod yn broses ddiwerth.
 - Roedd rhai yn poeni am eu dyfodol mewn cyflogaeth os nad oedden nhw'n cyrraedd y dynodiad iaith.
- Mynegwyd bwriad i weithio ar y cyd gyda'r Adran Amgylchedd i geisio cael mwy o adborth i'r holiadur hwn, gan gadarnhau bod gweithwyr casglu gwastraff bellach wedi trosglwyddo i'r adran honno.
- Eglurwyd bod recriwtio swyddogion proffesiynol a rheng flaen wedi bod yn rhwystr yn y cyfnod diwethaf. Mae hyn wedi bod yn broblem benodol gyda gweithwyr gwasanaeth casglu sbwriel a glanhau strydoedd yn ardal Meirionnydd. Er bod y dynodiad iaith yn sylfaenol yn y rolau yma, mae'r adran wedi gorfod pwysu a mesur pwysigrwydd cyflogi gweithwyr gyda sgiliau Cymraeg, gyda darparu gwasanaeth o safon.
- Adroddwyd bod yr adran wedi bod yn llwyddiannus yn penodi swyddog sydd wedi datblygu ei hyder a sgiliau ieithyddol. Bu i'r ymgeisydd gyflwyno ei gais yn y Gymraeg ac ers hynny wedi cael ei benodi yn amodol ei fod yn mynychu cwrs iaith yn Nant Gwrtheyrn. Roedd y swyddog yn awyddus iawn i fynychu a bellach yn cyfathrebu yn llafar ac yn ysgrifenedig yn safonol iawn ac yn hyderus ei natur.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau:

- Mynegwyd pryder nad oedd rhai o dermau technegol yr adran yn cael eu cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg. Mae prosesau cyfieithu yn effeithiol iawn yng Nghymru ac felly holiwyd os oes modd ail ymweld a'r mater hwn.
 - o Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd Pennaeth Cynorthwyol Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol bod amryw o gamau allanoli gwaith yn digwydd yn ddwyieithog ond yn aml iawn mae amodau yn cael eu cynnwys yn uniaith Saesneg oherwydd bod ystyr yn gallu amrywio'n hawdd wrth gael ei gyfieithu. Mae hyn yn golygu bod y mwyafrif o'r dogfennau yn cynnwys yr iaith Gymraeg ond bod rhai manau sydd yn defnyddio Saesneg yn unig.

- Trafodwyd nifer o materion sy'n gysylltiedig â dynodiadau iaith. Roedd rhai o'r rhain yn cynnwys rheoli llithriad tuag at ddefnydd Saesneg yn y swyddfa er budd swyddogion sy'n dysgu Cymraeg, a chysidro bod rheolwyr llinell yn cymryd mwy o rôl i lenwi ffurflenni asesiad sgiliau iaith.
 - o Mewn ymateb i'r ymholiadau, cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Iaith bod holl faterion sy'n ymwneud â dynodiadau iaith yn cael ei drafod yn Eitem 9 ar ddiwedd y cyfarfod hwn. Os bydd unrhyw gwestiwn yn codi yn dilyn y cyflwyniad, y byddai'n briodol i'r aelodau eu gofyn yn ystod y drafodaeth honno.
- Ymfalchiwyd yn y straeon o swyddogion sydd wedi llwyddo i wella eu sgiliau Cymraeg ers ymuno â'r adran Amgylchedd yn ogystal â Phrifyfyrdd a Bwrdeistrefol. Holiwyd os oes prosiectau ar y gweill i hyrwyddo llwyddiannau unigolion fel hyn i osod esiampl ar gyfer swyddogion eraill sy'n ceisio gwella eu sgiliau ieithyddol.
 - o Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd y Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg bod llwyddiannau o'r fath yn cael eu rhannu ar safle iaith fewnol y staff. Yn ogystal â hyn mae Gwobr Dafydd Orwig ar gael yn flynyddol i annog swyddogion i barhau i feithrin eu sgiliau Cymraeg.

PENDERFYNWYD

- Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

8. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN CYLLID

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth yr Adran Gyllid, a thynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Adroddwyd bod y mwyafrif helaeth o staff yr adran wedi cwblhau'r hunan asesiad sgiliau iaith ddiweddar. Dengys y canlyniadau bod 216 o'r gweithlu yn cyrraedd dynodiad swydd, gyda 2 aelod o staff yn methu i'w gyrraedd. Nodwyd bod 96% o staff wedi llenwi'r hunan asesiad a bod y 4% sydd heb ei gwblhau, heb wneud hynny gan eu bod yn newydd i'w rôl. Cadarnhawyd bod y 4% yma yn gyfwerth â 11 aelod o staff.
- Ymhelaethwyd bod pob ymdrech wedi ei wneud er mwyn sicrhau bod y 2 aelod o staff nad oedd yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd yn cael eu hannog a chefnogi i fynd ar gyrsiau hyfforddi i fagu eu hyder. Cadarnhawyd bod y swyddogion yn yr achosion hyn wedi mynychu cyrsiau ond yn parhau i fod ychydig yn ddihyder yn eu sgiliau iaith ac wedi marcio eu hunain yn llym wrth lenwi'r asesiad.
- Manylwyd nad ydi'r adran wedi bod yn llwyddiannus yn hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob agwedd o'r gwaith. Mae'r adran yn cysylltu yn rheolaidd gyda cwmnïau technegol arbenigol yn ogystal â darparwyr technoleg gwybodaeth. Mae llawer o'r cwmnïau hyn yn dod o'r Unol Daliaethau fel rheol ac er bod pob ymdrech yn cael ei wneud i gychwyn trafodaeth yn Gymraeg, mae'r adran yn bod yn realistig i ystyried pryd gall gyrru dogfennau Cymraeg bod yn effeithiol neu'n rhwystrol. Er hyn, sicrhawyd nad ydi'r ffaith bod cysylltiadau gyda ychydig o'r cwmnïau hyn yn digwydd yn Saesneg ddim yn atal yr adran rhag darparu gwasanaeth Cymraeg o'r radd flaenaf i staff a thrigolion Gwynedd.
- Pwysleisiwyd bod y rhan fwyaf o ddogfennau yn cael eu cynnal yn ddwyieithog neu yn Gymraeg. Mae gwaith hanfodol wedi cael ei gyflawni i sicrhau bod holl dermau technegol yr adran wedi cael eu Cyfieithu ac felly mae gan bobl Gwynedd yr opsiwn

i lenwi unrhyw ffurflen megis, ffurflenni trethi neu geisiadau am fudd-daliadau yn ogystal â darllen adroddiadau, yn y Gymraeg os ydynt yn dymuno.

- Diweddarwyd bod y gwasanaeth technoleg gwybodaeth bellach wedi diweddarau meddalwedd Windows holl gyfrifiaduron y defnyddwyr yn y Cyngor i fod yn defnyddio'r Gymraeg fel iaith diofyn y cyfrifiadur yn hytrach na Saesneg. Mae hyn wedi cael ei annog yn y gorffennol ond yn ddiweddar mae'r newid hwn wedi bod yn orfodol ar holl ddyfeisiau'r Cyngor.
- Esboniwyd bod yr adran wedi datblygu darpariaeth Dysgu Ddigidol ers mis Ebrill eleni. Bu i hyn gymryd lle yn dilyn y broses o ddirwyn cwmni Cynnal i ben a mewnllo'r gefnogaeth roeddent yn ei ddarparu. Fel rhan o'r gefnogaeth honno mae'r adran yn gyfrifol am ddarparu gliniadur i holl athrawon y sir ac yn y broses o ddarparu gliniaduron i holl ddisgyblion blynyddoedd 7 i 11 o fewn ysgolion Gwynedd. Cadarnhawyd bydd y rhain hefyd yn defnyddio Cymraeg fel iaith y cyfrifiadur.
- Eglurwyd bod ychydig o newid wedi bod i ddefnyddwyr allanol gan fod banc Barclays wedi cau cangau allweddol i'r adran gan gynnwys Caernarfon, Porthmadog a Dolgellau. Golyga hyn fod pobl yn colli'r cyfle i sgwrsio yn Gymraeg yn y banc ac yn debygol o orfod delio gyda'r banc ar lein neu dros y ffôn yn fwy aml. Er hyn, mae gwasanaeth amgen wedi cael ei sefydlu gyda'r swyddfa bost ac felly mae dibyniaeth yn cael ei roi ar allu staff y swyddfa bost i allu siarad Cymraeg.
- Cyfeiriwyd at nifer o enghreifftiau eraill ble mae'r adran yn ceisio sicrhau defnydd o Gymraeg. Nodwyd bod cynllun cyfeillion wedi cael ei sefydlu ble mae dysgwyr Cymraeg yn cael ei baru gyda swyddog o wasanaeth arall yr adran ac yn cael cefnogaeth gyda meithrin eu sgiliau ieithyddol. Cyfeiriwyd hefyd bod mewnrwyd yr adran yn cael ei ddiweddarau i gynnwys geiriadur o eiriau defnyddiol gwasanaethau'r adran i wneud defnydd o'r Gymraeg yn haws i'r staff. Cadarnhawyd bod yr adran yn parhau i weithio'n agos gyda'r Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg er mwyn sicrhau fod popeth yn cael ei wneud i alluogi swyddogion i weithio a chyfathrebu'n Gymraeg yn hyderus a naturiol.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau:

- Canmolwyd yr adran am eu penderfyniad pendant o newid iaith cyfrifiaduron o Saesneg i Gymraeg a holiwyd os oedd yr adran wedi derbyn unrhyw bryder neu ymateb negyddol yn sgil y newid hwn?
 - Mewn ymateb i'r ymholiad nododd Bennaeth Adran Cyllid bod staff y gwasanaeth technoleg gwybodaeth wedi bod yn ofni ymateb negyddol i'r newid yma. Er hyn, nid oes ymatebiad negyddol wedi bod. Yn naturiol, mae staff wedi cymryd amser i ddod i arfer gyda'r newid ond yn gyffredinol mae pawb yn cofio ble mae'r eiconau a botymau ac mae'r derminoleg Gymraeg wedi dal i fyny gyda hynny.
- Gofynnwyd a oes bwriad i ehangu'r cynllun cyfeillion i'w ddefnyddio ar draws y cyngor?
 - Mewn ymateb i'r ymholiad nododd Pennaeth Adran Cyllid y byddai'n hapus iawn i wneud hyn o fewn yr adran. Er hyn, dim ond un swyddog sy'n gymwys ar gyfer y cynllun ar hyn o bryd ac felly nid oes sgôp i'w ehangu o fewn yr adran ar hyn o bryd.
 - Mewn ymateb i'r ymholiad nododd y Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg bod y cynllun hwn ar gael i bob adran o'r cyngor. Bu iddo gael ei

greu yn wirfoddol gan unigolion wedi iddynt fynychu cyrsiau gloywi iaith ac eisiau sicrhau bod defnydd rheolaidd o'r iaith er mwyn iddynt allu meithrin eu sgiliau.

- Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

- Derbyn yr adroddiad gan nodi sylwadau a dderbyniwyd.

9. DIWEDDARIAD PROSIECT BLAENORIAETH DYNODIADAU IAITH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg, a thynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Adroddwyd ar hanes y prosiect dynodiadau iaith gan gadarnhau ei fod yn deillio o drafodaethau'r Pwyllgor Iaith yn 2015 cyn i safonau ieithyddol newydd ddod i rym yn 2016. Yn sgil y prosiect, mae gan y Cyngor well dealltwriaeth o'r gwahanol sgiliau ieithyddol sydd gan y gweithlu ac yn gallu cynnig cefnogaeth fwy addas i feithrin sgiliau ieithyddol y staff.
- Cadarnhawyd bod y prosiect hefyd wedi cael ei ddatblygu i roi dynodiadau iaith ar wahanol swyddi'r Cyngor. Bydd gan swyddogion fwy o ymwybyddiaeth o'r lefel sgil angenrheidiol i gwblhau'r gwaith yn effeithiol oherwydd hyn.
- Eglurwyd bod y prosiect wedi bod yn flaenllaw er mwyn sefydlu system iaith fewnol sy'n cadw'r wybodaeth am sgiliau iaith staff ac er mwyn sefydlu proses i rannu gwybodaeth am gyrsiau, rhannu adborth a llwyddiannau gyda'r gwahanol adrannau. Hefyd fel rhan o'r prosiect, datblygwyd safle iaith mewnol. Dangoswyd gwahanol rannau o'r safle iaith hwn i'r aelodau.
- Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau a godwyd yn ystod y trafodaethau blaenorol a nodwyd y wybodaeth isod:
 - o Esboniwyd bod y broses o gasglu gwybodaeth drwy'r holiadur hunan asesu yn amrywiol. Nodwyd bod rhai pobl yn hapus i'w lenwi ar lein ac eraill yn dymuno derbyn copi papur. Eglurwyd bod y rheolwr yn darparu'r wybodaeth ar gyfer y prosiect mewn sefyllfaoedd ble nad oes gan weithwyr fynediad agos at gyfrifiadur, neu eu bod nhw yn weithwyr rheng flaen. Y bwriad ydi i'r wybodaeth gael ei gasglu yn y dull mwyaf syml i'r gweithwyr er mwyn i bawb gael cyfle i'w lenwi. Eglurwyd hefyd bod swyddogion y prosiect yn deall bod rhai pobl yn amheus o lenwi holiaduron a bod sgiliau iaith yn gallu bod yn fater sensitif i lawer.
 - o Tybiwyd bod nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn uwch mewn rhai adrannau nag beth sydd yn cael ei nodi yn y canfyddiadau. Nodwyd bod rhai pobl yn gallu siarad Cymraeg ond ddim yn cyrraedd y dynodiad iaith ac felly ddim yn cael eu cynnwys mewn rhai ffigyrau. Cadarnhawyd mai dyma oedd prif nod yr holiadur er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r gwahanol lefelau sgil sydd yn bodoli mewn gwahanol dimau er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth berthnasol ar gael i swyddogion.
- Dangoswyd copi o'r holiadur fel esiampl i'r aelodau.
- Nodwyd bod y prosiect ffurfiol yn dod i ben yn y misoedd nesaf. Cadarnhawyd bod y broses o gasglu gwybodaeth am sgiliau iaith staff yn parhau i ddigwydd, ond bod prif

ffocws y swyddogion yn symud i sicrhau bod staff yn cael y gefnogaeth i ddatblygu eu sgiliau iaith.

- Prosiect ffurfiol yn dod i ben yn y misoedd nesaf. Cefnogi staff a chasglu holiadau yn dal i ddigwydd ond ffocws yn symud i gefnogaeth staff.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau:

- Holiwyd os ydi'r hunanasesiad ieithyddol yn cael ei gwblhau o fewn yr adran Addysg, gan ei fod yn broses sydd yn cael ei ddatblygu ar draws y Cyngor.
 - o Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd y Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg fod yr hunanasesiad ar gael i staff yr adran, a bod rhai o swyddogion yr adran wedi bod yn cwblhau'r holiadur. Yn ddiweddar mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi cael ei sefydlu a bydd mwy o waith yn cael ei wneud er mwyn derbyn gwybodaeth am sgiliau iaith swyddogion yr adran Addysg yn sgil hyn. Bydd y strategaeth hon a chynllun diweddar Llywodraeth Cymru yn galluogi swyddogion yr adran i dderbyn mwy o gefnogaeth a gwersi Cymraeg os bydd yr angen yn codi.
- Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

- Derbyn yr adroddiad gan nodi sylwadau a dderbyniwyd.

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 12:25yp.

CADEIRYDD

CYFARFOD	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD	30 Ionawr 2023
TEITL	Adroddiad ar weithrediad y Polisi Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd gan yr Adran Addysg
PWRPAS	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran Addysg i weithrediad y Polisi Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd
AWDUR	Garem Jackson, Pennaeth Addysg

1. CEFNDIR

Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi er mwyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor Iaith am gyfraniad yr Adran Addysg i weithrediad Polisi Iaith y Cyngor a Chynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd.

Mae Polisi Iaith y Cyngor wedi ei wreiddio drwy holl waith yr Adran ac ysgolion, a byddwn yn amlygu yn yr adroddiad hwn y gwaith cynllunio sydd wedi bod yn mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mewn ymateb i ofynion cenedlaethol newydd, yn ogystal â chyfeirio at y cyfleoedd sydd ar gael i annog cynnydd yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol yn ein hysgolion, sut mae ein darpariaeth ar gyfer newydd-ddyfodiaid yn esblygu i adlewyrchu gofynion Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â chydabod rhai heriau sydd yn ein hwynebu mewn meysydd penodol.

Un o'r newidiadau cenedlaethol y mae'r Adran wedi bod yn paratoi ar ei gyfer yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yw trefniadau newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer categorïddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg o fis Medi 2022. Mae'r newid yn golygu bod nifer y categorïau wedi cael eu gostwng i dri yn y sector cynradd a thri yn y sector uwchradd. Un o fwriadau'r drefn newydd o gategoreiddio yw annog ysgolion i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg, ac un o egwyddorion craidd y drefn yw na ddylai unrhyw ysgol gynnig llai o ddarpariaeth Cymraeg yn y dyfodol nag a wnaed yn y gorffennol.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Adran Addysg yn cynllunio ac yn ymateb i'r drefn newydd ar gyfer y sector cynradd ac uwchradd gan gwblhau'r broses honno gyda'r ysgolion a Llywodraeth Cymru yn ystod tymor yr haf – a hynny ar gyfer ei gweithredu o Fedi 2022 ymlaen. Ym mis Hydref, bu i'r Adran hefyd gynnal sesiwn hyfforddiant ar gyfer yr aelodau etholedig ar y drefn gategoreiddio newydd yma. Bydd gwaith dilynol yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau fod y drefn yn datblygu ac yn gwreiddio er mwyn cyflawni uchelgais Gwynedd yn y maes hwn.

Ochr yn ochr â'r drefn gategoreiddio, mae'r Adran wedi bod yn paratoi ar gyfer cynllun newydd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) sydd wedi dod i rym ar 1 Medi 2022. Y mae'r CSGA yn rhan o weledigaeth hir dymor Cymru ar gyfer *Cymraeg 2050*. Er mwyn cefnogi'r

broses gynllunio mae'r cynlluniau wedi eu trefnu o gwmpas saith deiliant sy'n adlewyrchu taith addysg dysgwr ac yn cydweddu â meysydd polisi *Cymraeg 2050* a *Cenhadaeth ein Cenedl*.

Bu i'r Adran gynnal ymgynghoriad llawn ar ddrafft o'r CSGA newydd yn nhymor yr Hydref 2021, gyda'r ymgynghoriad yn dod i ben cyn y Nadolig. Yn dilyn ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, cyflwynwyd y CSGA gerbron y Cabinet am gymeradwyaeth ym mis Mawrth 2022 a gerbron y Pwyllgor Iaith ddechrau'r haf. Fe'i cymeradwywyd yn derfynol gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar 24 Mehefin 2022.

Wrth i'r CSGA ddod yn weithredol rŵan, bydd Llywodraeth Cymru a'r gweinidog yn parhau i fonitro ein cynnydd a'r camau a gymerwyd gennym yn flynyddol. Ond ein nod yng Ngwynedd yw fod y CSGA yn ddogfen uchelgeisiol fyw sy'n adlewyrchu sefyllfa unigryw Gwynedd ac yn gyrru ein gweithredu o blaid addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir.

2. YMATEB YR ADRAN ADDYSG I GYNLLUN HYBU'R GYMRAEG YNG NGWYNEDD

1.	Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd?																
	<p>1. IAITH Y TEULU</p> <p>a) Cynnydd yn nifer y cyfleoedd chwarae cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant cyn oed ysgol</p> <p>Mae'r Adran Addysg yn cydweithio gyda'r Adran Plant a Theuluoedd yn y maes Blynyddoedd Cynnar. Yn unol â'r hyn a nodir yn y CSGA, sicrheir bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg, gan sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Rhaid sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Gweler isod ein sefyllfa bresennol mewn perthynas â nifer y plant meithrin/tair oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Data Cylchoedd Meithrin Gwynedd 2021-22:</p> <table border="1" data-bbox="427 1141 1603 1327"><thead><tr><th>Ardal</th><th>Nifer Cylchoedd Meithrin</th><th colspan="2">Nifer / % plant meithrin 3 oed sydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg</th></tr></thead><tbody><tr><td>Arfon</td><td>27</td><td>496</td><td>100%</td></tr><tr><td>Dwyfor</td><td>15</td><td>172</td><td>100%</td></tr><tr><td>Meirionnydd</td><td>19</td><td>186</td><td>100%</td></tr></tbody></table>	Ardal	Nifer Cylchoedd Meithrin	Nifer / % plant meithrin 3 oed sydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg		Arfon	27	496	100%	Dwyfor	15	172	100%	Meirionnydd	19	186	100%
Ardal	Nifer Cylchoedd Meithrin	Nifer / % plant meithrin 3 oed sydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg															
Arfon	27	496	100%														
Dwyfor	15	172	100%														
Meirionnydd	19	186	100%														

Yn ein CSGA 10 mlynedd, nodir ein hymrwymiad i gydweithio gydag un ysgol gynradd ym Mangor er mwyn cynyddu eu defnydd a'u darpariaeth Gymraeg yn unol â Pholisi Iaith y Cyngor, fydd yn arwain at gynydd yn y % o blant meithrin yn Arfon sydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg.

2. IAITH DYSGU

a) Ysgolion sydd yn rhoi bri a gwerth i'r Gymraeg ac yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a chymdeithasu drwy barhau i weithredu'r Siarter Iaith a Strategaeth Iaith Uwchradd

Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddysgwyr y sir, ym mhob un o'n hysgolion, yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd. Mae'r Polisi Iaith yn rhoi pwyslais ar drochi dysgwyr 0-7 oed yn y Gymraeg, gan sicrhau mai asesiad Cymraeg yn unig a gânt ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn 2022-23, bydd 98.82% o ddysgwyr yn cael eu hasesu yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, rydym yn parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

b) Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd ac i addysg ôl-orfodol.

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel angenrheidiol sef 3+ ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd Blwyddyn 11. Mae ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. O ganlyniad i bandemig Covid-19, nid oes data ar gael ar gyfer 2019-20, 2020-21, na 2021-22, felly data 2018-19 yw'r data mwyaf cyfredol sydd gennym o safbwynt dysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall, fel y dengys y tabl isod:

2018-19	Dysgwyr blwyddyn 9 yn cael eu hasesu yn Y Gymraeg (Iaith Gyntaf)	84.5%
2018-19	Dysgwyr Cyfnod Sylfaen yn ennill Deilliant 5+ Y Gymraeg (asesiadau athro)	78.8%
2018-19	Dysgwyr CA2 yn ennill Lefel 4+ Y Gymraeg Iaith Gyntaf (asesiadau athro)	86.9%
2018-19	Dysgwyr CA3 yn ennill Lefel 5+ Y Gymraeg Iaith Gyntaf (asesiadau athro)	91.9%
2018-19	Dysgwyr CA3 yn ennill Lefel 5+ Y Gymraeg Ail Iaith (asesiadau athro)	77.1%

Yn yr un modd, dengys y tabl isod ddata 2018-19 mewn perthynas â rhagor o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg:

2018/19	Dysgwyr a gofrestrwyd i sefyll TGAU Cymraeg (laith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.	78.1%
2018/19	Dysgwyr a gofrestrwyd i sefyll TGAU Cymraeg (laith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf pump cymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg.	64.2%
2018/19	Dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 enillodd raddau A*-C mewn TGAU Cymraeg laith Gyntaf	70.7%

Mae'r Adran yn gweithio gyda'r ysgolion uwchradd ar hyn o bryd er mwyn sicrhau data cadarn, dibynadwy a chyfredol er mwyn adrodd ar Y Gymraeg yn fanylach eto, ac er mwyn ymateb i'r newid yn y drefn asesu CA2 a CA3.

b) Canolfannau Iaith

Bellach mae Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd ar gyfer 2023 a thu hwnt wedi ei sefydlu a bydd yn cychwyn yn swyddogol ar 1af Ionawr 2023. Mae strwythur staffio newydd y Gyfundrefn yn weithredol a thîm o athrawon a chymorthyddion brwdfrydig yn cydweithio dan arweiniad Pennaeth a Dirprwy. Mae buddsoddiad cyfalaf y Llywodraeth gwerth £1.1 miliwn wedi sicrhau adeiladau modern addas i bwrpas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn Ysgol Eifionydd ym Mhorthmadog a Thryfan ym Mangor gyda'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo yn Nhywyn a'r ganolfan honno wedi ei lletya dros dro yn ysgol Uwchradd Bro Idris.

Mae ein gwasanaeth trochi ar ei newydd wedd yn cynnig darpariaeth i blant rhwng bl 2 i 4 yn y canolfannau cynradd, tra mae ein canolfannau pontio cynradd uwchradd yn cynnig cyrsiau i'n dysgwyr hŷn rhwng bl 5 a bl 9. Mae agor drysau ein canolfannau i ddysgwyr bl 2, nad ydynt o reidrwydd yn hwyrdyfodiaid i'r sir ond wedi derbyn addysg plentyndod cynnar ac wedi treulio amser yn y Cyfnod Sylfaen yma yng Ngwynedd yn gam arwyddocaol ac yn rhoi pwyslais ar yr egwyddorion trochi cynnar rheini sy'n allweddol i sicrhau ein bod ar drac i gyrraedd targed Deilliant 2 y CSGA. I'r un perwyl mae staff ein canolfannau wedi creu a chyflwyno hyfforddiant penodol ar gyfer athrawon a chymorthyddion Y Cyfnod Sylfaen i rannu egwyddorion trochi cynnar gan gydnabod cymhlethdod ieithyddol nifer o'n dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen presennol ar draws y Sir.

I gyd-fynd hefo strwythur newydd ein Cyfundrefn byddwn yn dechrau treialu cynllun newydd yn y Canolfannau o'r enw Aberwla. Dyma gynllun wedi ei greu gan Anni Llŷn, awdures leol sydd wedi selio ei gwaith ar bentref dychmygol yn llawn lleoliadau difyr a

chymeriadau amrywiol. Trwy gyfarfod y cymeriadau ac ymweld a'r lleoliadau bydd y plant yn datblygu geirfa a phatrymau iaith mewn modd strwythuredig i sicrhau dilyniant a pharhad ar y continiwwm ieithyddol. I atgyfnerthu'r patrymau a'r eirfa ac i ennyn a chymell diddordeb y dysgwyr rydym trwy gydweithio hefo cwmni Animated Technologies wedi llwyddo i greu adnodd rhithiol ABERWLA ar blatfform VR. Mae'r prosiect hwn wedi ei adnabod bellach yn arfer arloesol gan Lywodraeth Cymru ac maent wedi rhoi buddsoddiad pellach o £200,000 i ni i gwblhau'r lleoliadau i gyd yn ystod y 2 flynedd nesaf hefo'r bwriad o rannu'r adnodd yn genedlaethol.

Yn dilyn cwblhau prosiectau moderneiddio'r Unedau Iaith Cynradd Uwchradd cyn diwedd y flwyddyn ariannol 2022-2023 byddwn yn mynd ati i fuddsoddi dros £1.1m i gysoni capasiti a gwella amgylchedd dysgu Canolfannau Iaith cynradd y Sir.

Er bod cyllid y prosiect wedi ei gymeradwyo mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru, bydd angen cyflwyno achos busnes llawn ger eu bron er mwyn sicrhau'r cyllid cyfalaf o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg ar gyfer buddsoddi £1.1 miliwn yn ein Canolfannau Iaith ar gyfer dysgwyr blynyddoedd 2-4. Canolfan Maesincla, Llangybi a Dolgellau fydd yn derbyn y buddsoddiad hwn.

Drwy gyfrwng y cais hwn, mae'r Adran Addysg yn awyddus i ymgorffori gofynion Cwricwlwm i Gymru, a chynnig profiadau trawsgwricwlaidd i'r holl ddysgwyr yn y canolfannau. Bwriedir hefyd sicrhau lleoliad strategol i bob un o'r safleoedd addysg drochi fydd yn gyfrwng i ymestyn profiadau a chynyddu'r cyfleoedd i'r dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth drwy fod wedi eu lleoli o fewn cyrraedd hwylus at gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw'n lach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol, bydd cyfle i ehangu profiadau'r dysgwyr wrth iddynt elwa o brofiadau sydd yn dod â'r Gymraeg yn fyw iddynt. At hyn, drwy gyfrwng y buddsoddiad cyfalaf o'r wedd gyntaf a'r ail wedd, bydd pob un o safleoedd y Gyfundrefn Addysg Drochi yn addas ar gyfer darparu gofynion Cwricwlwm i Gymru a chynnig profiadau trawsgwricwlaidd ar gyfer yr holl ddysgwyr. Ers ei sefydlu yn y 1980au, mae'r ddarpariaeth drochi yng Ngwynedd wedi arloesi yn y maes, a bydd y Gyfundrefn ar ei newydd wedd yn sgil y cyfoesi'r ddarpariaeth, gofynion Cwricwlwm i Gymru, yr holl fuddsoddiad cyfalaf a'r cyfleusterau gorau un yn parhau i arloesi nawr ac i'r dyfodol.

3. IAITH GWAITH A GWASANAETHAU

a) Gwasanaethau Cymraeg

Yr ydym yn falch o fedru adrodd bod holl wasanaethau'r Adran Addysg ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

b) Dynodiadau Iaith

Mae 95.5% o staff yr Adran Addysg (ac eithrio ysgolion) yn cyrraedd dynodiad iaith eu swyddi. Mae Tîm Rheoli'r Adran wedi ymrwymo i gefnogi staff sydd angen dysgu neu loywi iaith i fynychu'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael i wneud hynny. Mae egwyddorion a gweithdrefnau'r Dynodiadau Iaith hefyd wedi'u cynnwys yn Neilliant 7 o'r CSGA.

Er mwyn ceisio sicrhau cysondeb o ran disgwyliadau gofynion ieithyddol (Dynodiadau Iaith) swyddi ar draws holl adrannau'r Cyngor (gan gynnwys ysgolion), bu'r Adran yn gweithio y llynedd gyda Swyddogion Adnoddau Dynol, Swyddogion Democratiaeth ac Iaith, a Swyddogion Dysgu a Datblygu ar y gwaith o bennu ein disgwyliadau o ran gofynion ieithyddol ar gyfer penodi gweithlu ein hysgolion. Mae Polisi Iaith a Pholisi Recriwtio a Dethol Diogel Ysgolion yn nodi disgwyliadau gofynion ieithyddol yr Adran Addysg yn glir i Benaethiaid a Chadeiryddion Cyrff Llywodraethol. Disgwylir i'r Gymraeg gael ei nodi fel sgil allweddol ar gyfer pob swydd addysgu, gyda'r union lefel o sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer cyflawni gofynion y swydd - gwrandao a siarad, darllen a deall, ac ysgrifennu - yn cael eu dangos yn glir yn y Manylion Person wrth hysbysebu. Rydym wedi mynd ati i addasu Swydd Ddisgrifiadau, Manylion Person, Polisi Iaith a Pholisi Recriwtio a Dethol Diogel ein hysgolion i sicrhau eu bod yn cynnwys cyfeiriad at y Dynodiadau Iaith. O ganlyniad, wrth benodi i'r gweithlu addysg, disgwylir i'r Dynodiad Iaith gael ei gynnwys ym mhob hysbyseb yn unol â disgwyliadau'r Adran Addysg.

c) Hunanasesiad Iaith Gymraeg

Mae 82.8% o staff yr Adran Addysg (ac eithrio ysgolion) wedi cwblhau hunanasesiad iaith Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae 17.2% o staff canolog yr Adran Addysg heb gwblhau'r hunanasesiad, ac mae'r dasg o sicrhau bod staff cyfredol a staff newydd yn cwblhau'r hunanasesiad yn waith parhaus. Bydd yr Adran hefyd angen ymgyrch bwrsasol i ymgysylltu gydag ysgolion er mwyn cael staff ysgolion i lenwi'r hunan-asesiad. Ar hyn o bryd 40.73% o staff ysgolion sydd wedi cwblhau'r hunanasesiad iaith.

d) Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Addysg

Ar sail data'r Cyfrifiad Iaith y Gweithlu Addysg diweddar, rydym hefyd yn targedu a chefnogi rhai ysgolion ar draws y sir er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymateb i anghenion ieithyddol eu staff trwy hyrwyddo mynediad at gyfleoedd i ddysgu Cymraeg neu i godi eu hyder yn y Gymraeg, yn ogystal ag ymateb yn llawn i bolisi iaith ysgolion Gwynedd o ran cyfrwng addysgu ac iaith weinyddol yr ysgol.

Yn ein Cynllun Busnes sy'n cyd-fynd gyda'n CSGA 10 mlynedd, nodir ein hymrwymiad i gydweithio gyda rhai ysgolion penodol er mwyn cynyddu eu defnydd a'u darpariaeth Gymraeg yn unol â Pholisi Iaith y Cyngor, fydd yn arwain at gynnydd yn y % o blant meithrin fydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg, a chynnydd yn y % o ddisgyblion uwchradd fydd yn astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn sefyll arholiadau diwedd Cyfnod Allweddol 4 a 5 yn y Gymraeg.

e) Polisi Iaith a Pholisi Recriwtio a Dethol Diogel

Mae Polisi Iaith a Pholisi Recriwtio a Dethol Diogel ysgolion yn sicrhau bod Penaethiaid, staff yr ysgolion a Llywodraethwyr yn ymwybodol o'r disgwyliadau i ddefnyddio, hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o weithrediad ysgolion y sir, ac i sicrhau bod hawl y disgyblion a theulu estynedig yr ysgol i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r ysgol yn cael ei barchu bob amser.

	<p>Wrth weithredu'r polisiau hyn bydd yr ysgol a'r corff llywodraethu yn sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod y disgwyliad hwnnw yn gyson ar draws pob un o'r ysgolion. • bod darpariaeth addas i alluogi pob disgybl i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyr. • bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd. • bod y Gymraeg yn cael ei nodi fel sgil allweddol ar gyfer pob swydd addysgu, gyda'r union lefel o sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer cyflawni gofynion y swydd - gwrandio a siarad, darllen a deall ac ysgrifennu - yn cael eu dangos yn glir yn y Manylion Person wrth hysbysebu.
	<p>4. IAITH Y GYMUNED</p> <p>a) Siarter Iaith / Strategaeth Iaith Uwchradd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi ysgolion i weithredu prif flaenoriaethau'r Siarter Iaith/Strategaeth Iaith Uwchradd. • Canlyniadau Holiaduron Sgiliau'r Gymraeg wedi eu rhaeadru gyda'r ysgolion a chynlluniau gweithredu wedi eu llunio ar y cyd gyda'r ysgolion mewn ymateb i'r canfyddiadau. • Mae diffyg yn y system cofnodi ar Hwb wedi profi yn her enfawr wrth gasglu a chael mynediad i'r data – ar ddiwedd Tymor yr Haf 2022 ac yn Nhymor yr Hydref 2022. <p>b) Cynlluniau Clwstwr y Gymraeg:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae ail-ddiffinio rolau a rhaglenni gwaith cydlynwyr iaith pob dalgylch yng Ngwynedd wedi sicrhau trefn effeithiol o gynllunio gweithgarwch sydd yn ymateb yn benodol i ddeilliannau CGSA Gwynedd. • Mae pob ysgol ym mhob dalgylch yng Ngwynedd wedi llunio'u cynlluniau clwstwr ar gyfer Y Gymraeg gan ymateb ac anelu i gyflawni deilliant 3, 5 a 7 o'r CSGA. Ar ôl derbyn grant Y Gymraeg mae'r ysgolion wedi mynd ati i roi pob cynllun ar waith, ac mae cyfres o hyfforddiannau penodol wedi'u cynnal i ateb gofynion y gweithlu. • Cydlynnydd Siarter a Strategaeth Iaith Uwchradd yn gwirio cynlluniau clwstwr Grant y Gymraeg i sicrhau eu bod yn cyd-fynd gyda deilliannau'r CSGA, yn cryfhau'r cydweithio rhwng y cynradd a'r uwchradd, ac yn ymateb i anghenion lleol fydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Gwynedd gael defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae arferion da yn cael eu rhaeadru rhwng y clystyrau mewn cyfarfodydd Sirol o'r Cydlynwyr Iaith. • Rhai heriau wedi'u profi eleni wrth wirio'r Cynlluniau Clwstwr Grant Y Gymraeg. <p>c) Moderneiddio Addysg</p> <p>Fel rhan o'r broses o ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae'n ofynnol i'r awdurdod, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gynnal asesiad o'r effaith fyddai'r cynnig/cynigion yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, y gymuned ac ar gydraddoldeb. Er mwyn gwneud asesiad cynhwysfawr o effaith unrhyw gynnig arfaethedig, fel rhan o'r broses ymgynghori, mae'r awdurdod yn cynnal yr asesiadau effaith canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesiad effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg • Asesiad Effaith debygol ar drefniadau teithio • Asesiad effaith debygol ar y Gymuned • Asesiad effaith ieithyddol • Asesiad yn erbyn y Ddeddf Llesiant, ac • Asesiad Cydraddoldeb
	<p>1. YMCHWIL A THECHNOLEG</p> <p>a) Cefnogi twf yn y sector technoleg drwy hybu datblygiadau newydd a datblygu sgiliau pobl ifanc yn y maes.</p> <p>b) Mwy o sefydliadau cyhoeddus ac addysgol yn defnyddio meddalwedd a thechnoleg cyfrwng Gymraeg.</p> <p>Mae'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni drwy'r strategaeth addysg ddigidol yn hynod uchelgeisiol ac yn arwydd o'r ffordd yr ydym ni'n blaenoriaethu addysg ein plant yma yng Ngwynedd. Yn syml, mae'r strategaeth wedi rhoi dyfais addas i alluogi dysgu digidol yn nwylo pob plentyn. Mae digon o <i>ipads</i> wedi ei rhannu i roi un i bob pedwar dysgwr yn y Cyfnod Sylfaen, gyda digon o <i>Chromebooks</i> wedi eu rhannu fel bod pob dysgwr o flwyddyn 3 i 6 wedi cael dyfais yr un. Mae dyfeisiadau Windows 10 wedi eu dosbarthu i bob disgybl ym mlwyddyn 7, 10 ac 11, ac mae pob un o athrawon Gwynedd wedi derbyn dyfais safonol drwy'r strategaeth gyda'r gobaith y bydd hyn yn tanio dychymyg a sbarduno ymhellach ddyfeisgarwch ac effeithiolrwydd yr agweddau o ddysgu digidol ar draws y sectorau. Gwynedd yw un o'r awdurdodau cyntaf i wneud hynny yng Nghymru ac mae'n rhywbeth y gallwn ni ymfalchïo ynddo.</p> <p>Mae pob dyfais wedi cael eu gosod i fod yn Gymraeg yn gyntaf lle bod modd gwneud hynny. Mae bron i 10,000 o ddyfeisiadau yn gwneud defnydd o Windows ac Office 365 drwy'r Gymraeg.</p> <p>Yn ogystal mae'r strategaeth yn gosod uchelgais hir dymor i gael mwy o siaradwyr Cymraeg i swyddi gwerth uchel yn y maes digidol.</p>

	<p>Yng nghyd destun ymchwil rydym yn datblygu adnodd rhithiol VR i gefnogi newydd ddyfodiaid i'r sir i gaffael y Gymraeg. Mae ymchwil yn dangos cynnydd arwyddocaol yn y nifer o blant a phobl ifanc sy'n defnyddio gemau i hamddena. Fodd bynnag yn y gorffennol mae pryderon wedi codi am addasrwydd y gemau hyn ar gyfer plant ifanc a'r dylanwad negyddol ar eu llesiant wrth ystyried yr oriau maent yn eu treulio arnynt. Wedi dweud hynny dengys ymchwil diweddar fod manteision gwybyddol i ddatblygiad addysgol plant o ddefnyddio gemau yn briodol fel adnodd addysgol. I'r perwyl hwn rydym wrthi'n datblygu adnodd rhithiol VR Aberwla i normaleiddio'r Gymraeg ar y plattform VR. Dyma brosiect arloesol gafodd dderbyniad gwresog ac adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr o bob oed gan gynnwys Gweinidog y Gymraeg Jeremy Miles ar faes Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Nhregaron.</p>
2.	<i>Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol?</i>
	<p>Mae'r adran yn cynnwys gofynion iaith ar bob cytundeb trydydd parti a chaiff bob cytundeb ei fonitro yn rheolaidd rhwng Rheolwr Gwasanaeth a Rheolwr ar ran y darparwr. Darperir nifer o Gytundebau Lefel Gwasanaeth gan amrywiol adrannau'r Cyngor ar gyfer ein hysgolion megis cynnal a chadw adeiladau gan yr Adran Tai ac Eiddo, cynnal tiroedd gan yr Adran Amgylchedd, a chefnogaeth fusnes a gweinyddiaeth i'r ysgolion cynradd drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Ganolfan Fusnes Ysgolion.</p> <p>Mae gan y Gwasanaeth ADY a Ch gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae'r cytundeb yma ar gyfer darpariaeth Therapyddion Iaith a Lleferydd sydd yn cefnogi dysgwyr o fewn Ysgolion Prif Lif Gwynedd a Môn. Mae'n cael ei fonitro ar lefelau gwahanol (rheolaethol a gweithredol) er mwyn adrodd i'r Bwrdd Rheoli ADY a Ch. O fewn y cytundeb yma mae gofyn i'r gwasanaeth ddarparu yn ddwyieithog ar gyfer yr ysgolion, ond gall hyn fod yn heriol iawn o ran recriwtio Therapyddion dwyieithog ac ymateb i'r angen yn amserol. Rydym yn gweithio gyda'r gwasanaeth i oresgyn y rhwystrau o gwmpas hyn.</p>
3.	<i>Oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg?</i>
	<p>Recriwtio</p> <p>Mae problemau recriwtio athrawon uwchradd hyfedr mewn pynciau penodol yn her genedlaethol ond fe ddwyseir yr her hon o fewn addysg cyfrwng Cymraeg ac mewn rhai ardaloedd penodol o'r sir ac mae'n fater sy'n peri pryder i'r Adran a'r ysgolion yn gyffredinol.</p> <p>Mae gan y gwasanaeth ADY a Ch anawsterau recriwtio gweithlu hyfedr yn y Gymraeg mewn meysydd arbenigol megis seicolegwyr addysg a chwyselwyr, a gwyddwn nad yw'r garfan bresennol sydd yn cymhwyso ar y cwrs i ddod yn seicolegwyr addysg er enghraifft yn debygol o</p>

arwain at ragor o seicolegwyr addysg i Wynedd. Ar hyn o bryd, mae seicolegwyr addysg yr Adran yn darparu gwasanaeth gyda llai o adnoddau. Er mwyn ymateb yn rhagweithiol i'r sefyllfa yma, rydym yn codi'r materion hyn mewn trafodaethau ADY yn rheolaidd mewn cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru.

Cyfarfodydd

Mae cydweithio drwy gyfrwng y Gymraeg gyda phartneriaid yn gallu bod yn heriol mewn rhai meysydd. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae darpariaeth cyfieithu ar Zoom yn hawdd ac yn ddi-drafferth iawn i'r rhai sydd ei angen, ond nid yw'r Bwrdd Iechyd er enghraifft wedi medru ei ddefnyddio hyd at yn ddiweddar iawn.

Apiau

Schoolcomms

Mae'r Adran Addysg wedi bod yn galw ers blynyddoedd i'r ap Schoolscomms fod ar gael yn Gymraeg, er mwyn hwyluso gallu rhieni i ddefnyddio'r ap i dalu am ginio ysgol. Bellach, rydym yn falch o nodi fod yr ap ar gael yn ddwyieithog, ac er na fydd gofyn i ddysgwyr cynradd dalu am ginio ysgol o Medi 2023 ymlaen, defnyddir yr ap i dalu am weithgareddau eraill a gynhelir gan ysgolion, megis tripiâu ayyb, felly mae'r ffaith fod yr ap ar gael yn ddwyieithog erbyn hyn yn newyddion da iawn.

3. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r aelodau:

- gyflwyno unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar gynnwys yr adroddiad.

Eitem 6

CYFARFOD	Pwyllgor Iaith
DYDDIAD	30 Ionawr 2023
TEITL	Cynllun Hybu'r Gymraeg – Cefnogaeth Gorfforaethol
PWRPAS YR ADRODDIAD	Hysbysu'r Aelodau o ymdrechion yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg
AWDUR	Ian Jones, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol
GWEITHREDIAD	Derbyn yr adroddiad a chynnig sylwadau

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno er mwyn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Iaith am gyfraniad yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn a thu hwnt i'r Cyngor.
- 1.2 Mae gweithrediad Polisi Iaith y Cyngor yn ffurfio rhan greiddiol o waith dydd i ddydd gwasanaethau'r Adran gyda'r Gymraeg yn unig iaith gyfathrebu holl weithgaredd mewnol yr Adran ac hefyd mewn cyfran helaeth o'n gwaith gydag adrannau eraill, y cyhoedd yn ogystal a sefydliadau ac asiantaethau allanol.
- 1.3 Mae'r Adran yn arwain ar y blaenoriaeth corfforaethol o fewn Cynllun y Cyngor sy'n ymwneud a "Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn y Cyngor" gyda'r Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith o fewn y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn gyrru ein hymdrechion yn y cyswllt hwnnw. Byddwch yn ymwybodol, fel aelodau'r Pwyllgor Iaith, o gynnydd y gwaith hwnnw a'r effaith gadarnhaol y mae'n ei gael ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn yr Adrannau.
- 1.4 O fewn yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, gellir cadarnhau bod gofynion ieithyddol pob swydd wedi'i hadolygu fel rhan o'r Cynllun hwn a bod 95.1% o staff wedi cwblhau hunan-asesiad o'u gallu i gyrraedd y gofynion hynny. O'r staff sydd wedi cwblhau hunan-asesiad, mae 98.3% ohonynt yn cyrraedd, neu'n mynd tu hwnt i'r gofyn ieithyddol ar gyfer cyflawni dyletswyddau eu swydd.
- 1.5 Mae ymwneud y Cynllun ei hun efo'r Adran wedi dod i ben erbyn hyn gan bod derbyniad i'r Adran ddynodi'r gofynion gwrando a siarad, darllen a deall ac ysgrifenedig ar gyfer pob swydd a bod asesiad o anghenion unrhyw aelod o staff yn erbyn y gofynion hynny yn ffurfio rhan barhaus o werthusiad a pherfformiad personol. Er hynny, mae nifer o staff yr Adran yn parhau i fod yn awyddus i finiogi eu sgiliau ysgrifenedig yn y Gymraeg ac yn manteisio ar y cyfleon i loywi iaith a ddarperir gan y Cyngor.
- 1.6 Mae'r Uned Iaith (sy'n cynnwys Hunaniaith) wedi'i lleoli o fewn y Gwasanaeth Democratiaeth a Iaith yn yr Adran ac mae'r swyddogion o fewn yr Uned yn flaenllaw yn gyrru amcanion Cynllun Hybu'r Gymraeg. Mae'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn arwain ar naw o'r blaenoriaethau corfforaethol yn y Cynllun Cyngor presennol ac mae tri o'r blaenoriaethau hynny yn ymwneud yn benodol ag amcanion o fewn Cynllun Hybu'r Gymraeg h.y.
 - Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor
 - Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus
 - Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig

2. YMATEB I GWESTIYNAU'R PWYLLGOR

<p>Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:</p>	<p>Cwestiwn</p>
<p><u>Hybu a hyrwyddo</u></p> <p>Sut ydym ni'n mynd y tu hwnt i ddarparu yn ddwyieithog i fod yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, i gyfrannu at y targed cenedlaethol o greu Miliwn o siaradwyr, ac at y nod Llesiant o sicrhau bod pobl Gwynedd yn "Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg"?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd?</i> <p>i) Mae'n waith parhaus i Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor, ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.</p> <p>Mae'r prosiect Dynodiadau Iaith yn tynnu tuag at ei derfyn, ond bydd y gwaith o gasglu hunanasesiadau iaith gan staff yn parhau. Mae'r gwaith hwn yn rhan o waith dydd i ddydd ac i raddau helaeth, yn hunangynhaliol erbyn hyn oherwydd bod systemau a threfniadau wedi'u rhoi mewn lle i sicrhau bod staff ar draws y Cyngor yn cwblhau'r hunanasesiad. Sefydlwyd y Fforwm Dynodiadau Iaith er mwyn sicrhau bod pob adran yn dal ati gyda'r gwaith a bod cyfle i nodi unrhyw heriau.</p> <p>Yn sgil y prosiect, mae Safle Iaith mewnol wedi'i sefydlu hefyd, fel bod gwybodaeth am hyfforddiant iaith ac adnoddau defnyddiol (fel Tip Cymraeg y Mis) ar gael i staff unrhyw bryd.</p> <p>Bydd y gwaith o drefnu a darparu hyfforddiant iaith i staff yn parhau. Mae nifer o gyrsiau allanol ar gael i staff y Cyngor ddatblygu eu sgiliau iaith a magu hyder i'w defnyddio yn y gweithle. Bydd yr aelodau o staff nad ydyn nhw'n cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi yn derbyn blaenoriaeth, ynghyd â staff rheng flaen. Bydd sylw pellach yn cael ei roi i ddatblygu ein hyfforddiant iaith mewnol hefyd.</p> <p>ii) Mae'r Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn brosiect sy'n ceisio cyfarch yr anghysondeb yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog gan gyrff cyhoeddus yng Ngwynedd, sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosibl i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu efo gyrff cyhoeddus.</p> <p>Mae sefydliadau cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn yn amau bod llai yn dewis defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg na sydd o siaradwyr Cymraeg yn y ddwy sir. Drwy gydweithio efo partneriaid sy'n rhan o Is-grŵp y Gymraeg y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, 'rydym wedi comisiynu astudiaeth o 12 derbynfa traddodiadol er mwyn cael gwybod sut y gallwn annog mwy o bobl i ymwneud â ni yn y Gymraeg, ac i fod yn gyfforddus wrth wneud hynny. Mae pecyn hyfforddi'r hyfforddwr wedi ei greu ar gyfer rheolwyr a phecyn adnoddau hyfforddiant a fydd yn canolbwyntio ar arfogi staff i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn derbynfeydd.</p>

Rydym hefyd yn cydweithio gyda myfyriwr o Brifysgol Bangor ar brosiect a fydd yn edrych ar ddewis iaith y cyhoedd wrth ymwneud gyda gwasanaethau Cyngor Gwynedd yn unig – boed hynny dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu ar-lein.

iii) Fel y gwyddoch, mae'r gwaith yn ymwneud ag **Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig** wedi'i sefydlu fel blaenoriaeth gwella o'r newydd yn yr adolygiad diweddaraf o Gynllun y Cyngor ac hynny er mwyn;

- cysoni'r modd y mae'r Cyngor yn gweithredu wrth arddel enwau Cymraeg
- sicrhau mai fersiynau Cymraeg enwau lleoedd sydd yn cael y flaenoriaeth gyda phartneriaid allanol
- ceisio cymryd camau rhagweithiol i ddiogelu ac atal mwy o newidiadau i enwau cynhenid

Mae sylw wedi ei roi dros y flwyddyn ddiwethaf i adeiladau'r Cyngor, enwau tai, enwau strydoedd, enwau llefydd ac i arddel yr enw Cyngor Gwynedd.

Llwyddwyd hefyd i lansio Map Rhyngweithiol Enwau Lleoedd er mwyn annog y cyhoedd i fod yn rhan o'r prosiect. Cynhaliwyd gweithdy gydag ysgol gynradd er mwyn hyrwyddo'r prosiect map a rhoi cyfle i blant boblogi'r map. Bwriedir hyrwyddo'r map ymhellach ymysg rhagor o ysgolion cynradd ac uwchradd. Parataowyd hefyd Adnoddau a hyfforddiant priodol ar enwau tai ac enwau lleoedd ar gyfer staff. Cafwyd hefyd drafodaethau buddiol gyda chyrff allanol megis Map OS, Llywodraeth Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri.

iv) Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er bod yna gydnabyddiaeth o sefyllfa ieithyddol arbennig Gwynedd a chefnidir sefydlu **Hunaniaith (Menter Iaith Gwynedd)** fel uned strategol o fewn Cyngor Gwynedd, mae'r brif ffynhonnell incwm – Cynllun Grant i Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg Llywodraeth Cymru – wedi canolbwyntio'n bennaf ar ariannu gweithgaredd sy'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd cymdeithasol o Gymraeg yn unol â Thema 2 y strategaeth iaith genedlaethol, Cymraeg 2050, 'Cynyddu'r Defnydd o Gymraeg'. Mae pwyslais y cynllun grant hwnnw ar weithredu ar lawr gwlad i hyrwyddo a hwyluso cynnydd yn y defnydd cymdeithasol a wneir o'r Gymraeg.

Atgyfnerthir y ffocws cymunedol hwnnw gan raglen waith cyfredol Hunaniaith a'r blaenoriaethau gweithredol a nodir dan amodau'r grant presennol, sef:

- dylanwadu ar iaith y teulu
- cryfhau'r cyswllt rhwng ysgolion a'r gymuned
- cynnig gweithgareddau i ystod eang o drigolion
- datblygu dealltwriaeth o arferion ieithyddol trigolion Gwynedd

O ganlyniad i fuddsoddiad gan y Cyngor llwyddwyd i benodi Pen Swyddog llawn amser i'r fenter iaith er mwyn arwain datblygiad pellach gan ganolbwyntio ar ddenu grantiau newydd a chodi incwm, gwella'r cyswllt cymunedol, denu mwy o aelodau cymunedol i'r Grŵp Strategol a gweithio tuag at fod yn endid annibynnol. Llwyddwyd i ddenu aelodau gwahanol a sefydlu Grŵp Llywio/Strategol newydd a'r nod yw ail lansio y fenter iaith ar ei newydd wedd, fel endid annibynnol cynaliadwy yn Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd 2023.

	<p>v) Er mwyn sicrhau bod un man canolog ar gael ar wefan y Cyngor ar gyfer gwybodaeth sy'n gysylltiedig gyda'r iaith Gymraeg creuwyd tudalen we newydd – Yr Iaith Gymraeg. Mae'r dudalen yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth am ddefnydd o'r Gymraeg yng Ngwynedd. Datblygwyd map rhyngweithiol newydd sy'n dangos ble mae gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gael yn ogystal â phhecyn gwybodaeth digidol i fewnfudwyr am ddiwylliant ac iaith Gwynedd.</p>
<p><u>Allanoli gwaith a gosod cytundebau trydydd parti</u></p> <p>Sut ydym ni'n sicrhau bod safon y gwasanaeth dwyieithog yn cael ei gynnal wrth allanoli a gosod cytundebau?</p>	<p>1. Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prin yw'r cytundebau y mae'r Adran yn eu gosod yng nghyswllt gwasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt ond mae'r arweiniad arbenigol ar faterion caffael yn cael ei gynnig yn gorfforaethol gan ein Gwasanaeth Caffael sy'n cynghori yr Unedau Rheolaeth Categori a leolir o fewn yr adrannau Amgylchedd, Oedolion Iechyd a Llesiant a Prifffyrdd a Bwrdeistrefol. Yr Unedau hynny sy'n uniongyrchol gyfrifol am wahodd, gosod a monitro cytundebau gyda'r gwasanaethau perthnasol ar draws y Cyngor. • Bydd y Pwyllgor eisoes wedi derbyn manylion ynglyn â sut y mae'r Gymraeg yn cael ei phriod le o fewn cytundebau a osodir gan y Cyngor, o'r adroddiadau a gyflwynwyd gan yr adrannau ple lleolir yr unedau rheolaeth categori, ond byddwn yn dymuno tynnu sylw at gynllun peilot yr ydym yn bresennol ymgymryd ag o yng nghyswllt cyflwyno "gwerth cymdeithasol" fel maen prawf ychwanegol pan yn ystyried gosod contractau i'r dyfodol. • Rydym yn parhâi i dreialu'r fethodoleg newydd yma i asesu tendrau ar sail gwerth cymdeithasol, ochr yn ochr a'r meini prawf hanesyddol o bris ac ansawdd ac hynny efo tri cytundeb sydd angen eu hadnewyddu yn bresennol. Mae'r broses gaffael ar gyfer gosod cytundeb Taliadau Uniongyrchol Gwasanaeth Oedolion eisoes wedi'i chwblhau ac mae'r buddion ychwanegol a ddeilliodd o ddefnyddio'r fethodoleg newydd wedi cynnwys ymrwymadau gan y cwmni buddugol i ddarparu swyddi i bobl leol, profiadau gwaith, hyfforddiant, cefnogi elusennau lleol a datblygu sgiliau Cymraeg ei gweithlu. • Mae angen cynnal gwaith pellach gyda'r timau categori er mwyn adnabod cyfleon pellach er mwyn treialu'r fethodoleg. Mae hynny eisoes wedi cychwyn a bydd yr Adran yn trefnu cyfres o gyflwyniadau eleni ar gyfer hyrwyddo'r cyfleon posib ar gyfer uchafu'r holl fuddion gymdeithasol gan gynnwys hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg.
<p><u>Gweithredu'n ddwyieithog</u></p> <p>Sut ydym ni'n llwyddo wrth weithredu ar</p>	<p>3. Oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fe adroddwyd y llynedd bod y Gwasanaeth Cefnogol, yn gyfrifol am gydgorio trefniadau gwirio cofnodion troseddol, a bod rhwystr oherwydd bod yr system newydd ar-lein gan y Swyddfa

<p>ofynion y Polisi laith a Safonau'r Gymraeg?</p>	<p>Cofnodion Troseddol ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn yn uniaith Saesneg. Adroddwyd hefyd bod sicrwydd wedi ei roi y byddai'r system ar gael yn ddwyieithog yn fuan, a hynny yn dilyn pwysau sylweddol gan y Cyngor a swyddfa'r Comisiynydd. Yn anffodus, rydym yn dal i ddisgwyl i gael y gwasanaeth yma, ac felly mae'n parhau i fod yn rhwystr i bobl Gwynedd ddefnyddio'r Gymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae diffyg darpariaeth hyfforddiant dwyieithog o safon yn parhau i fod yn rhwystr ar gyfer ein Prentisiaethau, yn enwedig felly ar gyfer prentisiaethau uwch. Mae'r Cynllun lleol yma o fewn y Cyngor yn un hynod lwyddiannus, yn cynnig cyfleoedd profiad gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 41 prentis yn rhan o gynllun y Cyngor ar hyn o bryd, a phob un o'r rheiny wedi arwyddo'r "Datganiad o Uchelgais iaith Gymraeg", yn ogystal a'r darparwyr. Fel rhan o'r Cynllun, mae swyddogion o wasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn ceisio dwyn perswâd ac annog darparwyr prentisiaethau i gynnig cymaint o'u darpariaeth ag sy'n bosib trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i geisio asesu'r sefyllfa bresennol o ran cyfrwng iaith y ddarpariaeth addysgol a gynigir, gyda'r nod o gydweithio gyda'r darparwyr i adnabod cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth, i adnabod adnoddau ychwanegol i'w cynnig yn y Gymraeg yn ogystal â chyfleoedd pellach i hyrwyddo'r Gymraeg. • Mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb a'r Ymgynghorydd Iaith yn parhau i gydweithio'n agos i ddatblygu'r drefn asesu effaith integredig (cydraddoldeb, iaith ac anfantais economaidd) o fewn y Cyngor. Mae asesiad digidol wrthi yn cael ei ddatblygu gan y gwasanaeth TG, ac er bod oedi wedi bod yn lansio hwnnw, gobeithir y bydd yn barod i'w ddefnyddio, ac yn hwyluso'r gwaith monitro, yn fuan. Y rhwystr arall yn y maes hwn ar hyn o bryd yw nad yw asesiadau yn cael eu cynnal yn ddigon buan yn y broses gynllunio, a bydd angen codi ymwybyddiaeth swyddogion am hyn yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella gweithrediad. • Mae nifer o rwystrau yn y maes cofrestru ar hyn o bryd, gyda trigolion yn methu a chofrestru yn uniaith Gymraeg, nac yn gallu cofrestru genedigaeth y tu allan i Gymru (petai sefyllfa bod plentyn yn cael eu geni mewn ysbyty y tu hwnt i'r ffin er enghraifft) yn Gymraeg/dwyieithog ar hyn o bryd. Mae'r gwasanaeth cyswllt Cwsmer a Cofrestru, gyda chefnogaeth yr Uned Iaith a Chraffu, yn gobeithio rhoi sylw i'r mater yma a dwyn pwysau ar yr asiantaethau perthnasol, yn ystod y flwyddyn.
<p><u>Datblygu cyfleoedd newydd</u></p>	<p>4. Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Un o'r heriau mwyaf un sydd wedi amlygu ei hun dros y tair blynedd diwethaf yw yr un sy'n ymwneud a'n gallu i recriwtio a phenodi i swyddi allweddol ar draws y Cyngor. Mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol ynghyd a'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn arwain ar y blaenoriaeth gwella corfforaethol sy'n ymwneud a "Cynllunio'r Gweithlu" ac er bod llwyddiannau i'w hadrodd yng nghyswllt y gwaith yma yn

barod, mae'r her i sicrhau parhad ein gwasanaethau, ac hynny yn newis iaith ein trethdalwyr, yn un real. Mae'r gallu i weithio'n rhithiol (yn aml o'r cartref) efo'r potensial i roi llawer mwy o ddewis cyflogaeth i unigolion lleol a fyddai cyn hyn efallai wedi rhoi y pwyslais ar allu byw yn agos i'w man gwaith. Ar y llaw arall, mae yma gyfle hefyd i ddenu unigolion i weithio i'r Cyngor ple nad oedd hynny yn ystyriaeth cyn y pandemig. Yn hyn o beth, byddwn yn anelu i adeiladu ar y sylfaen cadarn sydd gennym eisoes trwy'r cynllun prentisiaethau, cynllun rheolwyr ac arbenigwyr yfory yn ogystal a'r rhaglen datblygu potensial mewrol sydd gennym tra'n cryfhau ein cysylltiadau a'r cydweithio rhyngddom a gwasanaethau cyflogaeth o fewn y Cyngor ac yn ehangach er mwyn sefydlu'r Cyngor yn gadarn fel cyflogwr o ddewis.

- Darparwyd enghreifftiau yn yr adroddiad i'r hyn y bu i ni ei ddatblygu a dylanwadu arno yng nghyd-destun gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac hynny trwy gydweithrediad sefydliadau eraill yn aml. Bydd y buddsoddiad diweddar i geisio ymestyn gwaith **Hunaniaith** o fewn ein cymunedau a cheisio ennyn mwy o gyfranogiad cymunedol i'r gwaith hwnnw yn allweddol tra bydd ymdrechion yr Is-Grwp o fewn y **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** i gael mwy o siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r sefydliadau cyhoeddus yn hynod bwysig.

Eitem 7

CYFARFOD	Pwyllgor Iaith
DYDDIAD	30 Ionawr, 2023
TEITL	Adroddiad yr Adran Tai ac Eiddo ar Weithrediad y Polisi Iaith a Gweithgareddau Hybu'r Gymraeg
PWRPAS	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg
AWDUR	Carys Fôn Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo

1. Cefndir a chyd-destun

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi er mwyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor Iaith am gyfraniad yr Adran Tai ac Eiddo i'r Polisi Iaith.
- 1.2. Mae'r Adran Tai ac Eiddo yn cynnwys cymysgedd o wasanaethau rheng-flaen (megis Digartrefedd, Ffoaduriaid, Cyflenwad Tai), corfforaethol (megis Stadau, Diogelwch Eiddo, Swyddfeydd a Glanhau) a masnachol (Difa Pla).
- 1.3. Golyga hyn bod yr Adran yn ymdrin â nifer o gwsmeriaid a budd-ddeiliaid, sy'n cynnwys staff Cyngor Gwynedd, busnesau a thrigolion Gwynedd.
- 1.4. Yn sgil hynny, credwn ei bod yn hynod bwysig gallu cynnig ein gwasanaethau yn ddwyieithog, a pharchu dewis iaith y cwsmer.
- 1.5. Dangosa natur sensitif rhai o'r achosion a wyneba'r adran bwysigrwydd gweithredu yn y Gymraeg i'n defnyddwyr gwasanaeth.
- 1.6. Er enghraifft, pan fo'n staff yn ymdrin ag unigolion sy'n wynebu bod yn ddigartref, sydd eisoes mewn sefyllfa o straen eithriadol, mae ymdrin â'r unigolion hyn mewn dull sensitif yn allweddol. Rhan amlwg a phwysig o hynny yw siarad gyda'r unigolyn yn yr iaith y maent yn ei dewis.
- 1.7. Mae staff yr Uned Grantiau Tai yn ymdrin ag oedolion a phlant anabl wrth gynnig cymorth iddynt allu byw yn eu cartref trwy osod cyfarpar megis rampiau, neu wneud addasiadau i dai megis estyniadau neu ystafelloedd gwlyb. Mae'n eithriadol o bwysig gallu cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg wrth ymdrin â'r sefyllfaoedd hyn hefyd.
- 1.8. Mae'r Adran hefyd yn ymdrin â defnyddwyr gwasanaeth sy'n dod i Wunedd o'r tu hwnt i Gymru a Phrydain, ac sy'n siarad ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg. Mae'r Uned Ailsefydlu

Ffoaduriaid wedi bod yn rhan allweddol o ymateb y Cyngor i'r sefyllfa yn Wcrain, gan dderbyn, cefnogi a lletya ffoaduriaid yng Ngwynedd dros y cwta flwyddyn ddiwethaf.

- 1.9. Mae'r Uned yn gweithio'n agos gydag asiantaethau megis cyfieithwyr er mwyn cefnogi ffoaduriaid a ddaw i Wynedd i geisio lloches. Yn gyffredinol, mae'r unigolion hyn yn awyddus i wneud cyfraniad ystyrion i'r gymdeithas sy'n eu derbyn, gyda nifer yn dysgu Cymraeg wrth ymsefydlu ac yn plethu i'w cymunedau newydd yn dda.

2. Sgiliau Iaith Gymraeg ein gweithlu

- 2.1. Rhoddwn bwys mawr ar sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Pholisi Iaith y Cyngor, a'n gallu i gynnis gwasanaeth Gymraeg i'n defnyddwyr gwasanaeth, boed fewnol neu allanol.
- 2.2. Yn ôl yr Adroddiad Chwarterol Dynodiadau Iaith diweddaraf, mae **94%** o'n staff yn cyrraedd neu basio Dynodiadau Iaith eu swyddi.
- 2.3. O'r 94% hynny, mae gan **60%** ohonynt sgiliau uwch na'r gofynion iaith sydd ynghlwm â'u swyddi.
- 2.4. Hyd at 06/01/2023, mae **96%** o'r staff wedi derbyn rhyw fath o asesiad (hunanasesiad neu asesiad rheolwr llinell) gyda dim ond 7 yn weddill heb eu hasesu.
- 2.5. O'r rheiny mae **79%** wedi cwblhau hunanasesiad (sef yr hyn rydym yn ddymuno er mwyn cael y darlun gorau o sgiliau iaith ein staff). Mae hyn yn gynydd o 12% dros y flwyddyn ddiwethaf yn dilyn ymgyrch i annog rhagor o staff i'w gwblhau.
- 2.6. Mae'r rheiny sydd wedi derbyn asesiad rheolwr llinell yn unig yn staff rheng flaen gan fwyaf, megis glanhawyr swyddfa, ac rydym yn cydnabod y gall gymryd peth amser nes cwblheir hunanasesiad oherwydd natur eu gwaith.

3. Ymateb i'r materion yr hoffai'r aelodau eu trafod

- 3.1 Ymatebir i'r materion ar y tudalennau nesaf

Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:**Hybu a hyrwyddo**

Cwestiwn 1: Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd?

Cyffredinol

Mae'r Adran yn rhoi pwys mawr ar weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, nid yn unig oherwydd ein teimlad o falchder a pharch tuag at yr iaith a'r hyn y mae'n ei olygu i'r Cyngor, ond hefyd oherwydd ein bod yn ymdrin ag unigolion sydd yn aml mewn sefyllfaoedd bregus ac sy'n dod atom pan nad oes ganddynt unlle arall i droi, ac rydym yn llwyr sylweddoli pa mor bwysig yw defnyddio'r iaith y mae rhywun yn ei dewis wrth gefnogi unigolion yn y fath sefyllfa.

Mae Cynllun Hybu'r Gymraeg yn nodi bod symudedd a mudo yn un o'r prif heriau i'r Gymraeg yng Ngwynedd. Credwn bod ein Polisi Gosod Tai Cyffredin, sy'n rhoi blaenoriaeth am dŷ cymdeithasol i unigolion sydd â chysylltiad â Gwynedd, yn cyfrannu at y nod o sicrhau bod pobl leol yn gallu byw ac aros yn eu cymunedau. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod 96% o osodiadau tai cymdeithasol Gwynedd wedi mynd i berson â chysylltiad lleol rhwng Medi 2021 a 2022.

Digartrefedd

Wrth ymateb i sefyllfaoedd ble mae unigolion a theuluoedd yn cael eu gwneud yn ddigartref, mae'r Gwasanaeth yn gwneud ei orau i gadw'r teulu hwnnw gyda'i gilydd wrth ei adleoli. Ar wahân i fanteision amlwg i les y teulu wrth eu cadw ynghyd, mae'n diogelu'r iaith fel iaith y teulu, ac yn lleihau'r risg y bydd unigolion yn colli'r iaith wrth gael eu gwahanu.

Nid gweithio'n ymatebol i sefyllfaoedd o ddigartrefedd yn unig mae'r Gwasanaeth Digartrefedd – mae rhan allweddol o'i waith yn canolbwyntio ar atal digartrefedd cyn iddo ddigwydd. Mewn rhai achosion fel hyn, golyga ladmeru rhwng aelodau o deulu er mwyn cadw'r teulu hwnnw dan yr un to, a all arwain at ddiogelu aelwyd Gymraeg a fyddai wedi'i cholli fel arall.

Grantiau i addasu tai i bobl anabl

Mae nifer o bobl Gwynedd yn byw mewn tai sy'n anaddas ar gyfer eu hanghenion. Gall hynny olygu nad yw trigolyn yn gallu dringo'r grisiau i'r llawr cyntaf, neu ei chael hi'n anodd ymolchi oherwydd nad yw ystafell ymolchi bresennol yr adeilad yn addas i bwrpas. Mae'r Uned Grantiau a Phrosiectau Tai yn tywys yr unigolion trwy'r broses ar y cyd â Therapyddion Galwedigaethol, ac yn sicrhau bod rhaglen waith yn ei lle sy'n cyfateb i anghenion yr unigolyn. Trwy'r addasiadau hyn, mae posib i bobl Gwynedd aros yn eu cartref a thrwy hynny gadw siaradwyr Cymraeg yn eu cymunedau.

Mae'n braf nodi bod yr Uned yn cael ei gweithredu yn gwbl ddwyieithog, gyda phob swyddog yn gallu cynnig gwasanaeth yn Gymraeg. Mae canran uchel iawn o'r cyfathrebu yn cael ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg (os nad oes angen/cais am gyfathrebu yn Saesneg yn unig yn ein cyrraedd) ac mae'r Therapyddion Galwedigaethol yr ydym yn cydweithio â hwy yn siaradwyr Cymraeg hefyd, ynghyd â'r ffurflenni cyfeirio.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'n rhaglenni gwaith a'n dogfennau technegol yn Saesneg gan mai dyna iaith arferol dogfennau a manylebau adeiladu yn y maes adeiladu/pensaernïol. Serch hynny, mae'r gallu gennym i ddarparu'r rhain drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn ôl yr angen.

Prosiectau'r [Cynllun Gweithredu Tai](#)

Mae Cynllun Gweithredu Tai yr Adran, Cynllun o 33 o brosiectau dros gyfnod o 6 blynedd, yn amlinellu ein hamcanion wrth fynd i'r afael ag anghenion tai pobl Gwynedd. Bydd y Cynllun o fudd mewn sawl maes allweddol, ac un o'r rheiny yw'r Gymraeg a chymunedau Cymraeg. Bydd prosiectau megis y rhai a enwir isod yn rhoi cyfleoedd i drigolion Gwynedd gael mynediad at gartref addas a fforddiadwy:

Tud. 33

Cynllun	Disgrifiad	Gwybodaeth bellach
Datblygu tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu yn y farchnad dai.	Datblygu ein tai ein hunain a fydd yn cynyddu'r stoc o dai yn y cymunedau hynny lle mae'r galw yn bodoli ar gyfer prynu neu rentu ar rent canolraddol.	Rydym yn bwriadu gosod amod fel bod rhaid i unrhyw berchennog fod yn berson lleol.
Prynu tai preifat	Defnyddio stoc barod o dai fyddai'n addas ar gyfer cartrefu pobl leol, tra'n ystyried prynu tai a'u gosod i bobl leol ar rent canolraddol.	Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i bobl leol wrth osod y tai hyn
Gwrthod ceisiadau i godi amod person lleol ar gyn- "dai Cyngor"	Ystyried bod yn fwy heriol gyda cheisiadau i dynnu 'amod person lleol' oddi ar gyn-dai Cyngor a glynu at bwrpas gwreiddiol cymalau o'r fath, Ni fyddwn yn codi'r amod oni bai fod amgylchiadau eithriadol o anarferol.	Bwriedir mabwysiadu polisi mewnol sy'n gwarchod yr amod hon i'r dyfodol
Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag	Ymestyn y cynllun blaenorol, sydd wedi helpu dros 90 o brynwyr tro cyntaf i adnewyddu tai gweigion a thrwy hynny wedi dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd i bobl leol.	
Eithriad Treth Cyngor ar dai gwag i brynwyr tro cyntaf	Ymestyn y cyfnod eithrio o dalu treth Cyngor ar dai gwag (prif neu unig gartref) gan roi blwyddyn ychwanegol i brynwyr tro cyntaf gyflawni gwaith adfer hanfodol cyn y gellir meddiannu'r tŷ.	
Prynu tir adeiladu ar gyfer y dyfodol	Defnyddio rhai safleoedd datblygu sydd eisoes yn ein perchnogaeth i ddechrau ar ein cynlluniau mewn rhai ardaloedd lle mae'r angen gan drigolion lleol yn glir. Ond os am barhau wedi hynny, byddwn angen bod yn barod i ymateb yn gyflym i brynu tir adeiladu pan fydd y cyfle'n codi yn y lleoliadau cywir.	

Nodwyd yn ein Hasesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y Cynllun hwn y byddai'n cael effaith bositif ar y Gymraeg:

"Amcangyfrifir fod 60% o brynwyr wedi eu prisio allan o'r farchnad leol. Gall cynyddu'r nifer o dai fforddiadwy, yn ogystal â'r pecynnau cefnogaeth arfaethedig o ran benthyciadau a rhyddhad trethi, olygu fod mwy o bobl leol yn dewis / gallu aros yng Ngwynedd."

Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg a Pheilot Dwyfor

Yn ystod misoedd cyntaf 2022, bu i'r Adran ymateb ar ran y Cyngor i ymgynghoriad Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg, a bellach mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Cynllun yn derfynol. Ac eithrio'r hyn a nodir yn y Cynllun, nid yw'n glir eto sut bydd y Cyngor na'r Adran yn cyfrannu at y Cynllun wrth symud ymlaen ond tybir y bydd nifer o'r ymyraethau'n cael eu treialu yn ardal Peilot Dwyfor.

Ym mis Tachwedd, 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu bwriad i gynnal cynllun peilot i fynd i'r afael â'r broblem dai yn ardal Dwyfor. Rydym wedi bod yn cydweithio gyda'r Llywodraeth ers misoedd ar amryw brosiectau sydd naill ai'n cryfhau'r rheiny sydd eisoes yn ein Cynllun Gweithredu Tai (megis y Cynllun Prynu Cartref a'n cynlluniau tai gweigion) neu sy'n gynlluniau newydd sydd i'w treialu yn ardal y Peilot.

Systemau a Thechnoleg

Mae'r Adran yn gwneud defnydd helaeth o systemau amrywiol, sy'n cynnwys systemau i ddal a dadansoddi gwybodaeth am eiddo'r Cyngor megis cynnal a chadw, Clefyd y Lleng Filwyr a defnydd a gwariant ynni; ac yn y maes tai i gadw cofrestrau tai a gwybodaeth am sefyllfa ddiartrefedd y Sir, a systemau y mae'r Uned Gorfodaeth Tai a'r Uned Grantiau a Phrosiectau Tai yn ei defnyddio i hwyluso eu gwaith hwythau.

Rydym hefyd wedi datblygu ein systemau ein hunain ar gyfer yr Uned Cynnal a Chadw ar y cyd â'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth mewnol, ac wrthi ar hyn o bryd yn caffael systemau newydd ar gyfer digartrefedd ac opsiynau tai. Rhan bwysig a chreiddiol o'r broses oedd sicrhau bod posib defnyddio'r systemau yn Gymraeg, ac mae'n braf dweud ein bod wedi llwyddo yn hynny o beth. Credwn fod hynny'n bwysig gan ei fod yn caniatáu i ni gynnal ein gweithrediadau mewnol yn Gymraeg heb orfod cyfieithu, dehongli neu rannu gwybodaeth yn Saesneg.

Er bod nifer o'r systemau eraill yn cael eu darparu yn Saesneg (oherwydd iaith y cyflenwyr), mae'r gallu gennym i greu neu addasu elfennau o fewn rhai o'r systemau hyn, a chreu a chynhyrchu ein hadroddiadau ein hunain, a wneir naill ai yn uniaith Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Cyfathrebu

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd rhifyn cyntaf ein newyddlen adran, lle rhennir materion o ddiddordeb gyda staff, ynghyd â rhoi cyfle i staff o amryw wasanaethau'r Adran ddod i adnabod ei gilydd. Mae'n rhoi lle hefyd i dynnu sylw staff at gyhoeddiadau corfforaethol pwysig megis y newid diweddar ym mholisi iaith y Cyngor.

Holiadur anghenion tai

Yn ystod ail a thrydydd chwarter 2022, cynhaliwyd arolwg anghenion tai ar y cyd ag arolwg Ardal Ni, ble gofynnwyd i bobl Gwynedd am eu sefyllfa dai heddiw ac i'r dyfodol yn ogystal â'u barn ynghylch beth dybient sydd ei angen yn y maes tai yng Ngwynedd. Daeth yr arolwg i ben yn chwarter olaf 2022 ac mae'r 1500 o ymatebion a dderbyniwyd yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd.

Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:

Allanoli gwaith a gosod cytundebau trydydd parti

Cwestiwn 2: Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol?

Mae'r Adran yn ymwneud â nifer o gytundebau a chontractwyr yn sgil gwaith a wneir ar eiddo'r Cyngor yn ogystal ag yn y maes tai.

Gwasanaethau Eiddo

Ar y cyfan, gosodir gwaith yn allanol ar gytundeb gan y Gwasanaethau Datblygu Eiddo, Cynnal a Chadw a'r Uned Grantiau a Phrosiectau Tai. Er enghraifft, bydd y Gwasanaeth Datblygu Eiddo'n gosod tendrau ar gyfer gwaith adeiladu o bob math, a'r Gwasanaeth Cynnal a Chadw yn chwilio am gwmnïau arbenigol i osod cytundebau ar gyfer gwaith megis larymau tân y Cyngor. Wrth wneud hyn, defnyddiwn brofiad helaeth ein swyddogion ynghyd ag arbenigedd y Tîm Categori Corfforaethol i sicrhau ein bod yn cwblhau'r gwaith i'r safon briodol.

Teimlwn fod arfer dda yn cael ei amlygu pan osodir contractau lle ymdrechir i sicrhau bod safon y gwasanaeth Gymraeg yn cael ei sicrhau a'i gynnal. Caiff copi o'r Polisi Iaith ei gynnwys yn y dogfennau tendro, a gofynnir i bob ymgeisydd ei ddarllen er mwyn sicrhau eu bod yn deall beth yw'r gofynion (megis os oes angen iddynt ddefnyddio arwyddion, bod y rheiny'n ddwyieithog), ond hefyd eu bod yn deall pwysigrwydd y Gymraeg i Gyngor Gwynedd.

Yn ogystal â hynny, mewn tendrau gwerth uchel, gofynnir i gwmnïau ddarparu Ymateb Buddion Cymdeithasol sy'n cwmpasu'r Ddeddf Llesiant 2015. Golyga hyn ofyn i ddarpar contractwyr ystyried sut gallent gyfrannu at y gymdeithas yn lleol, trwy gamau megis creu swyddi'n lleol neu gynnig cyfleoedd profiad gwaith. Sgil-effaith hynny, wrth gwrs, yw creu cyfleoedd i bobl Gwynedd aros yn eu hardal, a thrwy hynny gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith waith a byw yn y Sir.

Ymgynghorwyr allanol adeiladu/datblygu eiddo

Mae hysbysebion am dendrau fel rheol yn cael eu cyhoeddi yn Saesneg, yn enwedig pan fo rheidrwydd i hysbysebu'n genedlaethol ac mae gofyniad cyfreithiol i hysbysebu yn Saesneg. Golyga hynny bod dogfennaeth, contractau safonol ac ati gan amlaf yn cael eu cyhoeddi'n Saesneg ac weithiau yn ddwyieithog. Serch hynny, disgwylir i ymgynghorwyr allanol gydymffurfio â Pholisi Iaith y Cyngor. Os oes angen darparu dyluniadau, neu adroddiadau byr ar brosiect er pwrpas ymgynghoriad gyda'r cyhoedd, byddwn yn sicrhau eu bod ar gael yn ddwyieithog. Ymhellach, disgwylwn bod unrhyw ymgynghorwyr a all gymryd rhan mewn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid neu'r cyhoedd yn gallu darparu siaradwyr Cymraeg, neu ddarparu cyfleusterau cyfieithu.

Gwasanaethau Tai: Grantiau a Phrosiectau Tai

Mae'r Uned Grantiau a Phrosiectau Tai yn delio â chontractwyr yn aml wrth gomisiynu gwaith ar ran rhai o unigolion mwyaf bregus y Sir. Contractwyr lleol sy'n ymgymryd â'r gwaith adeiladol, gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt yn siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn hynod o bwysig i ni, gan fod y gallu i gyfathrebu gydag ymgeiswyr (yn enwedig yr henoed) yn y Gymraeg yn gallu cynnig cysur a sicrwydd pan fyddont mewn sefyllfaoedd anodd ac agored i niwed (*vulnerable*).

Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod: **Gweithredu'n ddwyieithog**

Cwestiwn 3: Oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg?

Yn gyffredinol, mae'n gallu i gynnig gwasanaeth llawn yn Gymraeg yn gadarn ac ni theimlwn bod rhwystrau yn hyn o beth. Mae gweinyddiaeth fewnol yr Adran yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg, ac rydym yn ymfalchïo yn ein gallu i gynnig cymorth i'n defnyddwyr gwasanaeth, nifer ohonynt yn rhai o unigolion mwyaf bregus ein cymdeithas, trwy gyfrwng y Gymraeg. Anogwn aelodau o staff sydd ychydig yn fwy dihyder yn eu sgiliau Cymraeg neu sy'n dymuno/angen gwella eu sgiliau iaith i chwilio am gyfleoedd i ddysgu/datblygu eu sgiliau. Yn wir, dros y 12 mis diwethaf bu 6 o aelodau o staff yr Adran yn dilyn amrywiol gyrsiau dysgu neu ddatblygu Cymraeg. Credwn bod lle i ddatlu bod aelodau o staff yr adran yn chwilio'n rhagweithiol am gyfleoedd i wella a/neu gadw safon eu hiaith ac yn cymryd perchnogaeth dros hynny er budd ein defnyddwyr gwasanaeth.

Cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad diwethaf, er ein bod fel Adran yn llwyddo i gynnig ein gwasanaethau i gyd yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, mae'r darlun yn dra gwahanol wrth edrych y tu allan i'r Cyngor. Cynhelir cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol ar y cyfan yn uniaith Saesneg, ac er bod cyfieithu a deunydd Cymraeg ar gael mewn rhai ohonynt, mae hynny'n gallu bod yn llafurus a chreu teimlad bod yr un sy'n gofyn am gyfieithu yn creu trafferth. Gall hyn droi'n rhwystr pan mae'n dod i gynnig gwasanaeth Cymraeg i'n defnyddwyr Gwasanaeth.

Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod: **Datblygu cyfleoedd newydd**

Cwestiwn 4: Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?

Y maes tai ac eiddo

- Mewn Cytundebau Lefel Gwasanaeth i ddarparu llety â chefnogaeth, byddwn yn gosod amod bod rhaid i'r darparwyr gwasanaeth/cefnogaeth fod yn gallu siarad Cymraeg. Enghraifft o hyn yw'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Tŷ Adferiad, Porthmadog, 137 Stryd Fawr Bangor, a 35 Ffordd y Coleg, Bangor
- Unwaith eto, nodwn ein teimlad y dylid datblygu rhagor o hyfforddiant penodol yn y Gymraeg yn y maes tai – mae'r rhan fwyaf o hyfforddiant yn digwydd yn y Saesneg, ac er nad yw hynny'n rhwystro nac yn atal ein gallu i weithredu, byddai'n dda gallu derbyn yr hyfforddiant yn y Gymraeg, neu'n ddwyieithog o leiaf.

Cyffredinol

- Teimlwn bod y Fforwm Dynodiadau Iaith yn gyfrwng da iawn ar gyfer rhannu arferion da ar draws y Cyngor, ynghyd â chael arbenigwyr a phencampwyr "o gwmpas y bwrdd" i drafod rhwystrau a chyfleoedd. Mae hefyd yn rhoi proc i ni fel Adran gymryd cam yn ôl bob yn hyn a hyn i weld a oes unrhyw beth angen sylw neu ddathlu unrhyw lwyddiannau hefyd. Yn yr un modd gwelwn bod yr Adroddiad Chwarterol yn hynod o fuddiol fel modd o roi trosolwg dros ein hadran.
- O fod yn gweithio gartref neu'n hybrid dros y cwta ddwy flynedd a hanner ddiwethaf, mae wedi dod i'r amlwg bod staff yn colli gweld ei gilydd yn y swyddfa a chael y cyfle i sgwrsio'n anffurfiol gyda'r naill a'r llall. Credwn bod hynny'n berthnasol hyd yn oed mwy yn achos staff sy'n dysgu neu ddatblygu eu Cymraeg. Tybed a fyddai edrych ar sut gellid dod â'r carfannau hyn at ei gilydd mewn modd anffurfiol yn fuddiol, nid yn unig ar gyfer ein staff, ond hefyd ar gyfer pobl Gwynedd yn y pen draw?

Eitem 8

DYDDIAD	PWYLLGOR IAITH
CYFARFOD	30 Ionawr 2023
TEITL	CANLYNIADAU CYFRIFIAD 2021 - YR IAITH GYMRAEG
PWRPAS	Rhannu gwybodaeth o'r Cyfrifiad am niferoedd a chyfran y siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd
AWDUR	Emyr Edwards, Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth

1. Cyflwyniad

1.1. Cynhaliwyd y Cyfrifiad diweddaraf ar 21 Mawrth 2021 ac fe gyhoeddwyd y canlyniadau manwl cyntaf am yr iaith Gymraeg ar 6 Rhagfyr 2022. Dyma'r unig ffynhonnell ddata gynhwysfawr am niferoedd y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

1.2. Roedd y Cyfrifiad yn holi'r canlynol fesul unigolyn:

Ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen, neu ysgrifennu Cymraeg? - *Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

Deall Cymraeg llafar

Siarad Cymraeg

Darllen Cymraeg

Ysgrifennu Cymraeg

NEU ddim un o'r uchod


1.3. Mae'r adroddiad yma yn rhannu'r prif ganlyniadau ar gyfer Gwynedd gan ganolbwyntio'n bennaf ar y niferoedd / cyfrannau ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg, er y cyfeirir yn rhan 5 yr adroddiad at rai o'r agweddau eraill hefyd.

2. Siaradwyr Cymraeg Gwynedd


2.1. Ar ddiwrnod Cyfrifiad 2021 roedd **73,560** o bobl (3 oed a hŷn) yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd sy'n cyfateb i **64.4%**. Yn 2011 roedd y ganran gyfatebol yn **65.4%**, felly mae'r cyfran wedi **gostwng 1%**. (Nifer y siaradwyr Cymraeg 3+ oed yn 2011 oedd **77,000**).

2.2. Yng Nghymru gyfan roedd **17.8%** yn gallu siarad Cymraeg sydd yn **ostyngiad o 1.2%** ers 2011.

2.3. Mae'r siart isod yn dangos y cynnydd / gostyngiad yn y ganran sy'n siarad Cymraeg ym mhob un o ardaloedd awdurdod lleol Cymru ac yn dangos bod 18 allan o'r 22 ardal wedi gweld gostyngiad ers 2011:




- 2.4 Yn y siart uchod mae'r ffigwr ar gyfer y newid yng Ngwynedd wedi'i ddangos yn goch, ffigyrau "ardaloedd mwy Cymraeg eu hiaith" eraill¹ mewn glas, ac awdurdodau eraill mewn lliw llwyd.
- 2.5 Fe welir o hyn bod y gostyngiad yng Ngwynedd (-1.0%) yn llai na'r gostyngiad ym mhob un o'r "ardaloedd mwy Cymraeg eu hiaith" eraill, sy'n amrywio o -1.4% (Ynys Môn) i -4.0% (Sir Gaerfyrddin).
- 2.6 Mae Gwynedd wedi gweld lleihad yng nghanran ei siaradwyr Cymraeg ym mhob Cyfrifiad ers 1981, fel ddangosir isod.



¹ I'r prwpas yma diffinnir "ardaloedd mwy Cymraeg eu hiaith" fel y siroedd oedd â chyfran uwch na chyfartaledd Cymru gyfan (19.0%) o siaradwyr Cymraeg yng Nghyfrifiad 2011.

- 2.7 Wrth edrych ar y gwahanol grwpiau oedran gallwn weld bod y cyfran siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd ar ei uchaf yn y grŵp oedran 3-15 oed, ac ar ei isaf yn y grŵp 65-79 oed.




3 Y newid dros amser fesul grŵp oedran


- 3.1. Mae'r tabl isod yn dangos y canrannau fesul grŵp oedran. Cafwyd y gostyngiad mwyaf yn y ddau grŵp oedran hynaf, sef 65-79 oed a 80 oed a throsodd. Gwelwyd gostyngiad hefyd yn y grŵp 3-15 oed. Yn y grwpiau oedran eraill fe welwyd rhywfaint o gynnydd dros y degawd, gyda'r cyfran yn y grŵp 16-24 oed 1.6% yn uwch nag oedd yn 2011.

Grŵp Oedran	2021	2011	+/- %
3 – 15 oed	86.2%	89.1%	-2.9%
16 – 24 oed	60.2%	58.6%	+1.6%
25 – 34 oed	69.1%	68.9%	+0.2%
35 – 49 oed	66.9%	66.7%	+0.2%
50 – 64 oed	58.5%	57.9%	+0.6%
65 – 79 oed	53.3%	56.6%	-3.3%
80+ oed	58.3%	61.6%	-3.3%
Pob oedran 3+ oed	64.4%	65.4%	-1.0%

- 3.2. Wrth edrych ar sut mae'r newid fesul grŵp oedran yng Ngwynedd yn cymharu efo Cymru gyfan, fe welwn (siart isod) bod y newidiadau yng Ngwynedd yn adlewyrchu i raddau y patrwm drwy Gymru (heblaw am y grŵp 50-64 oed, lle bu cynnydd yng Ngwynedd ond gostyngiad drwy Gymru).
- 3.3. O fewn y ddau grŵp oedran hynaf, fodd bynnag, fe fu mwy o ostyngiad yng Ngwynedd nag a fu yng Nghymru yn gyffredinol. Ar y llaw arall, fe welir bod y canran siaradwyr Cymraeg yn y grŵp 3-15 oed wedi gostwng lai yng Ngwynedd na drwy Gymru gyfan.



3.4. Mae'n bosibl edrych ar ddata Cyfrifiad ar gyfer grwpiau oedran eithaf eang o 1981 ymlaen (siart isod). Mae'r cyfran siaradwyr Cymraeg wedi gostwng yn gyffredinol ar draws yr oedranau ond wedi parhau'n gymharol sefydlog yn y grŵp 3-15 oed.



4. Y data ar gyfer ardaloedd llai o fewn Gwynedd

Fesul y 13 ardal

- 4.1. Mae'r map yn **Atodiad 1** yn dangos y cyfran siaradwyr Cymraeg fesul y 13 ardal yng Ngwynedd. (Mae **Atodiad 2** yn rhestru'r prif drefi / pentrefi fesul ardal er hwylustod).
- 4.2. Mae'r tabl isod yn manylu ar y canrannau, ac yn dangos bod 7 o'r 13 ardal â dros 70% o siaradwyr Cymraeg yn 2021 (ac roedd yr un ardaloedd â dros 70% yn 2011).
- 4.3. Fe welir mai yn Nalgylch Caernarfon roedd y cyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn 2021 (81.5%), a'r cyfran isaf ym Mro Dysynni (40.1%).
- 4.4. Wrth gymharu'r data gyda ffigyrau 2011, mae'r darlun yn un eithaf amrywiol gyda chynnydd mewn tair ardal (Ardal Pen Llŷn, Bro Dysynni a Dalgylch Bangor) a gostyngiad yn y 10 ardal arall. Roedd y gostyngiadau mwyaf yn Nalgylch Dolgellau (-4.4%) a Dalgylch Caernarfon (-3.8%).

Ardal	2021	2011	+/- %
Dalgylch Caernarfon	81.5%	85.3%	-3.8%
Bro Lleu / Nantlle	76.3%	78.7%	-2.4%
Bro Peris	74.6%	77.4%	-2.8%
Bro Ffestiniog	74.4%	77.2%	-2.8%
Dalgylch Pwllheli	74.3%	77.2%	-2.9%
Dalgylch Bala / Penllyn	73.1%	75.8%	-2.7%
Bro Ogwen	70.4%	72.6%	-2.2%
Ardal Pen Llŷn	69.0%	67.6%	+1.4%
Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth	66.8%	69.0%	-2.2%
Dalgylch Dolgellau	57.7%	62.1%	-4.4%
Bro Ardudwy	47.3%	47.8%	-0.5%
Dalgylch Bangor	44.1%	42.0%	+2.1%
Bro Dysynni	40.1%	38.6%	+1.5%
Gwynedd	64.4%	65.4%	-1.0%

- 4.5. Mae **Atodiad 3** yn mynd yn ôl ymhellach gan fanylu ar y newid yn nghanran pob ardal ers 1981.

Fesul y 71 cymdogaeth (Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is neu 'LSOA')

4.6. Yn 2011 roedd 39 o'r 71 cymdogaeth â chyfran uwch na 70% yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn wedi gostwng i **34** cymdogaeth erbyn 2021. Mae **Atodiad 4** yn dangos % y siaradwyr Cymraeg fesul cymdogaeth ar fap.

4.7. Dyma'r 5 cymdogaeth â'r cyfrannau uchaf ac isaf o siaradwyr Cymraeg:

5 cymdogaeth (LSOA) gyda'r % <u>uchaf</u> o siaradwyr Cymraeg yn 2021	%
Seiont 1	86.3%
Llanrug	86.0%
Bethel a Cwm y Glo 1	85.9%
Peblig	84.6%
Penygroes	83.0%

5 cymdogaeth (LSOA) gyda'r % <u>isaf</u> o siaradwyr Cymraeg yn 2021	%
Deiniol	19.6%
Menai (Bangor)	22.4%
Hirael a Garth 1	33.0%
Hirael a Garth 2	35.2%
Tywyn 1	36.1%

4.8. Dyma'r 5 cymdogaeth lle bu'r cynnydd mwyaf, a'r gostyngiad mwyaf, yn y cyfran o siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 a 2021:

5 cymdogaeth (LSOA) gyda'r <u>cynnydd</u> % mwyaf rhwng 2011 a 2021	%
Llanbedrog ac Abersoch	+5.4%
Dyffryn Ardudwy a Llanbedr	+5.2%
Llangelynnin	+4.3%
Pentir 1	+4.2%
Y Felinheli	+4.0%

5 cymdogaeth (LSOA) gyda'r <u>gostyngiad</u> % mwyaf rhwng 2011 a 2021	%
Hendre (Bangor)	-7.0%
Abermaw	-6.9%
Corris/Mawddwy	-6.8%
Diffwys a Maenofferen	-6.2%
Bala	-6.0%

4.9. Mae **Atodiad 5** yn dangos y canrannau, a'r newid ers 2011, ar gyfer pob un o'r 71 cymdogaeth yng Ngwynedd.

5. Sgiliau Cymraeg eraill

5.1. Mae data hefyd ar gyfer y rhai ddywedodd eu bod yn **deall Cymraeg ar lafar yn unig** (a ddim yn ei siarad). Ar gyfer Gwynedd mae'r ganran yn 7.1% o'i gymharu â 5.2% yng Nghymru.

5.2. Dyma'r 5 cymdogaeth â'r cyfrannau uchaf :

5 cymdogaeth (LSOA) gyda'r % uchaf o bobl sy'n deall Cymraeg llafar yn unig	%
Marchog 1	22.2%
Marchog 2	19.1%
Dewi	14.8%
Hendre (Bangor)	14.0%
Pentir 2	13.1%

- 5.3. Mae'r 5 cymdogaeth yma yn ardal Bangor ac wrth edrych ymhellach i lawr y rhestr, mae 3 o'r pum cymdogaeth rheiny yn ardal Bangor hefyd.
- 5.4. Mae data hefyd am y nifer sydd **yn gallu siarad Cymraeg ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu'n Gymraeg**. Y ganran yma ar gyfer Gwynedd ydi 5.4% o'i gymharu â 2.3% yng Nghymru.
- 5.5. Dyma'r 5 cymdogaeth â'r cyfrannau uchaf :

5 cymdogaeth (LSOA) gyda'r % uchaf o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu'n Gymraeg	%
Peblig	10.4%
Marchog 1	9.0%
Marchog 2	8.1%
Pentir 1	8.1%
Cadnant	8.0%

6. Gwybodaeth bellach fydd ar gael


- 6.1. Bydd mwy o ddata'r Cyfrifiad yn cael ei ryddhau dros y misoedd nesaf gan gynnwys data ar gyfer wardiau etholiadol, ac ardaloedd cyngor cymuned. Bydd modd hefyd ymchwilio ymhellach i'r cyswllt rhwng yr iaith Gymraeg a nodweddion eraill y boblogaeth, megis sefyllfa economaidd, iechyd, addysg ac ati.
- 6.2. Mae yna rai bylchau hefyd yn yr wybodaeth ryddhawyd ar lefel ardaloedd / cymdogaethau (e.e. am oedran siaradwyr Cymraeg ar lefel leol) ac rydym wedi holi ymhellach am amserlen rhyddhau hyn.

7. Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor Iaith

- 7.1. Cyflwynir fel gwybodaeth gefndir allweddol am sefyllfa'r iaith yng Ngwynedd, a allai ysgogi trafodaeth bellach am ymyraethau / prosiectau posib neu am waith ymchwil ehangach yn y maes.

Atodiad 1

% o siaradwyr Cymraeg yn ardaloedd Gwynedd



Adran Cefnogaeth Gorrforaethol, Cyngor Gwynedd
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023387

Corporate Support Department, Gwynedd Council
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023387

Atodiad 2 – Rhestr Pentrefi o fewn yr 13 ardal yng Ngwynedd

Dalgylch Caernarfon – Bontnewydd, Caernarfon, Llanfaglan

Bro Llew / Nantlle – Aberdesach, Bethesda Bach, Carmel, Clynnog Fawr, Dinas, Dinas Dinlle, Groeslon, Llandwrog, Llanllyfni, Nantlle, Nasareth, Nebo, Pant Glas, Penygroes, Pontllyfni, Rhosgadfan, Rhostryfan, Saron, Talysarn

Bro Peris – Bethel, Betws Garmon, Brynrefail, Caeathro, Ceunant, Cwm y Glo, Deiniolen, Dinorwig, Fachwen, Llanberis, Llanddeiniolen, Llanrug, Nant Peris, Penisarwaun, Pontrug, Rhiwlas, Rhyd Ddu, Seion, Waunfawr

Bro Ffestiniog – Bethania, Blaenau Ffestiniog, Gellilydan, Llan Ffestiniog, Maentwrog, Manod, Tanygrisiau, Trawsfynydd

Dalgylch Pwllheli – Abererch, Afon Wen, Boduan, Chwilog, Efailnewydd, Llanaelhaearn, Llanarmon, Llangybi, Llannor, Llanystumdwy, Llithfaen, Pencaenewydd, Penrallt, Penrhos, Pentreuchaf, Pistyll, Pwllheli, Rhoslan, Rhydyclafdy, Trefor, Y Ffôr

Dalgylch Bala/Penllyn – Frongoch, Glan yr Afon, Llandderfel, Llanfor, Llangower, Llanuwchllyn, Llanycil, Llidiardau, Parc, Rhosygwaliau, Rhyd Uchaf, Sarnau, Y Bala

Bro Ogwen – Abergwyngregyn, Bethesda, Llandygai, Llanllechid, Mynydd Llandygai, Talybont, Tregarth

Ardal Pen Llŷn – Aberdaron, Abersoch, Botwnnog, Bryncroes, Bwlchtocyn, Dinas, Edern, Llanbedrog, Llanfaelrhys, Llangian, Llangwnadl, Llaniestyn, Morfa Nefyn, Mynytho, Nefyn, Rhiw, Rhoshirwaun, Sarn Bach, Sarn Mellteyrn, Tudweiliog, Uwchmynydd

Ardal Porthmadog/Penrhyndeudraeth – Beddgelert, Borth y Gest, Bryncir, Criccieth, Croesor, Dolbenmaen, Garndolbenmaen, Garreg, Golan, Llanfrothen, Minffordd, Morfa Bychan, Nantmor, Penmorfa, Penrhyndeudraeth, Pentrefelin, Porthmadog, Prenteg, Tremadog

Dalgylch Dolgellau – Aberangell, Arthog, Bont Ddu, Brithdir, Corris, Dinas Mawddwy, Dolgellau, Ganllwyd, Llanelltyd, Llanfachraeth, Llanymawddwy, Mallwyd, Penmaenpwl, Rhydymain

Bro Ardudwy – Abermaw, Dyffryn Ardudwy, Harlech, Llanaber, Llanbedr, Llandanwg, Llanddwywe, Llandecwyn, Llanfair, Tal-y-Bont, Talsarnau

Dalgylch Bangor – Bangor, Glasinfryn, Penrhosgarnedd, Pentir, Treborth, Y Felinheli


Bro Dysynni – Aberdyfi, Abergynolwyn, Aberllefenni, Bryncrug, Dolgoch, Fairbourne, Llanegryn, Llanfihangel-y-Pennant, Llwyngwrl, Pennal, Rhoslefain, Tal-y-Llyn, Tywyn

Atodiad 3 - Darlun o fewn ardaloedd Gwynedd ers 1981

Ardal	1981	1991	2001	2011	2021
Dalgylch Caernarfon	86.0%	87.9%	86.4%	85.3%	81.5%
Bro Lleu / Nantlle	84.0%	80.0%	78.8%	78.7%	76.3%
Bro Peris	82.9%	79.3%	78.9%	77.4%	74.6%
Bro Ffestiniog	86.6%	82.4%	80.0%	77.2%	74.4%
Dalgylch Pwllheli	85.1%	79.9%	78.5%	77.2%	74.3%
Dalgylch Bala / Penllyn	85.3%	80.6%	77.7%	75.8%	73.1%
Bro Ogwen	76.5%	74.1%	72.4%	72.6%	70.4%
Ardal Pen Llŷn	79.2%	72.0%	69.6%	67.6%	69.0%
Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth	80.0%	74.5%	72.3%	69.0%	66.8%
Dalgylch Dolgellau	74.4%	64.7%	67.1%	62.1%	57.7%
Bro Ardudwy	58.9%	52.5%	50.1%	47.8%	47.3%
Dalgylch Bangor	58.0%	58.9%	51.6%	42.0%	44.1%
Bro Dysynni	52.3%	47.1%	43.4%	38.6%	40.1%
Gwynedd	76.2%	72.1%	69.0%	65.4%	64.4%

Atodiad 4 - % siaradwyr Cymraeg fesul cymdogaeth, 2021

% siaradwyr Cymraeg fesul cymdogaeth, Cyfrifad 2021



Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023387

Corporate Support Department, Gwynedd Council
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023387

Atodiad 5 - % siaradwyr Cymraeg a'r newid ers 2011

Cymdogaeth (LSOA)	2021	2011	+/- %
Seiont 1	86.3%	90.0%	-3.7%
Llanrug	86.0%	87.8%	-1.8%
Bethel a Cwm-y-Glo 1	85.9%	87.3%	-1.4%
Peblig (Caernarfon)	84.6%	87.4%	-2.8%
Penygroes (Gwynedd)	83.0%	86.8%	-3.8%
Bontnewydd	82.6%	82.6%	0.0%
Ogwen 1	81.2%	83.0%	-1.8%
Llanwnda	81.1%	81.6%	-0.5%
Cadnant (Gwynedd)	81.0%	86.2%	-5.2%
Llandderfel a Llanuwchllyn 2	80.6%	79.2%	1.4%
Menai (Caernarfon)	78.4%	83.9%	-5.5%
Abererch	77.5%	79.8%	-2.3%
Groeslon	77.0%	81.3%	-4.3%
Dwyrain Porthmadog	76.6%	80.1%	-3.5%
Bowydd a Rhiw	76.3%	78.2%	-1.9%
Gogledd Pwllheli	76.2%	79.1%	-2.9%
Seiont 2	76.1%	80.6%	-4.5%
Aberdaron/Botwnnog a Tudweiliog	75.8%	74.7%	1.1%
De Pwllheli	74.7%	78.3%	-3.6%
Penrhyndeudraeth 2	74.6%	76.5%	-1.9%
Llanystumdwy	74.5%	77.0%	-2.5%
Teigl	74.5%	78.5%	-4.0%
Ogwen 2	74.1%	79.3%	-5.2%
Waunfawr	73.6%	75.8%	-2.2%
Deiniolen	73.3%	74.4%	-1.1%
Gerlan	73.2%	73.7%	-0.5%
Nefyn	73.2%	76.1%	-2.9%
Diffwys a Maenofferen	73.1%	79.3%	-6.2%
Trawsfynydd	72.7%	73.1%	-0.4%
Bala	72.5%	78.5%	-6.0%
Efail-newydd/Buan	72.5%	74.3%	-1.8%
Morfa Nefyn	72.3%	72.0%	0.3%
Llanllyfni a Clynnog	71.4%	74.4%	-3.0%
Llanaelhaearn	70.0%	73.8%	-3.8%
Penrhyndeudraeth 1	69.8%	72.3%	-2.5%
Talysarn	69.8%	70.7%	-0.9%
Llanberis	69.5%	74.7%	-5.2%
Bethel a Cwm-y-Glo 2	69.1%	73.1%	-4.0%
Y Felinheli	68.3%	64.3%	4.0%
Tregarth a Mynydd Llandygai	67.7%	69.0%	-1.3%
Penisarwaun	67.5%	70.6%	-3.1%
Porthmadog - Tremadog	65.7%	66.8%	-1.1%
Dolbenmaen	65.6%	67.6%	-2.0%
Llandderfel a Llanuwchllyn 1	64.9%	67.1%	-2.2%
Pentir 1	62.3%	58.1%	4.2%

Llanengan	62.0%	63.4%	-1.4%
De Dolgellau	61.3%	67.1%	-5.8%
Cymdogaeth (LSOA) parhad	2021	2011	+/- %
Criccieth	60.5%	64.2%	-3.7%
Brithdir a Llanfachraeth/Ganllwyd/Llanelltyd	60.0%	63.2%	-3.2%
Gogledd Dolgellau	59.9%	61.8%	-1.9%
Arllechwedd	57.8%	61.9%	-4.1%
Pentir 2	57.3%	59.3%	-2.0%
Gorllewin Porthmadog	55.8%	57.0%	-1.2%
Llanbedrog ac Abersoch	54.7%	49.3%	5.4%
Harlech	54.6%	54.1%	0.5%
Glyder	53.0%	51.7%	1.3%
Dewi	51.8%	52.6%	-0.8%
Marchog 1	51.5%	51.9%	-0.4%
Corris/Mawddwy	49.0%	55.8%	-6.8%
Marchog 2	48.3%	48.1%	0.2%
Dyffryn Ardudwy & Llanbedr	46.7%	41.5%	5.2%
Aberdyfi/Bryn-crug/Llanfihangel	43.3%	42.6%	0.7%
Abermaw	41.9%	48.8%	-6.9%
Llangelynin	40.2%	35.9%	4.3%
Tywyn 2	40.2%	39.3%	0.9%
Hendre (Gwynedd)	38.3%	45.3%	-7.0%
Tywyn 1	36.1%	35.8%	0.3%
Hirael a Garth 2	35.2%	35.2%	0.0%
Hirael a Garth 1	33.0%	34.8%	-1.8%
Menai (Bangor)	22.4%	18.6%	3.8%
Deiniol	19.6%	22.8%	-3.2%



comisiynyddygyymraeg.cymru

Y Gymraeg fel ffordd o weithio

Adroddiad Sicrwydd 2021-22



Cynnwys:

Rhagair	1
Prif ganfyddiadau	3
Arolwg siaradwyr Cymraeg	6
Cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg	12
Ffocws ar gydymffurfiaeth gyda'r safonau llunio polisi	27
Ffocws ar gydymffurfiaeth wrth hysbysebu swyddi a phrosesau recriwtio	32
Cydymffurfiaeth â dyletswyddau cynlluniau iaith	39
Atodiad 1	44
Atodiad 2	46

Rhagair:

Y Gymraeg fel ffordd o weithio

Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i adlewyrchu ar y ffordd y mae sefydliadau yn meddwl am y Gymraeg wrth lunio polisïau, wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau yn y Gymraeg, a rhoi sylw i'r graddau y maent yn ymateb yn briodol i'r dyletswyddau iaith a osodir arnynt. O fewn y cyd-destun hynny, rwy'n falch gallu nodi bod yr adroddiad yn cynnwys enghreifftiau cadarnhaol o gyflawniad ac yn cynnig arferion da i sefydliadau sydd â lle i wella. Er hynny, ac mae'n siŵr nad yw hyn yn syndod o ystyried y cyfnod heriol diweddar, rwy'n gofidio nad yw'r cynnydd welwyd cyn cyfnod y pandemig bellach yn bodoli.

Drwy gydol y cyfnod hwnnw bu i'r Comisiynydd ddangos goddefgarwch rheoleiddiol os oedd heriau gwirioneddol yn codi oherwydd y cyfnod argyfyngus y gorfu i bawb weithio drwyddo ond nid yw hynny bellach yn gynaliadwy. Cyfrifoldeb pennaf y Comisiynydd yng nghyswllt y drefn safonau yw cynnal y disgwyliad sydd ar sefydliadau i weithredu yn unol â safonau Llywodraeth Cymru – safonau sydd wedi eu cydsynio gan Senedd Cymru. Byddai methu rheoleiddio'n effeithiol yn gwneud cam â defnyddwyr.

Mae'r newidiadau a welwyd mewn trefniadau gweithio cyrff, megis gweithio o gartref a symud at fwy o ryngweithio digidol, bellach wedi eu mabwysiadu fel rhai hirdymor a mwyfwy o gyrff cyhoeddus yn annog model o weithio hybrid. O ganlyniad mae'n rhaid i drefniadau cydymffurfio â dyletswyddau iaith addasu a newid fel bod sefydliadau yn parhau i weithredu yr un mor effeithiol - neu yn well - nag oeddent pan oedd eu gweithlu mewn swyddfa.

Roedd adroddiad y llynedd yn amlygu enghreifftiau clodwiw o sefydliadau a lwyddodd i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg er gwaethaf newidiadau chwyldroadol. Erbyn hyn, serch hynny, mae yna sefydliadau nad ydynt wedi addasu, ac mae peryg y gall hyn gael effaith negyddol ar ddefnyddwyr y Gymraeg.

Yn yr adroddiad sicrwydd 2018-2019 "Hawlio cyfleoedd" gosododd y Comisiynydd her i sefydliadau i wella perfformiad wrth recriwtio gweithlu dwyieithog. Mae'n siom gweld nad yw hynny wedi digwydd. Mae canfyddiadau yn amlygu diffyg sylweddol wrth hysbysebu swyddi a dilyn prosesau recriwtio staff newydd. Rwyf o'r farn bod angen chwyldro er mwyn denu gweithlu sy'n medru'r Gymraeg.

Ni ellir dadlau nad yw'r sector iechyd wedi bod o dan bwysau dros y cyfnod diwethaf, ond mae rhaid i Gomisiynydd y Gymraeg bellach reoleiddio'n effeithiol er mwyn gyrru newid yn unol â'r safonau. Mae dal angen i'r sector ystyried sut mae am gwrdd â gofynion y safonau. Dengys y canfyddiadau ei fod yn perfformio'n sylweddol is na sectorau eraill sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg. Mae'n angenrheidiol, os

yw'r sefyllfa am wella, bod cydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg yn cael sylw blaenllaw mewn strategaethau ail godi.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn edrych ar berfformiad cyrff sy'n ddarostyngedig i gynlluniau iaith. Mae perfformiad cymysg ymysg y cyrff yma yn rhwystredig i ddefnyddwyr ac nid oes modd i'r Comisiynydd orfodi newid.

Rydym yn byw mewn oes o ansefydlogrwydd o ganlyniad i bandemig Covid-19, yr argyfwng costau byw, ac ansicrwydd o safbwynt ieithyddol wrth i ni aros am ganlyniadau'r Cyfrifiad. Yn yr adroddiad hwn, fy mhrif nod yw atgoffa penaethiaid sefydliadau, ac unrhyw rai mewn awdurdod, bod safonau'r Gymraeg yn safonau hyrwyddol positif. Mae'r safonau yno i ddangos parch tuag at ddewis iaith ac i alluogi siaradwyr ym mhob man i allu byw eu bywydau yn y Gymraeg. Nawr yw'r amser i fod yn ymroi i ail godi gwasanaethau gan gynllunio'n weithredol er mwyn parchu hawliau defnyddwyr y Gymraeg. Mae gan sefydliadau cyhoeddus Cymru rôl flaenllaw i'w chwarae felly wrth sicrhau fod y Gymraeg yn ffynnu, ac mae'r ffordd y maent yn cydymffurfio gyda dyletswyddau iaith yn allweddol bwysig.

Gwenith Price
Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg

Prif ganfyddiadau

Mae'r adran hon yn crynhoi canfyddiadau'r Comisiynydd o'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2021-2022.

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar waith gwirio uniongyrchol a gynhaliwyd gan swyddogion y Comisiynydd, cyfarfodydd ac ymgysylltu gyda sefydliadau sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau iaith Gymraeg, gwaith ymchwilio a gorfodi'r Comisiynydd a chanfyddiadau arolwg barn siaradwyr Cymraeg o fis Tachwedd 2021.

Oherwydd cyfyngiadau'r pandemig, nid oedd modd gwirio neu arolygu rhai gwasanaethau fel y digwyddodd yn y blynyddoedd a fu, megis gwasanaethau derbynfa, neu wirio gwasanaethau pan oedd angen teithio neu ymweld â sefydliadau, megis arwyddion a arddangosir gan gyrff neu ddefnyddio peiriannau hunan wasanaeth.

Ar ben hynny, nid oedd cyfle i'r Comisiynydd gynnal grwpiau ffocws neu ymgysylltu gydag aelodau'r cyhoedd, felly mae sylw wedi ei roi i ganlyniadau arolwg siaradwyr y Gymraeg (Tachwedd 2021) yn ogystal â chynnwys nifer o esiamplau o waith ymchwilio a gorfodi'r Comisiynydd - gwaith sydd yn seiliedig ar gwynion gan aelodau'r cyhoedd.

Mae'r adroddiad yn rhoi cyfle i sefydliadau cyhoeddus ddysgu o'r canfyddiadau a gweithredu er mwyn cryfhau darpariaeth a chynyddu defnydd o'r Gymraeg i'r dyfodol – eu cyfrifoldeb hwy yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau, a rhoddir arweiniad ar y manau hynny sydd fwyaf angen sylw yn yr adroddiad hwn er mwyn i benaethiaid sefydliadau ddeall ble mae'n rhaid iddynt gyfeirio eu sylw er mwyn osgoi wynebau camau gorfodi.

Mae yna ddiffyg sylweddol i gydymffurfio gyda safonau sy'n gysylltiedig â recriwtio staff

- Canfyddiad yr arolygon gan swyddogion y Comisiynydd yw bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hysbysebu swyddi mewn 50% o'r achosion a arolygwyd.
- Mae cynnydd wedi bod yn nifer hysbysebion swyddi a gyhoeddwyd yn Gymraeg (o 24% yn 2019 i 66% yn y flwyddyn 2022). Fodd bynnag, mae'r darlun ar draws sectorau yn gymysg. Mae'r arolygon yn dangos fod cyrff sy'n ddarostyngedig i reoliadau safonau'r Gymraeg rhif 7 (sef Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol) yn cyhoeddi dim ond 23% o'u hysbysebion swyddi yn y Gymraeg.
- Er bod cynnydd mewn swyddi sy'n cael eu hysbysebu gan gyrff yn y Gymraeg, nid yw'n dilyn bob tro fod y dogfennau cefnogol ar gyfer y swyddi hefyd ar gael yn

Gymraeg neu fod defnydd o'r Gymraeg yn cael ei hybu a'i hwyluso ymhellach yn ystod y broses hysbysebu.

- Dim ond 7% o'r hysbysebion swyddi a arolygwyd oedd yn cynnwys ffurflen gais ble roedd modd i ymgeiswyr nodi dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'r safonau sy'n gofyn iddynt asesu'r angen am sgiliau Cymraeg cyn hysbysebu swyddi gwag yn peri pryder gyda dros hanner yr hysbysebion a arolygwyd yn methu â chrybwyll pa lefel sgiliau sydd ei hangen ar y swydd, neu nad yw'r dynodiad sgiliau yn eglur i berson a fyddai'n ymgeisio.

Amlygodd arolwg barn siaradwyr Cymraeg fod y cyhoedd yn parhau o'r farn fod pethau'n gwella. Mae data yn awgrymu hefyd y byddai rhagor o bobl yn defnyddio'r Gymraeg pe bai sefydliadau yn gwneud mwy i hwyluso dewisiadau staff a chwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn abl i warantu gwasanaethau Cymraeg.

- 15% o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg barn siaradwyr Cymraeg oedd yn nodi eu bod yn ffafrio defnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus. Mae 26% pellach o siaradwyr Cymraeg fodd bynnag yn nodi eu bod yn amrywio eu dewis iaith yn ddibynnol ar y sefyllfa.
- Mae ein harolygon gwirio yn parhau i ddangos nad yw gwasanaethau Cymraeg neu weithrediad mewnol cyrff yn Gymraeg yn gyson bob tro, sydd yn debygol o arwain at ddiffyg hyder y cyhoedd yn y gwasanaethau a thuedd i droi at wasanaethau Saesneg sydd yn eu tyb nhw'n fwy dibynadwy.

Mae arolygon gwirio'r Comisiynydd yn amlygu fod gwendidau yn parhau o safbwynt rhai gwasanaethau allweddol

- Mae gwaith arolygu'r Comisiynydd yn dangos fod lefel cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'r gofynion i ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg yn gyffredinol isel. Ar gyfartaledd mae sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg yn delio â galwadau yn Gymraeg yn ystod hanner yr achosion (53%). Nid yw hyn yn rhoi unrhyw sicrwydd i ddefnyddwyr y bydd gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael.
- Roedd canfyddiadau arolygon y Comisiynydd yn canfod, pan oedd gohebiaeth Gymraeg yn cael ei hateb gan sefydliadau, roedd yn cael ei hateb yn Gymraeg 81% o'r amser. Fodd bynnag, nid yw hyn yn adlewyrchu'r gwir brofiad gan ystyried mai dim ond mewn 73% o achosion y cafodd yr ohebiaeth ymateb o gwbl.
- Felly o'r holl ohebiaeth Gymraeg anfonwyd i'r cyrff, dim ond 60% wnaeth dderbyn ymateb yn Gymraeg (gan ystyried y lefel o ymholiadau na chafodd ateb o gwbl).

Mae dealltwriaeth sefydliadau o'r gofynion safonau llunio polisi yn gwella, ond mae gweithredu a chynnal asesiadau digonol wrth wneud penderfyniadau polisi yn parhau yn anghyson.


- o Mae hunan asesiad sefydliadau yn datgan bod gweithdrefn a chanllawiau mewn lle i ddiwallu gofynion y safonau llunio polisi mewn rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwilio a gorfodi a'r nifer o gwynion mae'r Comisiynydd yn eu derbyn yn y maes hwn yn dangos fod penderfyniadau polisi yn parhau i ddigwydd heb asesiad digonol o effaith y penderfyniad ar ddefnydd o'r Gymraeg. Mae felly angen i sefydliadau sicrhau bod y gweithdrefnau a'r canllawiau sydd mewn lle yn arwain at asesiadau ystyrlon a digonol.

Mae perfformiad cyrff sy'n ddarostyngedig i gynlluniau iaith yn amrywio yn sylweddol ac mae diffyg cysondeb yn golygu nad oes sicrwydd i ddefnyddwyr fod gwasanaethau Cymraeg o safon ar gael bob tro.

Arolwg Barn Siaradwyr Cymraeg


Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd

Mae 32% o'r ymatebwyr yn 2021 wedi datgan eu barn fod eu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu **bywydau bob dydd** wedi cynyddu, gyda 45% arall yn nodi fod eu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wedi aros yr un peth. Fodd bynnag, mae 19% o'r ymatebwyr yn datgan fod eu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wedi lleihau:



Rydym wedi holi'r cwestiwn hwn yn yr arolwg siaradwyr Cymraeg ers 2017, a dylid nodi fod ymateb 2021 yn cynnwys y ganran uchaf sy'n datgan fod cynnydd yn y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd ers i'r safonau ddod i rym.


Mae'r ymateb yn 2021 hefyd yn cymharu'n ffafriol â 2020, ble roedd 23% o ymatebwyr i'r arolwg wedi nodi fod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd wedi lleihau a dim ond 20% wedi gweld cynnydd. Mae'n anodd gwybod â sicrwydd paham fod tueddiadau'r blynyddoedd blaenorol wedi newid yn ymatebion 2020, ond efallai bod modd tybio fod y pandemig wedi cael effaith ar nifer o sefyllfaoedd ble oedd ymatebwyr yn defnyddio eu Cymraeg, megis yn gymdeithasol neu wrth ddefnyddio gwasanaethau.



Defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith

Un elfen sy'n dylanwadu'n gryf ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd, ac sydd ym marn y Comisiynydd yn allweddol i weld twf yn y defnydd o'r Gymraeg, yw gallu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Am y tro cyntaf eleni felly, fe wnaeth y Comisiynydd ofyn fel rhan o'r arolwg o siaradwyr, os oedd yr ymatebwyr o'r farn fod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith wedi newid.


Ymatebodd 38% fod eu cyfleoedd wedi cynyddu, a gyda 42% pellach yn nodi fod eu cyfleoedd wedi aros yr un peth.



Defnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus

Wrth ystyried gwaith rheoleiddio'r Comisiynydd, mae'n bwysig derbyn barn y cyhoedd ar eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus. Mae'n dda i nodi felly nad oes dirywiad yn yr atebion o ran barn yr ymatebwyr ar eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus.

Gyda 35% o'r ymatebwyr yn datgan eu bod o'r farn fod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cynyddu, mae'n galonogol hefyd nodi mai gyda'r ymateb i'r cwestiwn hwn (defnydd gyda sefydliadau cyhoeddus) y gwelwyd y nifer isaf o ran ymatebwyr yn nodi fod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn lleihau (13%).




Dewis iaith

Gofynnwyd i ymatebwyr, pa iaith yr oedd well ganddyn nhw ei defnyddio gyda chyrrff cyhoeddus. Nododd 15% eu bod yn ffafrio defnyddio'r Gymraeg, a 26% yn nodi eu bod yn amrywio ffafriaeth yn ddibynnol ar y sefyllfa.

Mae 41% o'r siaradwyr Cymraeg a holwyd felly yn datgan bod yn well ganddyn nhw naill ai ddefnyddio'r Gymraeg bob tro, neu dderbyn gwasanaethau dwyieithog.

Mae her glir i sefydliadau yma i gynyddu lefelau defnydd gan roi sylw i'r 59% o bobl sy'n siarad Cymraeg nad ydyn nhw yn dewis defnyddio'r iaith.


Pa iaith sy'n well gan yr ymatebwyr ei defnyddio gyda chyrrff cyhoeddus?



■ Cymraeg ■ Saesneg ■ Amrywio dibynnol ar y gwasanaeth

Mae'n bwysig nodi fod tuedd ar ei lawr yn y ddwy flynedd ddiwethaf o ran y nifer o ymatebwyr sy'n nodi bod yn well ganddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyrrff cyhoeddus:

Canran ymatebwyr sy'n ffafrio defnyddio'r Gymraeg gyda chyrrff cyhoeddus



Mae'r tuedd negyddol hwn wedi bod yn destun trafod gan Banel Cyngori y Comisiynydd, yn enwedig wrth i'r gostyngiad sylweddol rhwng 2019 a 2020 gael ei nodi. Trafodwyd efallai fod y gostyngiad oherwydd y newidiadau yn ymwneud pobl â chyrrff cyhoeddus oherwydd pandemig COVID 19 neu gall fod yn adlewyrchu newid yn y dull bu cynnal yr arolwg yn ystod y pandemig.

Ar hyn o bryd, nid oes digon o ddata neu wybodaeth gyflawn i allu dadansoddi paham fod gostyngiad yn y ganran o ymatebwyr sy'n ffafrio defnyddio'r Gymraeg gyda chyrrff cyhoeddus, nac ychwaith i ddod i farn a yw'n duedd hir dymor neu yn ddigwyddiad untro sy'n tarddu o'r pandemig, dull cynnal arolwg o bell, neu'r dirywiad mewn lefelau cydymffurfiaeth mewn amryw o sefydliadau mewn nifer o feysydd pwysig.

Fodd bynnag, mae hwn yn ystadegyn pryderus a rhaid i gyrrff cyhoeddus ystyried yn ofalus a yw eu gwasanaethau Cymraeg wedi cael eu cynnal dros gyfnod y pandemig

neu beidio, a yw'r ffordd maent yn cael eu darparu wedi newid neu ddirywio, pa gamau ail godi all fod eu hangen a beth yw'r camau sy'n mynd i gael eu cymryd i hybu a hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyrrff cyhoeddus, ac i sicrhau ei bod hi'r un mor hawdd a hwylus i ddefnyddio'r Gymraeg ac ydyw i ddefnyddio'r Saesneg.

Mae ein canlyniadau gwirio ac arolygon siopwr cudd fel amlinellwyd uchod, yn parhau i ddangos nad yw gwasanaethau Cymraeg neu weithrediad mewnol cyrrff yn Gymraeg yn gyson bob tro, sydd yn debygol o arwain at ddiffyg hyder y cyhoedd yn y gwasanaethau. Er mwyn i ymddygiad defnyddwyr newid, ble mae siaradwyr y Gymraeg am ddefnyddio'r Gymraeg bob tro, mae'n rhaid bod sicrwydd fod gwasanaeth o safon ar gael.

Mae ymatebwyr yn datgan o fewn yr arolwg beth yw'r prif ffactorau sydd yn gwneud iddynt amrywio dewis iaith, gyda 34% o ymatebwyr yn amrywio defnydd iaith yn sgil y pwnc sydd dan sylw.

Mae 10% yn dewis peidio defnyddio'r Gymraeg yn sgil diffyg argaeledd y gwasanaeth Cymraeg ac 8% oherwydd amseroedd aros am wasanaethau Cymraeg. Mae felly o fewn gallu'r cyrrff cyhoeddus i hybu cynnydd yn nhermau defnydd o'r Gymraeg drwy wneud yn siŵr fod gwasanaethau Cymraeg ar gael ac yn cael eu hyrwyddo. Mae'n rhaid hefyd sicrhau nad yw gwasanaeth Cymraeg yn israddol neu fod unrhyw ragdybiaeth y gallai fod yn israddol. Mae'n rhaid i gyrrff ei gwneud yn glir trwy eu hymddygiad nad yw'r Gymraeg yn cael triniaeth lai ffafriol na'r Saesneg pan mae'n dod at weithredu gwasanaethau fel bod hyder gan y cyhoedd eu defnyddio.

Mae 19% o ymatebwyr sydd ddim yn defnyddio'r Gymraeg ar hyn o bryd o'r farn nad ydyn nhw yn bersonol yn ddigon rhugl neu â gafael digonol o'r iaith, ac mae 9% yn datgan fod ganddynt ddiffyg hyder yn eu gallu i siarad Cymraeg ac felly yn dewis peidio â defnyddio'r Gymraeg.

Fodd bynnag, mae 12% o'r rheini sy'n dewis peidio defnyddio'r Gymraeg yn nodi nad ydynt yn dewis defnyddio'r Gymraeg, oherwydd yn eu barn nhw, nid oes argaeledd digonol o wasanaethau Cymraeg neu nid oes gwasanaeth Cymraeg ar gael bob amser. Mae 5% yn nodi fod angen i'r corff gychwyn y sgysiau yn Gymraeg er mwyn i'r ymatebwyr fynd ymlaen i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r farn hon yn amlygu'r elfennau gall cyrrff cyhoeddus eu newid drwy fuddsoddiad ym marchnata a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg a drwy wella eu perfformiad cyffredinol gyda safonau'r Gymraeg drwy ymgorffori'r cynnig rhagweithiol.

Cynhaliwyd ymchwil pellach ynghyd â gwaith i ystyried cynllunio gwasanaethau yn well gan y Comisiynydd yn ei adroddiad sicrwydd yn 2018 - 2019. Yn sgil effaith newid rhai trefniadau gweithio a threfniadau gweithredu a chynnal gwasanaethau, dylai cyrrff cyhoeddus ail ystyried rhai o'r ffactorau amlinellwyd yn adran 5 yr adroddiad hwnnw:

[20190731-hawlio-cyfleoedd-adroddiad-sicrwydd-2018-19-1.pdf](#)
([comisiynyddygydraeg.cymru](#))

Mae'r Comisiynydd hefyd yn cynnig arweiniad ymarferol pellach ar hybu defnydd o'r Gymraeg yn y cyd-destun hwn o fewn ei ddogfen gyngor:


Ansawdd

Mae 82% o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn gallu delio â sefydliadau cyhoeddus yn Gymraeg pe baen nhw'n dymuno hynny. Mae 79% o'r ymatebwyr o'r farn fod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau yn gwella a 74% o ymatebwyr yn cytuno fod sefydliadau cyhoeddus yn gofyn iddynt ym mha iaith y byddent yn hoffi delio â nhw.

Mae 67% o'r ymatebwyr yn cytuno fod gwasanaethau Cymraeg o'r un ansawdd a safon a gwasanaethau Saesneg sefydliadau cyhoeddus, gyda 66% yn cytuno eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg os yw cyrff yn ei gwneud yn glir fod y gwasanaeth ar gael.

Cwyno at sefydliadau yn uniongyrchol

Dim ond 51% o'r ymatebwyr sydd o'r farn fod sefydliadau cyhoeddus yn ei gwneud yn glir iddyn nhw sut mae modd cwyno am wasanaethau Cymraeg. Mae hyn yn gynydd dros amser o ran yr ymatebwyr sydd yn gwybod sut i wneud cwyn yn uniongyrchol at gyrff, er hynny mae'n ffigwr isel.



Fel ddaw i'r amlwg wrth wirio cydymffurfiaeth sefydliadau, nid yw pob sefydliad sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg yn cyhoeddi gweithdrefn gwyno a gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd, ac felly ystyrir fod lle i ganran dda o gyrff cyhoeddus gymryd camau buan i gydymffurfio gyda'u dyletswyddau yn y maes hwn (gweler tudalen 22).

Cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg

Yn flynyddol, mae'r Comisiynydd yn casglu data ac yn monitro perfformiad sefydliadau er mwyn cynnal ei waith rheoleiddio. Prif amcanion y Comisiynydd wrth reoleiddio perfformiad a chydymffurfiaeth sefydliadau yw canolbwyntio ar gydymffurfiaeth, cau bylchau gwybodaeth a gwella sut mae'r Comisiynydd yn darganfod diffygion, hybu hunan-reoleiddio a gweithredu ar ddiffygion.

Os yw'r Comisiynydd yn dod i'r casgliad nad yw'r dystiolaeth sydd wedi'i chasglu'n dangos sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth, bydd yn gweithredu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Arolygon gwirio

Mae swyddogion y Comisiynydd yn cynnal arolygon gwirio uniongyrchol gyda rhai o brif wasanaethau cyrff drwy ymddwyn fel 'siopwr cudd'.

Prif ganlyniadau – gwirio gwasanaethau 2021-2022

GOHEBIAETH	
Gohebiaeth Gymraeg – wedi derbyn ymateb (unrhyw iaith)	73%
Gohebiaeth Saesneg – wedi derbyn ymateb (unrhyw iaith)	62%
Gohebiaeth Gymraeg – wedi derbyn ymateb yn Gymraeg (ble derbyniwyd ymateb o gwbl)	81%
Hybu argaeledd y Gymraeg drwy ddatganiad ar yr ohebiaeth ¹	36%
Y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	17%
GALWADAU FFÔN	
Delio â'r alwad a darparu ateb cyflawn yn Gymraeg	56%
Y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	39%
System awtomeiddio yn darparu gwasanaeth cyflawn yn y Gymraeg	73%
FFURFLENNI	
Ffurflen ar gael yn Gymraeg	68%
Y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	33%
DOGFENNAU	
Dogfen ar gael yn Gymraeg	81%
Y Gymraeg wedi ei thin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	29%
GWEFANNAU	
Tudalennau ar gael yn Gymraeg	84%

¹ Cydymffurfio â safon 7: "Rhaid ichi ddatgan—(a) mewn gohebiaeth, a (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi."

Y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	41%
CYFRYNGAU CYMDEITHASOL	
Y post ar gael yn Gymraeg	83%
Y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	27%
CYHOEDDUSRWYDD A HYSBYSEBU	
Deunydd hysbysebu a fideos ar gael ar y cyfryngau cymdeithasol neu wefannau yn Gymraeg	73%
Y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	35%
HUNANIAETH CORFFORAETHOL	
Defnydd o hunaniaeth corfforaethol y corff – megis logo, enw ayb	81%
Y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	23%
HYSBYSEBION SWYDDI	
Hysbyseb swydd ar gael yn Gymraeg	66%
Y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	50%

Prif ganfyddiadau:

Gwasanaethau ffôn

Mae gwaith arolygu'r Comisiynydd yn dangos fod lefel cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'r gofynion i ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg yn anghyson ac yn annigonol.

Ar gyfartaledd, mae sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg yn **delio â galwadau yn Gymraeg yn ystod hanner yr achosion (56%)**. Nid yw hyn yn rhoi unrhyw sicrwydd i ddefnyddwyr y bydd gwasanaeth Gymraeg ar gael.

Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad cyrff sy'n ddarostyngedig i'r setiau rheoliadau 1 i 7. (Mae rhestr o'r cyrff arolygwyd o fewn pob set o reoliadau i weld yn Atodiad 2).

Gwasanaethau ffôn	Cyfartaledd	Rh. 1	Rh. 2	Rh.4	Rh. 5	Rh. 6	Rh. 7
A ddeliwyd â'r ymholiad yn llawn yn Gymraeg?	56%	60%	84%	90%	42%	29%	30%
A gafodd y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	39%	35%	25%	0%	67%	17%	73%
Cydymffurfio â safon 8 : "Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg."	74%	79%	89%	100%	76%	50%	60%
Cydymffurfio â safon 22: "Rhaid i unrhyw system ffôn	73%	82%	62%	100%	57%	96%	41%


wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg."							
--	--	--	--	--	--	--	--

Fel mae'r tabl yn dangos, mae perfformiad cyrff sy'n ddarostyngedig i reoliadau rhif 6 (sef colegau addysg bellach a Phrifysgolion), a rheoliadau rhif 7 (sef byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r gwasanaeth iechyd) yn is na'r cyfartaledd; **Ilwyddodd cyrff rheoliadau rhif 6 a 7 i ddelio â 30% o'r galwadau yn Gymraeg.**

Mae'r tabl yn dangos fod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ystod bron i 40% o'r galwadau ffôn y gwnaeth staff y Comisiynydd eu cynnal.

Mae perfformiad y cyrff yn gwella pan mae modd sefydlu trefniadau– gyda 73% o'r systemau ffôn wedi eu hawtomeiddio yn cydymffurfio â gofynion safon 22.

Yn gyffredinol, mae'r duedd o ran lefel cydymffurfiaeth cyrff gyda'r dyletswyddau sy'n gosod gofyniad i ddelio â galwadau ffôn yn eu cyfanrwydd yn Gymraeg yn eithaf cyson o amgylch 50% – mae'r graff isod yn dangos y duedd (llinell ddotiog):



Mae'n fater o bryder nad oes cynnydd wedi bod gyda chynnal gwasanaethau ffôn yn y Gymraeg dros y cyfnod diwethaf. Mae'r Comisiynydd o'r farn fod angen i gyrff weithredu er mwyn gweld newid - yn enwedig yn y sectorau addysg bellach ac iechyd. Mae rhaid ystyried newid y trefniadau'n sylfaenol i allu cydymffurfio gan sicrhau fod staff sydd yn medru'r Gymraeg ar gael i ymateb i ymholiadau dros y ffôn. Bydd y Comisiynydd yn agor ymchwiliadau ac yn gorfodi os oes angen lle mae'n dod ar draws amheuan o fethiannau gyda gwasanaethau ffon.

Efallai ei bod hi'n gynamserol i ystyried a gafodd y pandemig Covid 19 effaith ar lefel perfformiad o ran gwasanaethau ffôn. Fodd bynnag, mae adborth anecdotaidd gan sefydliadau yn datgan fod y symud i weithio'n hybrid ac o adref yn gwneud hi'n

anoddach iddynt drefnu'r gweithlu er mwyn sicrhau bod modd ymateb i alwadau yn Gymraeg bob tro.

Ymchwilio a gorfodi: gwasanaethau ffôn

Cynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad yn dilyn derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd am iddo fethu cael gwasanaeth yn Gymraeg drwy ffonio cronfa bensïynau sy'n cael ei gweithredu gan Gyngor Sir. Roedd wedi ffonio rhif ar lythyr y derbyniodd ganddynt. Roedd yr ymchwiliad felly yn ymwneud â rhifau ffôn uniongyrchol - pan fo gofyniad i ddelio â galwadau yn Gymraeg yn eu cyfanrwydd. Dyfarnodd y Comisiynydd bod yna fethiant i gydymffurfio â safon y Gymraeg ar y sail fod y Cyngor heb gynnal galwad ffôn yn Gymraeg gyda'r achwynydd, gan taw'r unig elfen Gymraeg o'r alwad oedd y cyfarchiad. Roedd hwn yn ymchwiliad pwysig gan ei fod yn ymwneud â rhifau ffôn uniongyrchol sydd yn dod yn fwyfwy perthnasol wrth i sefydliadau weithio yn hyblyg. Mae angen i gyrff ystyried sut y mae newidiadau i leoliadau'r gweithlu yn sgil y pandemig yn cael effaith hir dymor ar eu gallu i gydymffurfio gyda dyletswyddau; ac i ystyried felly a oes angen adolygiad o'r trefniadau sydd efallai wedi bod mewn grym ers cyfnod cynllunio cyn y pandemig.

Mae safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswyddau atodol ar gyrff i gefnogi eu cynllunio ac adrodd ar eu perfformiad o safbwynt y safonau cyflenwi gwasanaethau. Mae cyfle felly gan sefydliadau i ail ystyried y trefniadau maent wedi eu cyhoeddi i sicrhau eu bod dal yn galluogi cydymffurfiaeth yn sgil newidiadau i'r gweithlu ac i gynllunio ar gyfer gweithio hybrid.

Gwasanaethau digidol

Mae arolygon y Comisiynydd yn canfod ar draws pob sefydliad a arolygwyd fod 84% o dudalennau gwe a arolygwyd ar gael yn Gymraeg. (Mae'r ystadegyn hwn yn cynrychioli cynnydd o 3% o 81% sef y canlyniad ar ddiwedd 2020). Yn gyffredinol felly, mae defnydd o'r Gymraeg ar wefannau cyrff yn rhoi sicrwydd uchel ac ar y cyfan bod modd i ddefnyddwyr gyrchu gwefannau sefydliadau yn y Gymraeg yn hwylus.

Fodd bynnag, nid yw'r perfformiad yn gyson ar draws pob sector, **gyda dim ond 45% o dudalennau gwe colegau addysg bellach a phrifysgolion (rheoliadau rhif 6) ar gael yn llawn yn Gymraeg.** Mae'r arolygon yn dangos fod tudalennau gwe colegau addysg bellach a phrifysgolion ar gael yn Gymraeg, ond fod defnydd rheolaidd o gyfieithu peirianyddol neu broblemau isadeiledd yn golygu fod triniaeth llai ffafriol o'r Gymraeg na'r Saesneg. Mae hyn yn golygu nad yw'r tudalennau yn cydymffurfio â gofynion y safonau yn llawn.

Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad cyrff rheoliadau rhif 6 o safbwynt yr ystod o safonau sy'n berthnasol i wefannau'r sefydliad. Mae'r tabl yn dangos fod llai na 20% o dudalennau gwe'r sefydliadau yn cydymffurfio gyda sicrwydd uchel.

Mae nifer uchel iawn o'r tudalennau gwe yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol a'r Saesneg, sy'n arwain at gydymffurfiaeth isel iawn gyda safon 55. Mae'r canlyniadau hyn wedi arwain at ymyraethau penodol gan y Comisiynydd gan gynnwys cynnal ymchwiliadau yr adroddir arnynt yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

	Colegau Addysg Bellach	Prifysgolion
A gafodd y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg? Oedd yna ddiffygion o ran hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg?	74%	80%
Cydymffurfio â safon 55 (rh.6) : "Rhaid ichi sicrhau— (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan."	22%	23%
Cydymffurfio â safon 58 (rh.6): "Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg cyfatebol."	67%	60%
Cydymffurfio â safon 59 (rh.6): "Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg."	65%	72%

Ar sail y gwirio'n unig, asesiad o lefel sicrwydd uchel cydymffurfiaeth	20%	19%
---	-----	-----

Bydd y Comisiynydd yn tueddu at agor ymchwiliadau pan fydd yn dod ar draws amheumon o ddiffyg cydymffurfiaeth gan golegau a phrifysgolion gyda golwg ar orfodi gwelliant lle mae angen hynny.

Gwelwyd mai 62% o dudalennau gwe byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau gwasanaethau iechyd (rheoliadau rhif 7) oedd ar gael yn Gymraeg.

Ymchwilio a gorfodi: gwefan bwrdd iechyd

Fe gynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad yn dilyn derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod bwrdd iechyd wedi lansio gwefan gorfforaethol newydd a bod rhan fwyaf o'r tudalennau ar gael yn Saesneg yn unig.

Yn dilyn cynnal ymchwiliad fe ddyfarnodd y Comisiynydd bod y bwrdd iechyd wedi methu â chydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg am nad oedd wedi sicrhau:

- bod pob tudalen ar y wefan ar gael yn Gymraeg;
- bod pob tudalen ar y fersiwn Gymraeg o'r wefan yn gweithredu yn llawn;
- nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r tudalennau ar y wefan.

Er enghraifft, roedd y bwrdd iechyd wedi llunio a chyhoeddi cynnwys o'r newydd yn uniaith Saesneg ac wedi mudo cynnwys oddi ar ei hen wefan heb ei gyfieithu yn gyntaf i'r Gymraeg. Roedd enghreifftiau o gynnwys yn ymddangos ar dudalennau Saesneg oedd yn hollol absennol o'r tudalennau Cymraeg, gyda rhai tudalennau Cymraeg yn cynnwys Cymraeg gwallus neu annealladwy. Roedd y bwrdd iechyd hefyd wedi cyhoeddi tudalennau ar ochr Gymraeg y wefan oedd yn cynnwys dolenni oedd yn arwain at dudalennau neu gynnwys Saesneg yn unig, er roedd rhai ohonynt ar gael yn Gymraeg. Roedd rhai adnoddau ar y wefan fel y peiriant chwilio yn ddiffygiol. Hefyd, gwelwyd bod dolenni ar rai tudalennau Cymraeg wedi torri neu yn arwain at neges wall, a olygodd mewn un achos nad oedd gan ddefnyddwyr y wefan Gymraeg fynediad at ffurflenni pwysig yn ymwneud â gwasanaeth COVID-19 y bwrdd iechyd.

O ganlyniad i ymyrraeth y Comisiynydd, gwelwyd y bwrdd iechyd yn caffael gwasanaethau cwmni cyfieithu allanol i gynyddu ei gapasiti cyfieithu er mwyn sicrhau bod y wefan ar gael yn ddwyieithog. Hefyd, fe gynhaliodd y bwrdd iechyd adolygiad cynhwysfawr o'r wefan i ganfod a chywiro unrhyw gynnwys ar y wefan oedd yn methu â chydymffurfio â'r safonau, gyda'r bwrdd

iechyd yn dyrannu cyllideb i gynnal ymarfer sicrhau ansawdd dros gyfnod parhaus er mwyn sicrhau bod y wefan yn cydymffurfio wrth i'r wefan ddatblygu.

Roedd traweffaith gosod camau gorfodi ar y sefydliad yn sylweddol, gan ei fod wedi ysgogi newid cadarnhaol yn ymddygiad y bwrdd iechyd, a hynny yn dilyn cyfnod estynedig o ddiffyg gweithrediad i sicrhau ei fod yn cyhoeddi ei wefan gorfforaethol yn Gymraeg yn unol â gofynion y safonau (ac ymrwymadau ei gynllun iaith Gymraeg gynt).

Mae gwaith arolygu'r Comisiynydd hefyd wedi dod ar draws problemau a diffygion pan fydd trydydd parti yn cynnal gwasanaethau ar lein ar ran cyrff. Mae nifer o gyrff yn dibynnu ar ddatblygwyr meddalwedd neu isadeiledd allanol i'r corff er mwyn cynnal gwasanaethau ar lein, ac mewn nifer o achosion mae hyn yn arwain at driniaeth lai ffafriol o'r Gymraeg na'r Saesneg, neu nad yw gwasanaethau llawn ar gael yn Gymraeg.

Ymchwilio a gorfodi: gwasanaethau digidol

Cynhaliwyd ymchwiliad gan y Comisiynydd yn dilyn derbyn cwyn am system rhag-archebu ar lein ar gyfer lle parcio cerbyd ym maes parcio parc cenedlaethol. Dyfarnwyd y bu diffyg cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg gan mai yn Saesneg yn unig roedd y tudalennau ar lein rhag-archebu, a gweithredodd y Comisiynydd drwy ofyn i'r parc baratoi cynllun gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth. Roedd rhaid cynnwys ffurflen rhag-archebu Gymraeg, rhyngwyneb a dewislenni i'r tudalennau rhag-archebu a sicrhau bod pob tudalen o'r wefan sy'n ymwneud â'r broses rhag-archebu parcio ar gael yn Gymraeg.

Gwnaeth y parc gychwyn trafodaethau gyda darparwyr gwasanaethau o'r fath ac er i'r cwmnïau ddweud nad oedd yr hyn osodwyd fel rhan o'r cynllun gweithredu ar gamau'r Comisiynydd yn bosib, gwnaeth cwmni preifat newid ei safbwynt cychwynol a chadarnhau bod modd darparu gwasanaeth dwyieithog i rag-archebu lle parcio ym maes parcio yn Gymraeg. Heb yr ymchwiliad statudol a'r camau gorfodi osodwyd gan y Comisiynydd, mae'n annhebygol y byddai cwmni preifat wedi newid ei ymagwedd.

Cyfyngau cymdeithasol

Mae defnydd cyrff o'r Gymraeg ar gyfrifon cymdeithasol yn gwella, gyda 86% o'r cynnwys a arolygwyd ar gyfrifon 'Facebook' a Twitter sefydliadau yn cydymffurfio â gofynion y safonau.

Blwyddyn yr arolwg	Canran o gynnwys cyfryngau cymdeithasol arolygwyd oedd ar gael yn Gymraeg
2021-2022	86%
2020-2021	Dim data ²
2019-2020	74%
2018-2019	63%

Mae defnydd o gyhoeddusrwydd a hysbysebion sefydliadau ar wefannau a chyfryngau cymdeithasol yn cynyddu hefyd, felly yn y flwyddyn hon gwnaeth y Comisiynydd arolygu amlygrwydd defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau gyda'u deunydd hysbysebu a fideos ar y cyfryngau cymdeithasol neu wefannau am y tro cyntaf.

Roedd yr arolygon yn canfod fod 73% o'r cyhoeddusrwydd hyn ar gael yn Gymraeg, a gyda 65% o'r deunydd, nid oedd unrhyw driniaeth lai ffafriol o'r Gymraeg na'r Saesneg.

Fodd bynnag, unwaith eto, cymysg yw'r darlun ar draws sectorau, gyda sefydliadau sy'n ddarostyngedig i reoliadau rhif 7 yn perfformio yn is na'r lleill, gyda dim ond 55% o ddeunydd cyhoeddusrwydd ar lein ar gael yn Gymraeg a gwelwyd triniaeth llai ffafriol o'r Gymraeg na'r Saesneg mewn 70% o'r achosion a arolygwyd.

CYHOEDDUSRWYDD A HYSBYSEBU (e.e. fideos a deunyddiau hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol a gwefannau)	Cyfartaledd	Rh. 1	Rh. 2	Rh.4	Rh. 5	Rh. 6	Rh. 7
Oedd yr enghraifft ar gael yn Gymraeg?	73%	96%	57%	100%	79%	53%	55%
A gafodd y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg? Oedd yna ddiffygion o ran hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg?	35%	13%	44%	0%	28%	44%	70%
Cydymffurfio â safon 37 (rh. 1/6): "Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio cael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg."	64%	90%	55%	100%	74%	47%	30%

² Dim data ar gyfer 2021-2022 oherwydd ymosodiad seibir ar systemau technoleg Comisiynydd y Gymraeg.

Arloesi digidol

Fel y gwnaeth y Comisiynydd adrodd y llynedd, wrth edrych ar effaith y pandemig ar drefniadau cydymffurfiaeth, nodwyd fod nifer o gyrff wedi arloesi ac edrych am gyfleoedd i weithio yn rhithiol mewn ffordd wahanol.

Mae'r astudiaeth achos hon o waith datblygu cynadleddau rhithwyr gan Ofcom yn esiampl o'r arloesi hwn ac mae cyfle gan bob sefydliad i ystyried sut y mae am addasu trefniadau yn y byd gwaith hybrid: [20211224-dg-c-astudiaeth-achos-digwyddiadau-ofcom.pdf](https://www.ofcom.gov.uk/consult/condocs/comisynyddygydraeg/cymru/20211224-dg-c-astudiaeth-achos-digwyddiadau-ofcom.pdf) ([comisiynyddygydraeg.cymru](https://www.ofcom.gov.uk/consult/condocs/comisynyddygydraeg/cymru/))

Gohebiaeth

Roedd arolygon y Comisiynydd yn canfod, pan gafodd gohebiaeth Gymraeg ei hateb gan sefydliadau, roedd yn cael ateb yn Gymraeg yn ystod 81% o'r achosion. (Mae hyn yn ostyngiad o 2019-2020 ble roedd 92% o'r ymatebion yn Gymraeg pan dderbyniwyd ymateb).

Fodd bynnag, nid yw hyn yn adlewyrchu'r gwir brofiad gan ystyried y ffaith mai dim ond mewn 73% o achosion y cafodd yr ohebiaeth ymateb o gwbl.

Felly, o'r holl ohebiaeth Gymraeg a anfonwyd i'r gyrff, dim ond 60% ohonyn nhw dderbyniodd ymateb yn Gymraeg (gan gymryd i ystyriaeth y lefel o ymholiadau na chafodd ateb o gwbl).

Mae'r ffigur hwn yn gyson gyda'r nifer o ymatebion i ohebiaeth Saesneg yn unig a dderbyniodd ymateb gan sefydliadau (62%), ac felly mae problemau cyffredinol o ran gwasanaeth cwsmer i'w gweld yn y ddwy iaith wrth i sefydliadau ymateb i ohebiaeth.

Ffactorau ychwanegol

Mewn 17% o achosion, roedd y Comisiynydd yn canfod fod gohebiaeth Gymraeg gan sefydliadau yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd y lefel hon yn uwch o lawer gan sefydliadau sy'n ddarostyngedig i reoliadau rhif 7 (byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau gwasanaethau iechyd), gyda hanner yr ohebiaeth Gymraeg yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Er mwyn hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, mae safonau'r Gymraeg yn cynnwys gofyniad yn y safonau i sefydliadau:

"Rhaid ichi ddatgan—(a) mewn gohebiaeth, a (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi."

Roedd yr arolygon yn canfod mai dim ond 38% o'r ohebiaeth Gymraeg a dderbyniwyd fel rhan o'r gwaith gwirio yr oedd datganiad o'r fath yn cael ei gynnwys, a dim ond 34% o'r ohebiaeth ymateb yn Saesneg oedd yn cynnwys y datganiad hwn.

Gweithdrefnau cwyno


Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Comisiynydd wedi galw ar sefydliadau i ddatblygu eu trefniadau hunan rheoleiddio – hynny yw, gwella eu gallu i arolygu a chynnal prosesau gwellhad parhaus ar eu lefel cydymffurfiaeth gyda'r safonau heb yr angen am ymyrraeth gan swyddfa'r Comisiynydd.

Mae bod yn ymatebol i ddefnyddwyr drwy baratoi a gweithredu gweithdrefn gwyno uniongyrchol sy'n agored ac yn croesawu adborth yn un ffactor bwysig er mwyn cynnal gweithdrefn hunan rheoleiddio effeithiol.

Dyma'r ddyletswydd berthnasol drwy gyfrwng y safonau:

Rhaid ichi—(a)sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn—(i)sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii)sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, (b)cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac (c)sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

Mae arolygon y Comisiynydd yn dangos, ar y cyfan, nad yw sefydliadau yn cyflawni'r gofyniad hwn yn llawn. Mae nifer o sefydliadau yn cwrdd â rhai o'r gofynion, megis cyhoeddi gweithdrefn gwyno, ond nid ydyn nhw'n cydymffurfio'n llawn – gan amlaf gan nad yw'r weithdrefn yn trafod sut y bydd y corff yn darparu hyfforddiant i'w staff ynghylch delio â chwynion am safonau cyflenwi gwasanaethau yn y Gymraeg (nodir y rhain fel cydymffurfiaeth 'rhannol' yn y tabl isod:)



Mae'r tabl uchod yn dangos fod canran uchel o'r cyrff a enwir ym mhob set o reoliadau safonau'r Gymraeg heb weithdrefn gwyno wedi ei chyhoeddi o gwbl yn unol â gofynion y safonau.

Ystyria'r Comisiynydd nad yw'r lefel isel o gydymffurfio yn dderbyniol, mae'r ddyletswydd wedi bod yn weithredol ers nifer o flynyddoedd ac nid oes cynnydd sylweddol wedi bod yn y maes. Mae'r Comisiynydd wedi casglu data ar gydymffurfiaeth sefydliadau gyda'r gofyniad hwn yn y blynyddoedd diweddar ac wedi rhannu'r canfyddiadau gyda chyrff ac mae rhai sefydliadau wedi ymateb drwy ddatblygu gwell gweithdrefnau. Mae'n anodd i sefydliadau gyfiawnhau peidio cymryd y camau gofynnol - sydd mor elfennol ac yn ymwneud a rhoi gwybod i'r cyhoedd sut i gwyno yn uniongyrchol at y corff. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod peidio â chrosawu adborth ynghylch gwasanaethau Cymraeg yn gyfle coll. Rhaid i sefydliadau fod yn agored ac yn atebol i'w defnyddwyr a heb weithdrefn dda mewn lle nid yw'r corff yn dysgu a datblygu. Mae hyn yn enwedig yn wir yng nghyd-destun y ffaith nad yw'n glir sut mae sefydliadau yn hyfforddi staff sut i ymateb i gwynion.

Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn annog unigolion yn y lle cyntaf i gwyno wrth sefydliadau os nad ydynt yn fodlon gyda gwasanaethau Cymraeg, ond er mwyn gallu gwneud hynny mae angen sicrwydd gan unigolion a gan y Comisiynydd fod gweithdrefn cwyno bwrpasol mewn lle gan y sefydliad i ddelio ag i ymateb i gwynion yn briodol. Mae'r gwaith arolygu fel cyflwynwyd uchod yn golygu nad oes sicrwydd ar hyn o bryd bod gan bob sefydliad weithdrefnau mewn lle all ymateb i gwynion yn ddigonol a all olygu nad oes angen ymyrraeth gan y Comisiynydd drwy ei waith ymchwilio a gorfodi er mwyn datrys cwynion a newid ymddygiad.

Bydd y Comisiynydd yn gohebu gyda phennaeth pob sefydliad nad ydynt yn cydymffurfio gan eu cyfeirio at yr adroddiad hwn a rhoi cyfnod byr iddynt gydymffurfio.

Effaith diffygion gwasanaethau ar ddefnyddwyr y Gymraeg

Mae gwaith rheoleiddio'r Comisiynydd yno i warchod yr hawliau sydd yn cael eu creu gan safonau'r Gymraeg. Wrth fesur perfformiad cyrff, mae hefyd yn bwysig i gofio fod traweffaith ar fywydau bobl yn gallu digwydd pan mae pethau yn mynd o'i le o ran y safonau. Mae'r esiamplau isod yn adlewyrchu bod siaradwyr Cymraeg sydd mewn sefyllfa bregus yn cael eu heffeithio yn negyddol pan nad yw cyrff cyhoeddus yn trin eu dewis iaith gyda pharch ac urddas.

Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd oedd yn ymwneud â honiad o beidio derbyn gwasanaeth gofal cymdeithasol Cymraeg gan Gyngor i'w mam. Roedd yr achwynydd yn ofalwr llawn amser i'w mam, sy'n byw gyda dementia.

Dywedodd yr achwynydd bod y Cyngor wedi gwrthod pan wnaed cais am weithiwr cymdeithasol Cymraeg. Honnodd bod dau aelod o staff wedi dweud nad oedd gweithwyr cymdeithasol Cymraeg eu hiaith ar gael er iddo ofyn yn barhaus am y gwasanaeth. Wedi i'r Cyngor gychwyn darparu gwasanaeth gofal yn y Gymraeg maes o law, honnodd yr achwynydd, gan fod y staff Cymraeg yn gweithio'n rhan amser bod y gwasanaeth Cymraeg a ddarparwyd felly yn araf.

Ni ellir anwybyddu profiad yr achwynydd yn yr achos yma. Mae'r ffaith bod yr achwynydd yn teimlo ei bod hi a'i mam wedi cael anhawster derbyn gofal Cymraeg gan y Cyngor ac yn teimlo bod y gwasanaeth yn israddol pan dderbyniwyd y gwasanaeth yn y Gymraeg. Mae'r ffaith fod yr achwynydd yn teimlo ei bod wedi profi

anhawster wrth geisio cyfathrebu dewis iaith ei mam i'r Cyngor mewn cyfnod sydd yn barod yn anodd ac yn bryderus. Mae rhaid hefyd ystyried traweffaith peidio â derbyn gwasanaethau Cymraeg gan berson bregus sy'n byw efo dementia a'r holl ymchwil sy'n cefnogi fod derbyn gofal yn y dewis iaith yn cael traweffaith sylweddol ar allbynnau'r person ac ansawdd ei bywyd.

Ymwelodd aelod o'r cyhoedd â chanolfan trin canser mewn ysbyty cyffredinol. Ar ddiwedd y sesiwn baratoi ar gyfer derbyn ei driniaeth yn yr ysbyty, fe roddwyd ffurflen gydsynio ddwyieithog amlran iddo er mwyn rhoi ei gydsyniad i'r driniaeth.

Fe benderfynodd gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd yn honni y gwnaeth yr aelod o staff nodi wrtho cyn arwyddo'r ffurflen y dylai arwyddo ar yr ochr Saesneg (yn hytrach na'r ochr Gymraeg). Fe deimlodd bod yr aelod staff wedi rhoi anogaeth glir iddo arwyddo'r ochr Saesneg o'r ffurflen yn groes i'w ddewis iaith. Yn hytrach nag annog neu roi gwybod bod modd cwblhau ac arwyddo fersiwn Gymraeg y ffurflen, bu aelod o staff yn ei annog i gwblhau ac arwyddo ochr Saesneg y ffurflen, drwy fynegi iddo: "Sign on the English side, since we all understand English."

Digwyddodd hyn mewn cyfnod anodd i'r achwynydd pan oedd yn fregus ac yn wynebu triniaeth heriol, a byddai cael ei drin gyda pharch o ran ei ddewis iaith wedi gwneud gwahaniaeth mewn adeg pan oedd dan straen a phwysau sylweddol gan orfod ystyried ffactorau a gwneud penderfyniadau pwysig ynglŷn â'i iechyd. Wrth gwblhau'r ffurflen roedd yn ymdrin â mater personol ac emosiynol, ac felly, er mwyn sicrhau parch ar urddas i'r achwynydd, roedd yn hanfodol i'r Bwrdd Iechyd hwyluso a pharchu ei ddymuniad i ddilyn y broses gydsynio yn llawn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg

Mae nifer o safonau ym mhlith y safonau a osodir ar gyrff yno i hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg neu i amlygu i ddefnyddwyr o'r Gymraeg fod gwasanaethau Cymraeg ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys cyfres o safonau sydd yn ei wneud yn ofynnol i gyrff er esiampl cynnwys datganiad fod gwasanaeth cyfatebol Gymraeg ar gael. Megis datgan ar ffurflenni a dogfennau fod fersiwn cyfatebol Gymraeg ar gael, neu i gynnig yn rhagweithiol i ymgeiswyr swyddi fod modd gofyn am gyfweiliad yn Gymraeg neu fod cyfle i gyflwyno cais am swydd yn y Gymraeg.

Yn gyffredinol fel ag a nodir mewn meysydd penodol uchod, mae cydymffurfiaeth cyrff gyda'r safonau hybu a hyrwyddo yma yn isel.

Er mwyn cynyddu lefel defnydd o'r Gymraeg ac i amlygu argaeledd gwasanaethau Cymraeg mae rhaid i gyrff rhoi sylw i'r safonau hyn a gwella eu cydymffurfiaeth gyda'r safonau yma.

Mae'r tabl isod yn rhoi rhai enghreifftiau o'r safonau dan sylw a'r lefel cydymffurfiaeth ar draws cyrff y rheoliadau amrywiol.

Beth sydd yn amlwg yw bod cyrff wedi datblygu trefniadau da o ran cydymffurfio gyda safon hybu a hyrwyddo ar wefannau ond nad yw'r arfer yna wedi trosglwyddo i wasanaethau eraill. Mae'n dangos ei fod yn bosib cydymffurfio i lefel uchel iawn gyda safon o'r fath ond nid yw cyrff yn gwneud hyn yn gyson ar draws bob gwasanaeth.

	Rh1	Rh2	Rh4	Rh5	Rh6	Rh7
Rhaid ichi ddatgan—(a) mewn gohebiaeth, a (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.	69%	45%	50%	78%	35%	15%
Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.	22%	45%	28%	63%	25%	28%
Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg cyfatebol.	95%	95%	96%	90%	91%	96%
Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno cael cyfweiliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg ac, os yw unigolyn yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal unrhyw gyfweiliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	14%	0%	50%	0%	0%	0%

Cymharu canlyniadau

Nid oes data ar gael ar gyfer y flwyddyn 2020 i 2021 fodd bynnag, mae modd cymharu'r sefyllfa gyfredol gyda'r canlyniadau gwirio uniongyrchol o'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r tabl isod yn dangos ar y cyfan fod perfformiad mewn nifer o feysydd gwasanaeth yn lled sefydlog – fel trafodwyd uchod mae hyn yn wir bennaf o ran gwasanaethau ffôn.

Mae rhai meysydd gwasanaeth ble mae lefel cydymffurfiaeth yn uwch fel trafodwyd uchod - gwefannau ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae lefel uwch o hysbysebu swyddi yn y Gymraeg, ac mae trafodaeth lawn ar hyn yn yr adroddiad hwn.

Mae yna duedd fwy negyddol gydag ymateb i ohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg ac o ran ffurflenni sydd ar gael yn Gymraeg.

	2021-2022	2019-2020	Newid
Gwasanaethau Ffôn	53%	55%	
Delio gyda'r alwad yn y Gymraeg			
Gohebiaeth	81%	92%	
Derbyn ymateb Cymraeg i ohebiaeth Gymraeg (os derbyniwyd ateb)			
Cyfryngau Cymdeithasol	86%	74%	
Post ar Twitter neu Facebook ar gael yn Gymraeg			
Gwefannau	84%	81%	
Tudalennau gwe ar gael yn Gymraeg			
Hysbysebion Swyddi	66%	47%	
Hysbyseb swydd ar gael yn Gymraeg			
Ffurflenni	69%	78%	
Ffurflen ar gael yn Gymraeg			
Hunaniaeth corfforaethol	83%	88%	
Defnydd o hunaniaeth corfforaethol megis logos ar-lein neu ar ddogfennau ac ati			

Ffocws ar gydymffurfiaeth gyda'r safonau llunio polisi

Ym Medi 2020 cyhoeddodd y Comisiynydd ddogfen gyngor yn cynnig arweiniad ar weithrediad y safonau llunio polisi a osodir ar gyrrff sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg:

[Safonau Llunio Polisi: Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#)

Roedd y ddogfen gyngor yn ymateb i wendidau nodwyd gyda threfniadau nifer o gyrrff wrth weithredu'r safonau hyn.

Yn dilyn cyhoeddi'r ddogfen, cynhaliodd y Comisiynydd nifer o ddigwyddiadau er mwyn gwella dealltwriaeth sefydliadau o ofynion y safonau hyn. Roedd pwyslais ar weithredu'r safonau llunio polisi yn effeithiol a'r pwysigrwydd o sefydlu trefniadau mewnol cadarn sy'n galluogi pawb sy'n gyfrifol o fewn cyrrff am gymryd penderfyniadau polisi i gydymffurfio â gofynion y safonau allweddol hyn er mwyn symud yr agenda yma yn ei flaen.

Hunan asesiad o lefel cydymffurfiaeth

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae sefydliadau wedi bod yn adrodd ar eu hunan asesiad o'u perfformiad gyda'r safonau llunio polisi.

Mae sefydliadau ar y cyfan yn adrodd yn eu hunan asesiadau eu bod yn diwallu gofynion y grŵp safonau - '*safonau ynghylch ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan gorff ar y Gymraeg*'. Mae'r safonau hyn yn gofyn i sefydliadau sicrhau eu bod yn ystyried cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio polisi. Mae'r safonau hefyd yn gofyn fod cyrrff yn ystyried cyfleoedd i wneud eu penderfyniadau polisi yn llai andwyol o ran y Gymraeg ac yn fwy positif yng nghyd-destun cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Roedd 75% o'r cyrrff wnaeth adrodd (sef 71 corff) ar eu cydymffurfiaeth â'r safonau hyn yn datgan eu bod yn cydymffurfio gyda sicrwydd 'uchel' a dim ond 1.5% oedd o'r farn nad oeddynt yn cydymffurfio yn ddigonol.

Roedd yr un lefel o gydymffurfiaeth 'uchel' yn cael ei adrodd o ran y safonau sy'n gosod gofynion o ran dogfennau ymgynghori.

Fodd bynnag, er gwaethaf y ffigwr uchel o sicrwydd a adroddwyd yn yr hunan asesiad, nid yw profiad y Comisiynydd yn cefnogi'r safbwynt hwnnw. Mae ymyrraeth y Comisiynydd yn sgil cwynion neu geisiadau am dystiolaeth, fel arfer yn darganfod nad yw trefniadau cyrrff yn cael ei dilyn bob tro ac mae yna ansicrwydd yn parhau ynghylch pryd mae'r safonau yn gymwys - hynny yw, pryd y mae penderfyniad cynhelir gan sefydliad yn destun i'r safonau gan ei fod yn 'benderfyniad polisi'.

Mae hefyd yn wir i nodi fod cynnydd yn lefel cydymffurfiaeth cyrrff gyda'r safonau llunio polisi yn dod yn sgil ymyrraethau'r Comisiynydd yn dilyn ymchwiliadau, ac mae gwella trefniadau a chanllawiau sefydliadau gyda'r safonau llunio polisi wedi bod yn destun gwaith gorfodi gan y Comisiynydd.

Mae'n bwysig bod bob sefydliad sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg yn deall eu cyfrifoldebau ac yn sicrhau ei bod yn datblygu prosesau penderfynu sy'n sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r safonau llunio polisi gan fod oblygiadau wrth beidio â chydymffurfio â'r gofynion.

Achos Tribiwnlys y Gymraeg

Mae arweiniad wedi ei roi gan Dribiwnlys y Gymraeg (Y Tribiwnlys) yn y cyd-destun dehongli beth olygir gan 'benderfyniad polisi' yn ddiweddar yn achos *Cyngor Abertawe v Comisiynydd y Gymraeg (TyG/WLT/21/01)*.

Mae'r penderfyniad yn un arwyddocaol am ei fod yn rhoi eglurder ar y dehongliad o'r term "*penderfyniad polisi*" fel y mae'r term hwnnw'n cael ei ddefnyddio ym Mesur y Gymraeg a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg.

Cefndir yr achos

Yn dilyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd, cynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad i'r ffordd y gwnaeth Cyngor Abertawe ei benderfyniad nad oedd angen adeilad Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre fel adnodd cyhoeddus yn dilyn ei chau fel ysgol, ac na aseswyd effaith y penderfyniad a ddaeth yn sgil hynny, sef i drosglwyddo ased cymunedol i'r sector breifat, ar yr iaith Gymraeg.

Arweiniodd yr ymchwiliad hwn at ddyfarniad bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safonau 88, 89 a 90 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 1) gan iddo fethu ag ystyried effaith y penderfyniad polisi newydd hwn ar y Gymraeg.

Apeliodd y Cyngor yn erbyn y dyfarniad i Dribiwnlys y Gymraeg gan ddadlau nad oedd penderfyniad polisi newydd wedi ei wneud ond yn hytrach, mai penderfyniad gweithredol a wnaed yn unol â'r Cynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

Penderfyniad a dehongliad y Tribiwnlys

Gwrthododd y Tribiwnlys apêl y Cyngor, a chadarnhaodd dyfarniad y Comisiynydd bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safonau 88, 89 a 90. Prif seiliau'r penderfyniad oedd:

- Bod y term "penderfyniad polisi" yn golygu mwy na dogfen bolisi ysgrifenedig, a gall gynnwys penderfyniadau a wneir ynghylch arfer swyddogaethau sefydliad;
- Bod y diffiniad ym Mesur y Gymraeg a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg felly i'w dehongli'n ehangach na'r defnydd cyffredin o'r gair "polisi" a ddefnyddir yn aml mewn trafodaeth gyffredin i olygu dogfen ysgrifenedig;
- Golyga hyn nad penderfyniad ynghylch sut i wneud penderfyniad yn unig yw penderfyniad polisi, ond y gall gynnwys y penderfyniad ei hun sy'n ymwneud â chynnal busnes corff. Gallai hefyd gyfeirio at gynnal ei fusnes e.e. cau ysgol, lleoli adeilad cymunedol, symud neu ailstrwythuro gwasanaeth, cael gwared ar ased cymunedol.

- Mae'r lefel y gwneir penderfyniadau arni, strategol neu weithredol, yn berthnasol. Roedd y penderfyniad hwn yn cynnwys penderfyniad gan swyddogion ac aelodau lefel uchel y Cyngor. Nid oedd yn benderfyniad arferol y gallai swyddogion y Cyngor ei wneud ar ben eu hunain, ac felly nid oedd yn benderfyniad gweithredol.
- Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn datgan mai "ystyr *"penderfyniad polisi"* yw *unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau neu gynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall...."*. Roedd y penderfyniad i drosglwyddo'r ysgol o fod yn ased cyhoeddus sy'n eiddo i'r Cyngor i fod yn eiddo i'r sector preifat, yn benderfyniad ynghylch cynnal busnes y Cyngor ac felly roedd gofyniad i gydymffurfio â safonau 88, 89 a 90.

Mae dyfarniad llawn y Tribiwnlys i'w weld ar wefan Tribiwnlys y Gymraeg:

[TYG/WLT/21/01: Cyngor Dinas a Sir Abertawe | Welsh Language Tribunal \(llyw.cymru\)](#)

Dyfarnu grantiau a chymorth ariannol

Mae cydymffurfiaeth cyrff gyda'r safon llunio polisi sy'n gosod gofyniad i lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol, gyda gofyniad i'r polisi hwnnw ystyried materion o effeithiau ar y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau ar grantiau; yn isel.

Er enghraifft, dim ond 50% o'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r safon yma o fewn y set cyrff a enwir yn Rheoliadau rhif 6 (sef colegau addysg bellach a phrifysgolion) sy'n cydymffurfio â'r gofyniad i lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau a chymorth ariannol yn unol â gofyniad y safon berthnasol.

Yn ogystal, 25% yn unig o'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r safon yma o fewn Rheoliadau rhif 2 (cyrff cenedlaethol Cymru) sy'n cydymffurfio â'r gofyniad i lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau sy'n ystyried effeithiau ar y Gymraeg yn unol â gofyniad y safon berthnasol.

Mae'n destun pryder hefyd fod 32% o'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r safon hyn o dan Reoliadau rhif 1 (sef awdurdodau lleol, Gweinidogion Cymru a'r parciau cenedlaethol) yn parhau i beidio cydymffurfio â gofyniad y safon i lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau er eu bod yn ddarostyngedig i'r safon ers 2017.

Ymchwilio a gorfodi safonau llunio polisi:

Mae'r Comisiynydd yn derbyn cwynion gan aelodau o'r cyhoedd ynghylch penderfyniadau polisi gwnaed gan gyrff, ble mae amheuaeth nad yw gwir effaith y penderfyniad ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu ystyriaethau am beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wedi ei ystyried yn ddigonol.

Mae nifer o'r cwynion ac ymchwiliadau ystyriwyd gan y Comisiynydd yn ymwneud â phenderfyniadau awdurdodau lleol wrth ymdrin ag ysgolion, ac mae peth cynsail wedi eu gosod bellach gan y Comisiynydd yn y maes hwn (gweler cofrestr camau

gorfodi ar wefan y Comisiynydd: [Cofrestr Camau Gorfodi \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](http://Cofrestr_Camau_Gorfodi_comisiynyddygyymraeg.cymru)).

Mae'r achosion ym maes addysg yn adlewyrchu ar anawsterau mae rhai awdurdodau yn adnabod wrth ystyried yr angen i gynnal asesiadau effaith ar y Gymraeg dan gyfundrefnau gwahanol, sy'n cwrdd â gofynion rheoliadau gwahanol. Mae'r Comisiynydd yn glir fodd bynnag, fod dyletswyddau statudol corff fel y amlygir o dan safonau'r Gymraeg yn glir ac mae angen eu diwallu, hyd yn oed os oes gofyniad o dan reoliadau gwahanol am asesiadau ar effaith ar y Gymraeg am resymau gwahanol. Mae'r gofyniad i gydymffurfio â safonau llunio polisi yn rhai statudol, ar wahân, a phwysig i'w diwallu yng nghyd-destun pob penderfyniad polisi.

Ymchwilio a gorfodi: Safonau llunio polisi

Cynhaliwyd ymchwiliad yn ymwneud ag ymgynghoriad ar ad-drefnu addysg Saesneg; er mai ymgynghoriad gan y Cyngor ar ehangu'r ddarpariaeth addysg Saesneg oedd hwn, cyflwynwyd cwyn i'r Comisiynydd am nad ystyriwyd yr effaith bosib ar y Gymraeg gan y Cyngor wrth ymgynghori ar ei chynlluniau. Cadarnhaodd y Cyngor bod yr ymgynghoriad yn ddiffygiol gan nad ystyriwyd y Gymraeg a'r effaith ar y Gymraeg o fewn yr ymgynghoriad gwreiddiol. Dyfarnwyd na fu cydymffurfiaeth gyda safon llunio polisi a gosodwyd camau gorfodi i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r safonau hyn o fewn tri mis. Mi wnaeth y Cyngor dderbyn sylwadau'r Comisiynydd yn llawn gan gyflwyno dogfennau ymgynghori newydd ar bob penderfyniad polisi oedd yn ystyried y Gymraeg a'r effaith ar y Gymraeg fel sydd yn ofynnol. Yn ogystal, mi wnaeth yr ymchwiliad gynnig cyfle i'r Cyngor newid ei gweithdrefn ar safonau llunio polisi o fewn y sir a mabwysiadwyd gweithdrefn newydd gan y Cyngor ynghyd â dogfennau newydd wrth ymgynghori ar unrhyw fater o bolisi a materion sydd yn ymwneud â'r Gymraeg.

Gwaith strategol gyda'r safonau llunio polisi

Mae'r Comisiynydd o'r farn fod effaith y safonau llunio polisi yn eang ac yn debyg o gael traweffaith sylweddol ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y dyfodol; ac felly mae'n allweddol bod gofynion y safon yn cael eu gweithredu a'u diwallu yn llawn.

Pan nad yw effaith penderfyniad polisi ar y Gymraeg yn cael ei asesu yn ystyrlon, mae effaith ar ddefnyddwyr y Gymraeg yn gallu fod yn drawiadol ac yn hir dymor. Mae'r penderfyniadau a wnaed gan gyrff cyhoeddus yn gallu cael effaith sylweddol ar allu unigolion i fyw eu bywyd yn Gymraeg, nid yn unig o fewn meysydd statudol megis yn yr ysgol neu gyda gwasanaethau, ond hefyd yn gymdeithasol. Mae'r safonau llunio polisi yno i gefnogi sefydliadau i feddwl yn ofalus am y traweffaith posib hwn ac yn cefnogi cyrff i gynllunio ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn

ymarferol ac i hybu a hwyluso cymdeithas ble nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.

Mae angen i sefydliadau ystyried ymhellach y lefel o hyfforddiant sydd wedi ei roi i staff ar sut i gynnal asesiadau ac ystyried effeithiau posib ar y Gymraeg yn sgil penderfyniadau polisi. Mae adborth cyrff a gwaith ymchwilio a gorfodi'r Comisiynydd yn arwain at ganfyddiad fod angen mwy o fuddsoddiad a gwella sgiliau pobl sy'n gyfrifol am ystyried effaith posib penderfyniadau ar y Gymraeg ar bob lefel. Yn aml, mae'r asesiadau effaith y mae sefydliadau yn eu cwblhau yn arwynebol, ac nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth yn ddigonol yr ystod posib o effeithiau all fod ar y Gymraeg yn sgil penderfyniad. Mae angen buddsoddiad sylweddol mewn sgiliau swyddogion ac uwch swyddogion cyrff er mwyn eu galluogi i gynllunio ymatebion strategol sy'n galluogi cynnydd yn y maes hwn.

Mae cefnogi cydymffurfiaeth gyda'r safonau hyn felly yn parhau yn amcan strategol pwysig i'r Comisiynydd. I'r perwyl hwn felly mae'r Comisiynydd yn bwriadu cynnal gweithdai gyda sefydliadau unigol i godi lefelau dealltwriaeth o ofynion y safonau llunio polisi ynghyd â chynnal gweithdai ar feysydd polisi penodol.

Ffocws ar gydymffurfiaeth wrth hysbysebu swyddi a phrosesau recriwtio

Cefndir

Yn adroddiad sicrwydd 2018 i 2019: “Hawlio Cyfleoedd” bu i'r Comisiynydd ddatgan:

“Mae profiad defnyddwyr yn ddibynnol ar sefydliadau'n cael digon o staff sy'n siarad Cymraeg, a bod y staff hynny yn y rolau cywir”.

Rhoddyd nifer o argymhellion i sefydliadau i geisio gwella ar eu trefniadau ar gyfer recriwtio a hysbysebu swyddi yn yr adroddiad sicrwydd hwnnw, yn ogystal â chynghor ar ddarparu hyfforddiant, er mwyn gallu gwella effeithlonrwydd y gweithle yn gyffredinol wrth gydymffurfio gyda holl safonau'r Gymraeg. Argymhellwyd fod sefydliadau yn gwneud gwaith yn y meysydd canlynol er mwyn gweld cynnydd yn dilyn canlyniadau gwael o ran cydymffurfiaeth yn y flwyddyn honno:

- adnabod sgiliau'r gweithlu presennol
- gwella sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol
- cynnal asesiad ystyrlon o anghenion iaith pobswydd wag
- denu siaradwyr Cymraeg i weithio i'r sefydliad
- arloesi er mwyn rheoli'r galw am staff
- hyfforddi a dyrannu staff yn effeithiol

Y sefyllfa gyfredol

Mae'r Comisiynydd yn parhau o'r farn nad oes newid sylfaenol wedi digwydd wrth gynllunio a gweithredu yn y maes recriwtio, asesu sgiliau Cymraeg a datblygu sgiliau'r gweithle er mwyn gwella lefelau cydymffurfiaeth sefydliadau gydag ystod safonau'r Gymraeg yn gyffredinol.

Mae cydymffurfiaeth sefydliadau gyda safonau sy'n ddibynnol ar allu aelodau staff i ymateb yn Gymraeg - megis wrth ddelio â galwadau ffôn, yn is nag ydy gyda safonau ble mae modd dibynnu ar gyfieithu neu baratoi o flaen llaw.

Heb fod staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael i ddarparu gwasanaethau yn atebol, nid yw cydymffurfiaeth gyda'r safonau yma yn mynd i wella.

Mae'n rhaid felly i sefydliadau ystyried o ddechrau'r broses recriwtio pa sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer swyddi ac yna dilyn asesiad ystyrlon, datblygu hysbysebion a pheynnau recriwtio sy'n hyrwyddo'r angen am sgiliau Cymraeg yn glir ac yn denu siaradwyr i'r rolau hyn drwy hybu'r Gymraeg drwy gydol y broses recriwtio.

Mae hefyd angen gwella'r ymrwymiad i ddatblygu'r sgiliau sydd gan y gweithlu presennol, drwy adnabod staff sydd efo sgiliau iaith ond nid yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial neu ble mae angen datblygu hyder unigolion i ddefnyddio eu Cymraeg gydag eraill.

Ffocws strategol

I'r perwyl hwn, dros gyfnod cynllun strategol nesaf y Comisiynydd, bydd ffocws pellach ar wella perfformiad o ran asesu sgiliau a gwella ansawdd prosesau recriwtio er mwyn gweld cynnydd wrth gael sgiliau Cymraeg o fewn gweithle cyrff sy'n

ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg.

Bydd y Comisiynydd felly yn cymryd camau ac yn rheoleiddio'r maes strategol pwysig hwn wrth iddo ddod ar draws methiannau. Mae rhybudd yma i gyrff cyhoeddus ystyried a yw eu trefniadau yn ddigonol ym maes recriwtio, datblygu sgiliau'r gweithle ac asesu angen am sgiliau Gymraeg mewn rolau allweddol. Bydd y Comisiynydd yn agor ymchwiliadau ac yn gorfodi newid yn y maes hwn ble mae diffygion yn parhau.

Mae safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer swyddi gwag a newydd ac i gadw copi o'r asesiadau hynny. Bydd y Comisiynydd yn comisiynu gwerthusiad annibynnol o sut mae sefydliadau yn asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg a sut mae hynny'n cyfrannu at eu llwyddiant i recriwtio staff sy'n medru'r Gymraeg. Y gobaith yw y bydd canfyddiadau'r ymchwil hwn yn gyfle i sefydlu gwaelodlin a throsolwg o'r sefyllfa bresennol er mwyn llywio gwaith pellach yn y dyfodol.

Mae'r Comisiynydd hefyd yn gweld y berthynas sydd rhwng defnyddio'r Gymraeg yn fewnol o fewn cyrff gyda gwella sgiliau a hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Bydd felly hefyd yn canolbwyntio ar ystyried sut mae sefydliadu yn datblygu polisïau defnydd mewnlol o'r Gymraeg er mwyn annog a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith.


Mae arfer llwyddiannus wedi dod i'r amlwg yn y maes hwn yn ystod y flwyddyn a bydd modd adeiladu ar hyn dros y blynnyddoedd nesaf. Mae'r arfer yn dangos dulliau hawdd a syml gall cyrff fabwysiadu i gynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn gweithle.

[annog-defnydd-or-gymraeg-yn-y-gweithle.pdf \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#)

Hysbysebu swyddi yn Gymraeg

Mae'r Comisiynydd yn flynyddol yn gwirio hysbysebion swyddi gwnaed gan sefydliadau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg.


Yn 2021-22 nodwyd fod 66% o'r hysbysebion swyddi arolygwyd wedi eu cyhoeddi yn Gymraeg, mae hyn yn dangos cynnydd ers yr adroddiad sicrwydd uchod gael ei gyhoeddi yn 2019. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gynnydd digonol gan ystyried y gofynion fod bob hysbyseb perthnasol yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg.



*dim data ar gyfer 2021

Sefyllfa sectorol

Fodd bynnag mae'r darlun yn gymysg ar draws sectorau, gyda sicrwydd y bydd sefydliadau yn cyhoeddi hysbysebion yn Gymraeg yn amrywio:



Er ei bod yn anodd gwneud cysylltiadau uniongyrchol rhwng y perfformiad a welwyd yma o ran hysbysebu swyddi a chydymffurfiaeth cyrff yn fwy cyffredinol gyda'r safonau cyflenwi gwasanaethau a'r safonau gweithredu, mae'n glir fod yna gydberthynas rhwng y cyrff sy'n perfformio'n wael ar draws y categorïau hyn o safonau a'r cyrff sydd heb drefniadau hysbysebu a recriwtio digonol i ddiwallu gofynion y safonau.

Mae'r arolygon yn dangos fod cyrff sy'n ddarostyngedig i reoliadau safonau'r Gymraeg rhif 7 (sef Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol); **yn cyhoeddi dim ond 24% o'u hysbysebion swyddi yn Gymraeg.**

Mae problemau gyda systemau a meddalwedd wedi achosi methiannau i

gydymffurfio yn achos rhai cyrff sy'n ddarostyngedig i reoliadau safonau'r Gymraeg rhif 6 - sef colegau addysg bellach a phrifysgolion. Bu i ganfyddiadau arolygon y Comisiynydd o fewn y sector yma arwain at ymyraethau er mwyn gweld gwella a chynnydd yn sgil nodi nad oedd defnydd o systemau ar-lein yn cefnogi cydymffurfiaeth.

Ymchwilio a Gorfodi ym maes sgiliau a recriwtio:

Cynhaliwyd y Comisiynydd ymchwiliad o dan adran 71 y Mesur yn dilyn nodi ar ôl gwaith monitro ac arolygon safonol fod diffyg cydymffurfio â safonau'r Gymraeg o ran gofynion recriwtio gan ddau sefydliad addysg bellach drwy ddefnydd o feddalwedd a phhecyn recriwtio ar lein. Roedd y feddalwedd dim ond yn galluogi ymgeisio am swyddi gyda'r sefydliadau drwy gyfrwng y Saesneg wrth gyflwyno gwybodaeth gychwynnol a chreu cyfrif ar y wefan ymgeisio am swyddi. Roedd hysbysebion swyddi hefyd yn cynnwys ymadroddion Saesneg yn unig at yr hysbysebion Cymraeg.

Roedd y sefydliadau yn cydnabod nad oeddynt yn cydymffurfio gyda'r dyletswyddau gweithredu penodol sydd yn gofyn am ffurflenni cais yn swyddi i fod ar gael yn Gymraeg yn ogystal â dyletswyddau ynghylch gwybodaeth am swyddi i fod ar gael yn Gymraeg. Eglurwyd bod hynny o ganlyniad i ddata a thestun oedd yn cael ei dynnu'n uniongyrchol trwy system darparwyd gan drydydd parti.

Dyfarnodd y Comisiynydd fod methiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg o ran y ffurflen gais, a bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan fod y dudalen gychwynnol i ymgeisio am swyddi dim ond ar gael yn Saesneg.

Dyfarnwyd hefyd bod methiant i gydymffurfio o ran hysbysebu swyddi gan nad oedd pob elfen ar gael yn Gymraeg a bod geirfa Saesneg yn unig wedi eu cynnwys mewn hysbysiadau am swydd yn Gymraeg.

Mae'r ymchwiliadau uchod yn dangos yr angen i sefydliadau sicrhau bod trefniadau digonol mewn lle o ran y Gymraeg ar gyfer systemau amrywiol a ddefnyddir ganddynt, gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir trwy drydydd parti, neu drwy broses gaffael.

Mae'r egwyddor a sefydlwyd ym Mesur y Gymraeg na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yr un mor berthnasol i wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan sefydliadau cyhoeddus â'r rheini a ddarperir drwy gontract.

Mae'n bosib bod y systemau hynny wedi bod mewn lle ers cyfnod hir gan y sefydliad, ac yn wir cyn dyfodiad y

safonau. Ond mae'r gofynion yn parhau o ran y safonau. Mae'n hanfodol bod trafodaethau o ran y Gymraeg yn digwydd cyn gynted â phosib wrth osod systemau newydd.

Mae gwybodaeth ddefnyddiol yn nogfen gyngor y Comisiynydd [Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus: Ystyried y Gymraeg](#) ar sut y gellir sicrhau bod gofynion y safonau yn cael eu hystyried wrth gaffael gwasanaethau. Mae'r ddogfen hefyd yn trafod yr angen i adolygu trefniadau gyda darparwyr o ran y Gymraeg er enghraifft ble mae cytundeb hir dymor i ddarparu ar gyfer y sefydliad.

Mae'r cyngor yn ystyried y dull y dylid ei ddefnyddio er mwyn cynnwys, gweithredu a monitro'r rhwymedigaethau hynny'n effeithiol drwy gydol proses dendro a thrwy oes y contract sy'n dilyn o'r broses honno.

Gofynion wrth recriwtio

Er bod cynnydd wedi bod mewn swyddi sy'n cael eu hysbysebu gan gyrrff yn y Gymraeg, nid yw'n dilyn bob tro fod y dogfennau cefnogol ar gyfer y swyddi hefyd ar gael yn Gymraeg (dim ond 9/10 hysbyseb Cymraeg sy'n cynnwys dogfennau atodol cywir yn Gymraeg) na bod y Gymraeg yn cael ei hybu a hwyluso ymhellach yn ystod y broses recriwtio.

Canfyddiad yr arolygon gan swyddogion y Comisiynydd yw bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hysbysebu swyddi mewn 50% o'r achosion arolygydd.

Dim ond 36% o'r hysbysebion swyddi arolygydd oedd yn cynnwys datganiad fod modd gwneud cais am swydd yn Gymraeg .

Mae'r arolygon hefyd yn dangos nad oes cydymffurfiaeth ddigonol gyda'r safon sy'n gosod y gofyniad:

“Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid ichi ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.”

Mae'r safon hon yn un bwysig er mwyn hybu dealltwriaeth pobl bod modd gwened ceisiadau yn Gymraeg ac i roi sicrwydd iddynt na fydd cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg yn effeithio ar y proses recriwtio.

Mae hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn ystod y broses recriwtio yn holl bwysig er mwyn sefydlu bod y sefydliad yn croesawu defnydd o'r Gymraeg ac yn weithle ble mae yna ddefnydd naturiol o'r Gymraeg. Er mwyn denu siaradwyr Cymraeg mae'n rhaid i sefydliadau sicrhau eu bod yn ei gwneud yn amlwg fod y Gymraeg yn cael defnydd yng ngweithrediad y sefydliad.

Dim ond 7% o'r hysbysebion swyddi arolygwyd oedd yn cynnwys ffurflen gais ble roedd modd i ymgeiswyr nodi dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae hefyd yn ofyniad i gyrff hwyluso defnydd o'r Gymraeg mewn cyfweiliadau, drwy ofyn yn rhagweithiol i ymgeiswyr os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg:


“Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno cael cyfweiliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg ac, os yw unigolyn yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal unrhyw gyfweiliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol)”.

Yn gyffredinol, mae'r gwaith arolygu gynhaliwyd gan swyddogion y Comisiynydd gyda gofynion y safonau sy'n gysylltiedig â recriwtio yn canfod mai dim ond **10% o'r hysbysebion a phrosesau recriwtio sydd yn rhoi sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth.**

Asesu'r angen am sgiliau Gymraeg

Mae safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswyddau gweithredol clir ar sefydliadau wrth iddynt recriwtio swyddi newydd neu wag, bod rhaid iddynt asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ac yna mynd ymlaen i gategoreiddio'r swyddi hynny fel rhai ble mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd, bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol neu nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

O'r hysbysebion swyddi a ddadansoddwyd eleni, dyma sut cafodd y categori o'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ei nodi wrth hysbysebu:



Fel y gwelir o'r tabl uchod, methodd mewn 61% o'r hysbysebion arolygwyd â chrybwyll pa lefel sgiliau sydd ei angen ar y swydd, neu nid oedd hynny wedi'i nodi'n briodol.

Mae'r ffaith bod hanner y sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn methu cydymffurfio gyda'r gofynion i ddatgan yn glir y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen i gyflawni swydd yn bryder gan fod methu cymryd y cyfle i ddadansoddi anghenion iaith ar gyfer swydd yn arwain at risg o fethu gallu diwallu gofynion safonau cyflenwi gwasanaeth. Mae diffyg asesu a chynllunio i'r dyfodol yn debyg o gael effaith hir dymor ar allu corff i wneud i gwrdd â dyletswyddau iaith ac i gwrdd â dymuniadau defnyddwyr.

Mae hyn yn elfen o'r gwaith recriwtio sydd angen sylw ar frys gan sefydliadau er mwyn iddynt allu gwella ar eu gallu i gynllunio'r gweithle ac i ddosbarthu sgiliau Cymraeg staff i'r llefydd all gael effaith.

Mae cael gweithlu gyda sgiliau Cymraeg digonol sydd wedi ei dosbarthu yn strategol ar draws swyddogaethau'r sefydliad yn hanfodol ar gyfer llwyddiant wrth ddiwallu gofynion safonau'r Gymraeg.

Mae'r Comisiynydd wedi datblygu dogfen gyngor cynhwysfawr [Recriwtio \(comisiynyddygydraeg.cymru\)](https://www.comisiynyddygydraeg.cymru) ac mae angen i sefydliadau gymryd sylw o'i gynnwys fel mater o frys.

Ymchwilio a gorfodi ym maes asesu'r angen am sgiliau Gymraeg

Cynhaliwyd ymchwiliad gan y Comisiynydd i fethiant honedig corff i gynnal asesiad ystyrlon o ofynion y Gymraeg i swydd lefel tîm rheoli. Er i'r corff gynnal asesiad, casglodd y Comisiynydd nad oedd yr asesiad hwnnw wedi bod yn ddigonol i sicrhau bod ystyriaeth lawn wedi ei roi i'r holl ffactorau allweddol, megis cyfrifoldebau'r swydd, ymwneud â'r cyhoedd a chyrrff cyhoeddus yng Nghymru a chapasiti ieithyddol o fewn y tîm rheoli. Yn ogystal, dyfarnwyd bod y corff wedi methu â chydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg am iddo fethu â chategoreiddio'r swydd yn unol â'r categorïau sydd wedi eu rhestru yng ngeiriad y safon. Yn sgil y dyfarniad o fethiant, gwnaeth y Comisiynydd yn ofynnol i'r corff gynnal adolygiad llawn o'i broses ar gyfer cynnal asesiad o anghenion ieithyddol swyddi a diwygio ei dempled ar gyfer cynnal yr asesiad hwnnw.

Cydymffurfiaeth â dyletswyddau cynlluniau iaith

Cefndir

Er gwaetha'r ffaith fod 124 o sefydliadau cyhoeddus bellach yn gweithredu safonau'r Gymraeg, mae nifer fawr yn parhau i weithredu cynlluniau iaith Gymraeg. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am reoleiddio cydymffurfiaeth gyda'r ddwy gyfundrefn.

Mae cynllun iaith yn nodi sut y bydd sefydliad yn rhoi effaith, cyn belled ag y bo'n briodol yn yr amgylchiadau, ac yn rhesymol ymarferol, i'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, sef - wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal.

O ganlyniad i'r gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, mae nifer o'r sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith yn cael effaith sylweddol ar gyfleoedd pobl yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd, ac felly mae perfformiad a chydymffurfiaeth y cyrff yma gyda'u dyletswyddau iaith yn parhau yn allweddol bwysig, ac yn ganolog i waith y Comisiynydd.

Dadansoddiad o'r perfformiad

Ar y cyfan, mae perfformiad cyrff sy'n gweithredu cynlluniau iaith yn siomedig, ac mae'n fater o bryder fod nifer o gyrff yn methu â darparu gwasanaethau craidd megis ateb gohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg, ateb y ffôn yn Gymraeg neu sicrhau fod cynnwys tudalennau ar wefannau ar gael yn Gymraeg o gwbl. Mae hyn er gwaetha'r ffaith fod nifer fawr o'r sefydliadau dan sylw wedi bod yn gweithredu cynlluniau iaith ers blynyddoedd lawer.

Mae perfformiad gwael rhai sefydliadau yn golygu, ar gyfartaledd, bod lefel cydymffurfiaeth gydag ymrwymadau cynlluniau iaith yn isel ac nad yw'n cynnig unrhyw sicrwydd i'r cyhoedd yng Nghymru y bydd gwasanaethau o safon a gwasanaeth dibynadwy ar gael gan y sefydliadau hyn.

Rhaid cydnabod fodd bynnag, bod y darlun yn gymysg, a bod rhai o'r cyrff arolygwyd yn cynnal gwasanaethau o safon uchel ac a lefel cydymffurfiaeth dda.

Canfyddiad y Comisiynydd yw bod cyrff sy'n buddsoddi adnoddau ac yn sicrhau arweiniad clir, gyda chyfrifoldebau dros gydymffurfio gyda dyletswyddau wedi eu rhoi i unigolion neu dîm o fewn y sefydliad, yn perfformio llawer gwell na chyrff pan fo'r cyfrifoldeb wedi ei gynnwys o fewn swyddogaethau cyffredinol. Mae'n gynyddol amlwg, os nad oes cyfrifoldeb ar lefel uchel o fewn corff am sicrhau cydymffurfiaeth gyda dyletswyddau o ran y Gymraeg, mae'n annhebygol y bydd y corff yn perfformio'n dda o ran cynnal gwasanaethau Cymraeg o safon neu gynllunio a threfnu gwellhad parhaus o ran darpariaethau.

Prif ganfyddiadau arolygon gwirio gwasanaethau cyrff sy'n gweithredu cynlluniau iaith:

Delio gyda galwad ffôn yn Gymraeg	47%
Ymateb i ohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg	62%
Negeseuon yn Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol	30%
Tudalennau gwe ar gael yn Gymraeg	52%
Hysbysebu swyddi yn Gymraeg	5%
Dogfennau ar gael yn Gymraeg	44%
Ffurflenni ar gael yn Gymraeg	58%
Defnydd o hunaniaeth corfforaethol yn Gymraeg	59%

Gwasanaethau digidol:

Fel y trafodwyd yn adroddiad sicrwydd y Comisiynydd y llynedd (Camu ymlaen, 2020-21), gwnaeth penderfyniadau'r cyrff o ran ymateb ac addasu eu gwasanaethau yn sgil y pandemig, a'u gallu i symud gwasanaethau ar lein, effeithio'n sylweddol ar y ffordd yr oedd modd i'r cyhoedd barhau i ddefnyddio gwasanaethau yn y Gymraeg.

Serch hynny, ac yn enwedig dros y cyfnod diweddaraf, gwelwyd cynnydd yng ngallu sefydliadau i ddarparu gwasanaethau Gymraeg ar lein – cynnydd allweddol o safbwynt y datblygiadau hir dymor i ddigideiddio gwasanaethau craidd nifer o sefydliadau, a'r pwyslais ar sicrhau hygyrchedd ar lein i gwsmeriaid.

Cynnydd mewn gwasanaethau ar-lein dwyieithog

Mae nifer o adrannau ac asiantaethau Llywodraeth y DU wedi llwyddo i greu gwasanaethau ar-lein newydd yn ddwyieithog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) wedi sicrhau bod eu holl wasanaethau ar-lein ar gael ac yn hygyrch i gwsmeriaid trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Uned y Gymraeg y DWP yn parhau i ymwneud ag ac i gefnogi'r gwahanol dimau sy'n gyfrifol am yr holl wasanaethau hyn, er mwyn sicrhau bod diweddariadau i'r holl wasanaethau ar-lein yn cael eu gwneud i'r gwasanaeth Cymraeg, ar yr un pryd ag y cânt eu gwneud yn Saesneg.

Gwelwyd cynnydd parhaol yn nifer y gwasanaethau dwyieithog gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA). Mae 10 dolen at dudalennau glanio ar gyfer gwasanaethau cerbyd a 12 dolen uniongyrchol at drafodion gyrwyr. Mae dwy ddolen uniongyrchol arall ar gyfer prynu rhif cofrestru cerbyd a thudalen gwybodaeth am gerbydau sydd wedi'u heithrio o dreth cerbyd hefyd yn ddwyieithog. Gwelwyd cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf yn y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg ar lein y DVLA, yn rhannol oherwydd ei fod yn haws erbyn hyn i sicrhau mynediad at y gwasanaethau Cymraeg.

Mae Cofrestrfa Tir EM, fel rhan o'u rhaglen drawsnewid drwy wefan gov.uk, hefyd wedi sicrhau fod nifer o'u gwasanaethau ar-lein ar gael yn ddwyieithog. Mae'r gwasanaethau yma'n cynnwys 'Chwilio am wybodaeth am dir ac eiddo', 'Mynegai Prisiau Tai y DU', 'Y Rhaglen Pridiannau Tir Lleol' a 'Chwilio am Bridiannau Tir Lleol.'

Amlygrwydd y Gymraeg

Gyda golwg ar symud fwyfwy at ddarpariaeth ddigidol ac ar lein, eleni fe arolygwyd faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio gan y sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith ar eu cyfryngau cymdeithasol. Mesurwyd amlygrwydd y Gymraeg pan oedd cyrff yn trafod materion yng Nghymru neu yn gysylltiedig â Chymru. Gwnaeth yr arolygon ganfod mai dim ond **30% o'r cynnwys arolygwyd ar Twitter a Facebook oedd yn ddwyieithog.**

Yn ogystal, wrth arddel eu hunaniaeth gorfforaethol, roedd sefydliadau yn defnyddio/cyhoeddi eu hunaniaeth gorfforaethol yn ddwyieithog neu Gymraeg yn ystod 56% o'r esiamplau arolygwyd.

Golygai hyn yn aml nad yw'r Gymraeg yn cael ei hybu gan y sefydliadau ar-lein neu ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'n debygol fod hyn yn arwain at lai o ymwneud gyda sefydliadau yn y Gymraeg gan nad yw'n cael ei hyrwyddo.

Hysbysebu Swyddi

Roedd yr arolygon a gynhaliwyd wedi canfod fod lefel cydymffurfiaeth sefydliadau o ran hysbysebu swyddi yn y Gymraeg, yn isel iawn. **Dim ond mewn 5% o hysbysebion a arolygwyd** oedd yr hysbyseb ar gael yn Gymraeg, a phrin yw'r gwaith o hybu a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn proses recriwtio'r sefydliadau.

Fel sydd yn cael ei drafod yn yr adran ar hysbysebu swyddi a recriwtio yn yr adroddiad hwn, mae sefyllfa cydymffurfiaeth o dan gyfundrefn y safonau yn bryderus, ond rhaid nodi fod y lefel defnydd o'r Gymraeg y mae'r sefydliadau cynllun iaith arolygwyd yma yn isel iawn. Mae'r cyngor ynghylch gwella cyrhaeddiad a dyletswyddau wrth hysbysebu felly'r un mor berthnasol ac mae angen newid sylweddol yn amlygrwydd y Gymraeg wrth hysbysebu swyddi yng Nghymru gan y cyrff dan sylw.

Ymchwilio dyletswyddau cynlluniau iaith

Mae'r cwynion, o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, a gyflwynwyd at sylw'r Comisiynydd yn ystod y cyfnod 2021-2022 yn amrywiol iawn. Derbyniwyd 15 cwyn gan aelodau o'r cyhoedd yn erbyn cyrff sy'n gweithredu cynlluniau iaith, ac roedd 13 ohonynt yn gwynion dilys.

Derbyniwyd cwyn am fethiant i dderbyn gwasanaeth ffôn yn y Gymraeg a gwasanaeth wyneb yn wyneb yn y Gymraeg.

Ymddengys mai'r prif bryder sy'n tueddu arwain at gwynion yw'r diffyg adnoddau a ffurflenni Cymraeg, ynghyd â dolenni ar wefannau sy'n arwain at ddeunyddiau Saesneg, sy'n adlewyrchiad efallai o'r faith fod nifer o'r cyrff sy'n gweithredu cynlluniau iaith yn symud yn fwy at hybu gwasanaethau ar lein ac o ganlyniad, y daw gwendidau i'r amlwg.

Mae nifer o gwynion hefyd yn ymwneud ag oedi wrth ymateb i ohebiaeth a anfonwyd yn Gymraeg, sydd eto yn adlewyrchu'r ffaith nad oes gan nifer o'r cyrff sy'n ddarostyngedig i gynllun iaith drefniadau digonol mewn lle i sicrhau gwasanaethau yn y Gymraeg.

Ymchwiliad y DVSA

Cynhaliwyd yr ymchwiliad yn sgil amheuaeth am fethiannau honedig ar ran yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) i weithredu ei chynllun iaith Gymraeg yn llawn. Roedd yr ymchwiliad yn gysylltiedig ag amheuon ynghylch gweithrediad tri chymal o fewn cynllun iaith Gymraeg y DVSA o ran darparu profion gyrru drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwnaeth yr ymchwiliad ganfod bod y methiant hwn yn eang ac yn parhau. Mae'r methiant yn rhwystro pobl rhag defnyddio'r Gymraeg ac yn cael yr effaith o annog defnyddio'r Saesneg. Mae hynny oherwydd bod rhaid i ddefnyddwyr y gohiriwyd eu profion wneud y dewis rhwng aros am gyfnodau maith am brawf yn Gymraeg neu ddewis gwneud prawf gyrru yn y Saesneg heb oedi. Ceir tystiolaeth ddiamheuol o hynny yn yr adroddiad ei hun.

Yn sgil yr ymchwiliad, cyflwynwyd 5 o argymhellion i'r sefydliad:

- i) bod y DVSA yn gwneud newidiadau i'r modd maent yn cynnig dewis iaith pan yr archebu profion gyrru ymarferol ar-lein er mwyn sicrhau bod profion gyrru ymarferol Cymraeg yn cael eu cynnig yn rhagweithiol ac yn gyfartal â'r Saesneg; ii) ei bod yn adrodd ar ystadegau mewn perthynas â chanslo profion, a'r hyn sy'n digwydd i geisiadau am brofion Cymraeg nad ydynt yn cael eu cynnal yn Gymraeg; iii) ei bod yn paratoi strategaeth ar gyfer recriwtio arholwyr sy'n gallu darparu profion gyrru ymarferol yn Gymraeg; iv) ei bod yn paratoi strategaeth i sicrhau bod yr arholwyr presennol sy'n siarad Cymraeg yn gallu symud rhwng canolfannau i ateb y galw, ac y dylent flaenoriaethu profion gyrru yn y Gymraeg; v) ei bod yn creu trefn i adrodd ar gyflawniad y

Mae'r Comisiynydd hefyd yn derbyn cwynion ac ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd am sefydliadau nad ydynt yn gweithredu cynllun iaith Gymraeg. Derbyniwyd nifer o gwynion/ ymholiadau dros y 2 flynedd ddiwethaf am elfennau gwahanol o'r broses yn ymwneud â Covid-19.

Amlygwyd yr angen i ystyried y Gymraeg ar lefel y Deyrnas Unedig – a sicrhau ei statws – yn glir iawn yng nghyd-destun pandemig COVID-19 pan benderfynwyd caffael a threfnu nifer o ymatebion allweddol i'r pandemig yn ganolog gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol San Steffan. Pendraw'r canoli ymdrechion hyn gan adran annatganoledig ac anghyfarwydd â gweithredu o dan ofynion y safonau oedd nad oedd pob un o'r gwasanaethau a ddarparwyd wedi'u cynllunio â'r Gymraeg yn ystyriaeth ganolog. Rhaid dysgu gwersi o hyn a sicrhau fod gan y Gymraeg statws cyfansoddiadol a gwleidyddol digonol ar lefel y Deyrnas Unedig i sicrhau darparu gwasanaethau angenrheidiol i ddinasyddion Cymru, yn arbennig mewn cyfnod o argyfwng.

Atodiad 1:

Tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac amrywiol, gan gynnwys:

- monitro – cynnal arolygon profiad defnyddwyr (gwirio gwasanaethau fel gohebiaeth, ffôn, ffurflenni, dogfennau, hunaniaeth gorfforaethol, gwefannau ac ati);
- gwirio adroddiadau blynyddol, dogfennau atodol a hysbysebion swyddi
- cyswllt â sefydliadau – argraffiadau swyddogion sy'n delio â sefydliadau wrth roi cefnogaeth i gydymffurfio, gosod safonau, a chynnal ymchwiliadau.
- Cyfarfodydd casglu tystiolaeth gyda sefydliadau.

O ran arolygon profiad defnyddwyr, dylid nodi mae'r canlyniadau'n seiliedig ar wirio gwasanaethau pob sefydliad rheoliadau rhif 1 a 7, a sampl o gyrff rheoliadau rhif 2, 4, 5 a 6 yn ogystal â detholiad o sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith. Mae rhestr o'r cyrff oedd yn destun arolygon yn atodiad 2.

Cynhaliwyd yr arolygon gwirio gan swyddogion y Comisiynydd. Gwiriwyd y gwasanaethau dair gwaith yn ystod y flwyddyn yn y rhan fwyaf o achosion a gyda methodoleg glir yn seiliedig ar ofynion y safonau o ran be nodir fel cydymffurfiaeth ai beidio.

Profiad defnyddwyr yw prif nod y gwaith gwirio, fodd bynnag roedd y gwirio yn ystyried gofynion y safonau yn llawn, a chyfeirir at rhain yn yr adroddiad ble yn berthnasol i nodi'r angen am well cynllunio ac ati.

Oherwydd penderfyniadau gwnaed yn sgil y pandemig nid yw arolygon wedi ei allanoli wedi cymryd lle yn y ddwy flynedd diwethaf, golygai hyn nad oes data ar berfformiad gyda gwasanaethau megis arwyddion dangosir gan gyrff, derbynfeydd a pheiriannau hunan wasanaeth wedi ei gynnwys gan nad oedd modd eu gwirio.

Arolwg Barn Siaradwyr Cymraeg:

Cynhaliwyd 400 o gyfweliadau y flwyddyn hon gyda siaradwyr Cymraeg ym mis Tachwedd 2021, oherwydd y pandemig, cynhaliwyd y cyfweliadau ar lein. Roedd tua hanner yr ymatebwyr yn cofnodi eu bod yn rhugl. Roedd y sampl yn gynrychioliadol o siaradwyr Cymraeg 16 a throsodd yng Nghymru (trwy edrych ar gyfran sy'n medru siarad Cymraeg o fewn y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru).

Oherwydd y pandemig ac yn sgil colli data yn dilyn ymosodiad seibr ar systemau'r Comisiynydd nid oedd modd i'r Comisiynydd ymgysylltu â'r cyhoedd mewn dulliau eraill yn ystod y flwyddyn hon.

Atodiad 2:

Rhestr o sefydliadau arolygwyd ar gyfer canfyddiadau arolygon gwirio

Rheoliadau Rhif 1	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont Ar Ogwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Cyngor Bro Morgannwg Cyngor Caerdydd Cyngor Casnewydd Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ceredigion Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir Fynwy Cyngor Sir Gâr Cyngor Sir Penfro Cyngor Sir Powys Cyngor Sir Y Fflint Cyngor Sir Ynys Môn Gweinidogion Cymru
Rheoliadau Rhif 2	Colegau Cymru Cyf Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru Comisiynydd Plant Cymru Comisiynydd Pobl Hyn Cymru Gronfa Gymunedol Y Loteri Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Cymru Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru Estyn Opera Genedlaethol Cymru Sefydliad Dysgu A Gwaith Uned Data Llywodraeth Leol Cymru Y Comisiwn Etholiadol BBC Y Swyddfa Gyfathrebiadau (OFCOM)

Rheoliadau Rhif 4	<p>Cyngor Y Gweithlu Addysg Gofal Cymdeithasol Cymru Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru Tribiwnlys Eiddo Prisio Cymru</p>
Rheoliadau Rhif 5	<p>Comisiynydd Heddlu a Throseddi Dyfed Powys Comisiynydd Heddlu a Throseddi Gwent Gwasanaeth Tan Ac Achub De Cymru Heddlu Gogledd Cymru Heddlu Gwent Heddlu Trafnidiaeth Prydain Swyddfa Annibynnol Ymddygiad Yr Heddlu</p>
Rheoliadau Rhif 6	<p>Coleg Caerdydd A'r Fro Coleg Gŵyr Abertawe Coleg Pen-y-bont Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru Prifysgol Abertawe Prifysgol Bangor Prifysgol Cymru Drindod Dewi Sant Prifysgol De Cymru Y Brifysgol Agored Coleg Y Cymoedd Grŵp NPTC Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig</p>
Rheoliadau Rhif 7	<p>Bwrdd Iechyd Prifysgol Powys Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd A'r Fro Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda Ymddiriedolaeth GIG Felindre Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru</p>
Cyrff sy'n gweithredu cynlluniau iaith	<p>Adran Gwaith a Phensiynau Asiantaeth Safonau Gyr a Cherbydau Asiantaeth Taliadau Gwledig Asiantaeth trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Awdurdod Ymddygiad Ariannol</p>

	Gronfa Goffa'r Treftadaeth Genedlaethol Cyllid a Thollau EM Dŵr Cymru Dŵr Hafren Dyfrdwy Grŵp y Post Brenhinol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM Hybu Cig Cymru Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus Tŷ'r Cwmnïau
--	---



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

0345 6033 221

post@comisiynyddygybraeg.cymru

[@ComyGymraeg](https://www.instagram.com/ComyGymraeg)

comisiynyddygybraeg.cymru

Eitem 10

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf JMEWL/02328/22

Y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn
llywelahafowain@gwynedd.llyw.cymru

15 Rhagfyr 2022

Annwyl y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Tachwedd ynghylch darparu cyfieithu ar y pryd yn ddiodyn yng nghyfarfodydd Llywodraeth Cymru.

Wrth drefnu cyfarfodydd rydym yn annog ein staff i ddefnyddio crebwyll o safbwynt y trefniadau cyfarfodydd. Mae mynychwyr o sefydliadau sydd yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r ystyriaethau hynny, ynghyd â thestun y cyfarfod a'i leoliad, er mwyn iddynt wneud penderfyniad i ddarparu'r gwasanaeth ai peidio. Rydym yn darparu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd y tu hwnt i'n dyletswyddau statudol ond mae cyfyngiadau ar hynny wrth i ni flaenoriaethu'n hadnodd cyfieithu. Fel yr eglurais wrth Mr Gibbard yn fy llythyr ym mis Mehefin, ni fyddai'n hadnoddau yn caniatáu inni wneud hynny'n ddiodyn ar gyfer pob cyfarfod a drefnir gan y Llywodraeth.

Mae canlyniad ein partneriaeth ddiweddaraf gyda Microsoft – i ganiatáu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd Teams sydd wedi eu trefnu - newydd ei ryddhau. Yn wir, rydym eisoes wedi profi'r swyddogaeth newydd mewn nifer o gyfarfodydd gyda chryn lwyddiant. Mi fydd ein cydweithredu gyda Microsoft i sicrhau'r datblygiad hwn yn golygu bod cyfleuster cyfieithu ar y pryd ar gael a fydd yn galluogi hyd yn oed fwy ohonom i ddefnyddio'n hiaith mewn cyfarfodydd rhithiol. Rwyf yn meddwl fod diffyg cyfleuster cyfieithu ar y pryd, dros gyfnod y pandemig, wedi effeithio'n andwyol ar ddefnydd y Gymraeg mewn cyfarfodydd rhithiol, a dyma pam rydw i wrth fy modd ein bod ni wedi gallu gweithio ar y cyd â Microsoft i sicrhau ei fod ar gael i bawb sydd yn defnyddio Teams, heb gost ychwanegol.

Fel y nodais yn fy llythyr at Mr Gibbard, mae'r datblygiad yma yn achos o Gymru a'r Gymraeg yn arwain datblygiad a fydd yn cynyddu'r defnydd o ieithoedd ledled y byd, gan gynnwys ieithoedd lleiafrifol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400


Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf eisoes wedi datgan y byddaf yn ei ddefnyddio ar bob cyfle posibl er mwyn i mi allu gwneud rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of a stylized 'J' followed by a wavy line and a short horizontal stroke.

Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg